# GWEITHREDU AR NEWID HINSAWDD SIR GÂR – Mynd i'r Afael â'r Argyfyngau Newid Hinsawdd a Natur:

Asesiad canol rhaglen o'n llwybr tuag at ddod yn Awdurdod Lleol Sero Net erbyn 2030.



# CYNNWYS


| Adran | | Tud |
|---|---|---|
| | **Rhagair** | **3** |
| **1.** | **Rhagair** | **4** |
| 1.1. | Crynodeb o'r Cynnydd yn Erbyn Ein Cynllun Sero Net | 5 |
| **2.** | **Y Cefndir** | **6** |
| 2.1. | Y Newid Hinsawdd | 6 |
| 2.1.1. | - Byd-eang | 6 |
| 2.1.2. | - Cenedlaethol: Cymru | 7 |
| 2.1.3. | - Lleol: Sir Gaerfyrddin | 7 |
| 2.2. | Effeithiau'r Newid Hinsawdd | 8 |
| 2.2.1. | - Cenedlaethol: Y DU | 9 |
| 2.2.2. | - Cymru | 10 |
| 2.2.3 | - Lleol: Sir Gaerfyrddin | 10 |
| **3.** | **Uchelgeisiau o ran Polisi** | **13** |
| 3.1. | Cymru | 13 |
| 3.1.1. | - Strategaeth Addasu i'r Hinsawdd ar gyfer Cymru 2024 | 13 |
| 3.1.2. | - Polisi Adnoddau Naturiol a'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur | 14 |
| 3.2. | Rhanbarth De-orllewin Cymru | 14 |
| 3.2.1 | - Strategaeth Ynni De-orllewin Cymru 2022 | 14 |
| 3.2.2 | - Bargen Ddinesig Bae Abertawe | 15 |
| 3.3. | Sir Gaerfyrddin | 15 |
| 3.3.1 | - Y Sir Gâr a Garem | 16 |
| 3.3.2 | - Datganiad Gweledigaeth Cabinet Sir Gaerfyrddin 2022-2027 | 16 |
| 3.3.3. | - Strategaeth Gorfforaethol Cyngor Sir Caerfyrddin 2022-2027 | 16 |
| 3.3.4 | - Llwybr tuag at Ddod yn Awdurdod Lleol Carbon Sero Net erbyn 2030 (2020) | 16 |
| 3.3.5 | - Cynllun Ynni Ardal Leol (2024) | 16 |
| 3.3.6 | - Blaengynllun ar gyfer Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 | 16 |
| 3.3.7 | - Natur yn Sir Gaerfyrddin: Ein Dull o Weithredu'n Lleol 2020-2030 | 17 |
| 3.3.8 | - Strategaeth ar gyfer Rheoli Glaswelltiroedd i Bryfed Peillio ar Ystâd CSC 2024 | 17 |
| 3.3.9 | - Strategaeth Seilwaith Gwyrdd a Glas 2024 | 17 |
| 3.3.10 | - Strategaeth Coed a Choetiroedd 2024-2029 | 17 |
| 3.3.11 | - Strategaeth Rheoli Maetholion 2024 | 17 |
| **4.** | **Ble ydym ni nawr?** | **18** |
| 4.1. | Un Cyngor | 18 |
| 4.1.1 | - Adran y Prif Weithredwr | 19 |
| 4.1.2 | - Adran Cymunedau | 19 |
| 4.1.3 | - Adran Addysg, Gwasanaethau Plant a Theuluoedd | 20 |
| 4.1.4 | - Adran Lle, Seilwaith a Datblygu Economaidd | 22 |
| **5.** | **Ble ydym ni eisiau bod?** | **23** |
| 5.1. | Taflwybrau Datgarboneiddio | 23 |
| 5.1.1 | - Taflwybr Datgarboneiddio Lefel Isel | 23 |
| 5.1.2 | - Taflwybr Datgarboneiddio Lefel Uchel | 24 |
| 5.1.3. | - Taflwybr Datgarboneiddio Lefel Ganolig | 24 |
| **6** | **Sut ydym ni'n mynd i gyrraedd yno?** | **25** |
| 6.1. | Cydweithio - Sut rydym yn trefnu i ymdrin â'r heriau | 26 |
| 6.2. | Cynnydd yn Erbyn Camau Gweithredu | 27 |
| 6.3. | Senarios Datgarboneiddio | 27 |
| 6.3.1 | - Senarios Prosiectau yn yr Arfaeth | 28 |
| 6.3.2 | - Senario Datgarboneiddio Gwaredu Adeiladau | 28 |

| | | |
|---|---|---|
| 6.3.3<br>6.4.<br>6.5. | - Senario Datgarboneiddio Fflyd<br>Newid Hinsawdd a'r Argyfwng Natur - Cynllun Pobl a Newid Diwylliannol<br>Cost Datgarboneiddio | 29<br>30<br>30 |
| **7** | **Casgliad** | **31** |
| **Atodiad 1** | **Ôl troed Carbon** | **33** |
| **Atodiad 2** | **Cost Datgarboneiddio** | **49** |
| **Atodiad 3** | **Cynllun Pobl a Newid Diwylliannol y Newid Hinsawdd a'r Argyfwng Natur** | **51** |
| **Atodiad 4** | **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 – Adolygiad 2023-2025 Cyngor Sir Caerfyrddin** | **56** |
| **Atodiad 5** | **Rhestr o Gyfeiriadau** | |

## RHAGAIR



Anrhydedd o'r mwyaf yw bod yn Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd, a chael y gwaith o sicrhau dyfodol cynaliadwy.

Yn wyneb tystiolaeth gynyddol a rhybuddion difrifol gan wyddonwyr ledled y byd, mae'n dod yn fwyfwy amlwg bod dynoliaeth yn sefyll ar drothwy tyngedfennol
yn ei hanes. Mae hi'n unfed awr ar ddeg ar yr argyfwng hinsawdd a natur, lle bydd y camau a gymerwn - neu na chymerwn - yn llywio tynged ein planed a chenedlaethau'r dyfodol.

Yn 2019, Cyngor Sir Gâr oedd un o'r Awdurdodau lleol cyntaf yng Nghymru i ddatgan argyfwng hinsawdd ac ymrwymo i ddod yn Gyngor Sir Sero Net erbyn 2030, ac yn 2022, datganwyd argyfwng natur gennym hefyd.

Rydym yn wynebu'r her o orfod ailysgrifennu hanes ein cenedl. Gyda'n gilydd, rhaid i bob un ohonom ddechrau gwneud penderfyniadau mwy beiddgar ac ymrwymo i chwarae ein rhan fel unigolion, sefydliadau a chymunedau i fynd i'r afael â'r argyfyngau hyn, a hynny er gwaethaf y pwysau ariannol a chymdeithasol aruthrol o'n blaen.

Er mwyn troi'r dudalen ar orffennol o echdynnu ac ecsploetio, a dychmygu pennod newydd, bydd angen inni weithio mewn ffordd wahanol a chamu i ofod newydd radical lle byddwn yn cydweithio ar draws sefydliadau a chymunedau; gan symud i ffwrdd oddi wrth wneud llai o ddrwg a chanfod ffyrdd gwell i ddarganfod ffiniau'r hyn sy'n bosibl er mwyn diogelu ein dyfodol.

Mae gan Gymru botensial anhygoel i fwrw ymlaen â'r newid i fyw ar lefelau isel o garbon. Mae gennym ddigonedd o wynt, tonnau a haul - ond rhaid inni rwystro camddefnydd o'r cyfoeth hwn eto, wrth i'r elw lifo allan o Gymru gan adael ein cymunedau ar ôl. Rhaid i'r seilwaith fod yn addas i'r dyfodol, yn sensitif i'n tirweddau, ac wedi'i siapio gan y bobl sy'n byw agosaf ato. Ar ben hynny, rhaid i adferiad natur fod yn greiddiol i'n cynlluniau. Mae hynny'n golygu gosod targedau clir ac uchelgeisiol ac edrych ar y modd yr ydym yn defnyddio ac yn rheoli ein tir.

Wrth inni gynllunio am ddyfodol gwell, rhaid inni wynebu realiti'r presennol. Nid bygythiad pell i ffwrdd yw'r argyfwng hinsawdd bellach - mae ar garreg ein drws. Byddwn yn profi mwy o lifogydd, mwy o gyfnodau sych a mwy o straen ar y gallu i gynhyrchu bwyd ac iechyd. Rhaid inni addasu a rhaid inni gynnwys gwydnwch ym mhob penderfyniad — ym maes tai, seilwaith, ac yn y ffordd rydym yn cefnogi ein cymunedau. Rhaid inni adeiladu nid yn unig ar gyfer heddiw, ond ar gyfer yr hyn sydd i ddod.

OND am gyfnod i fod yn arweinwyr. Beth am inni fod yn y genhedlaeth a ddewisodd beidio ailadrodd yr un hen gamgymeriadau - ond a ddewisodd greu stori newydd i Sir Gâr, yn seiliedig ar degwch, gwydnwch a gobaith.

Mae'n fy mhoeni y bydd cenedlaethau'r dyfodol yn gofyn – os oeddech chi'n gwybod cymaint, pam dewis gwneud cyn lleied? Dyma pam ein bod yn gwneud cymaint ag y gallwn yma yn Sir Gâr.

Dychmygwch y potensial pe baem yn dod ynghyd, pob un â'i rôl unigryw, gan symud ymlaen gyda'n gilydd tuag at yr un nod cyffredin.

Y Cyng. Aled Vaughan Owen
**Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd**

# 1. CYFLWYNIAD

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cydnabod pwysigrwydd mynd i'r afael â heriau amgylcheddol a datganodd Argyfwng Hinsawdd yn 2019, ac Argyfwng Natur yn ddiweddarach yn 2022.

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu ein cynnydd yn erbyn y camau gweithredu a nodir yn ein Cynllun Carbon Sero Net (Llwybr tuag at Ddod yn Awdurdod Lleol Carbon Sero Net erbyn 2030) a'r camau gweithredu rydym yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r argyfwng Natur drwy ein Blaengynllun ar gyfer Deddf yr Amgylchedd. Er y byddwn yn parhau i fodloni'r gofynion adrodd Cenedlaethol ar wahân, credwn y dylid ystyried y materion hyn gyda'i gilydd gan fod cysylltiadau agos rhyngddynt. Gan hynny, rydym yn trafod y naill a'r llall yn yr adolygiad. Cyflwynodd y Cyngor ei Gynllun Sero Net yn 2019 a oedd yn manylu ar ei uchelgais i ddod yn Awdurdod Lleol Sero Net erbyn 2030 yn seiliedig ar bedwar maes allweddol. Rydym hanner ffordd drwy'r rhaglen honno o weithgareddau ym mlwyddyn galendr 2024, gan olygu ei bod hi'n briodol cynnal archwiliad manylach o gyflawniad y Cyngor, a nodir yn yr adroddiad hwn.

Er bod y fethodoleg wrth wraidd ein cynllun wedi mabwysiadu dull pragmataidd bwriadol, gan ganolbwyntio ar faterion gweithredol sydd o fewn ein rheolaeth, nid y hynny'n lleihau ein hymrwymiad i gyrraedd ein targed Sero Net a hyrwyddo datgarboneiddio'n fwy cyffredinol. Rydym wedi myfyrio ar y cynnydd da a gafwyd ac ar yr angen i arwain drwy esiampl, drwy ailfframio ein dull er mwyn casglu'r gweithgarwch ehangach y mae'r cyngor yn ei gyflawni i liniaru ac addasu i'r heriau o'n blaen.


Mae'r adroddiad cynnydd hwn felly'n cynnig archwiliad manylach o'r gwaith hwnnw na yw wedi'i gynnwys yn nhargedau adrodd ein cynllun sero net gwreiddiol. Wrth gyrraedd y pwynt hanner ffordd, rydym yn ehangu ein ffocws ac yn ategu ein Cynllun Sero Net â 'Chynllun Pobl a Newid Diwylliannol', yn modelu taflwybrau, ac yn adrodd ar ein blaengynllun ar gyfer Deddf yr Amgylchedd. Byddwn yn mabwysiadu'r dull newydd hwn am flynyddoedd olynol.

Mae hyn yn dangos y modd rydym yn gweithio fel **Un Cyngor** ac yn cryfhau'r neges bod angen dull cydweithredol er mwyn mynd i'r afael ag effeithiau heriol yr argyfwng hinsawdd a natur: dinasyddion, cymunedau, busnesau a'r Llywodraeth, yn gweithio gyda'i gilydd. Mae ein hymateb i argyfwng iechyd pandemig COVID-19 yn profi ein bod, o weithio gyda'n gilydd, yn hynod o alluog i oresgyn unrhyw her.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru eu Canllaw Adrodd Sero Net Sector Cyhoeddus cyntaf yn 2021, flwyddyn ar ôl cyhoeddi cynllun y Cyngor. Canlyniad hynny oedd bod yr awdurdod wedi mabwysiadu dull gwahanol i'n methodoleg adrodd. Teimlwn fod ein dull pragmataidd yn fwy cadarn, am ein bod wedi cynnwys mesurau gweithredol sydd oddi mewn i'n rheolaeth. Ar ben hynny, mae methodoleg Llywodraeth Cymru yn newid yn gyson gyda mesurau newydd, sy'n aml yn seiliedig ar dybiaethau, yn cael eu hychwanegu.

## 1.1. CRYNODEB O'R CYNNYDD YN ERBYN EIN CYNLLUN SERO NET

Ers 2019/20 mae'r awdurdod wedi bod yn adrodd ar y pedwar maes allweddol a nodir yn ein Cynllun Sero Net; Adeiladau annomestig; Goleuadau stryd; Milltiroedd y Fflyd; a Milltiroedd Busnes. Ein blwyddyn waelodlin ar gyfer adrodd ar garbon yw 2016/17 ac mae'r tabl isod yn dangos ein cynnydd ers hynny. Fel y gwelwch, mae'r graff yn dangos perfformiad cryf, ar ôl inni leihau ein hallyriadau o 26,542 $tCO_2e$ i 16,756 $tCO_2e$, sy'n cyfateb i ostyngiad o 37% o gymharu â blwyddyn waelodlin 2016-17. Er na ellir cymharu'n uniongyrchol, mae hyn yn adlewyrchu gostyngiad allyriadau Cymru o 37% ers ei blwyddyn waelodlin, 1990. Cyflawnwyd ein llwyddiant i raddau helaeth drwy weithredu mesurau effeithlonrwydd ynni ar draws ein hystâd.




Gan adeiladu ar ein Cynllun Sero Net, bydd y dull cydgysylltiedig newydd o gymorth i ymwreiddio datgarboneiddio, addasu i'r hinsawdd a gwarchod a gwella natur. Bydd hefyd yn dangos ein bod wedi symud ymlaen o ganolbwyntio ar fesurau sylfaenol, fel ailgylchu a diffodd goleuadau, ac wedi symud tuag at ymdriniaeth â phroblemau seilwaith carbon-ddwys mwy heriol a mwy corfforedig, fel ein systemau gwresogi, sy'n hanfodol er mwyn inni allu gweithredu. Fodd bynnag, mae'n dal yn hanfodol ein bod yn parhau i wneud y pethau sylfaenol gan fod hynny'n ein helpu i gyrraedd y nod. Mae'r dull ehangach yn anelu i gasglu'r rhan fwyaf o'r gwaith sy'n cael ei gyflawni o fewn yr agenda hon ar draws yr awdurdod, ond oherwydd maint aruthrol yr hyn sy'n cael ei gyflawni, ni all gasglu popeth.


Dylid nodi bod ein data perfformiad a ddyfynnir yn y ddogfen hon yn defnyddio ffactorau trosi allyriadau'r DU a gyhoeddwyd gan yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net. Caiff y ffactorau allyriadau hyn eu newid wrth i ynni droi'n lanach - trydan yn bennaf gydag ynni mwy adnewyddadwy wedi'i gynnwys yn y gymysgedd o ynni. Fodd bynnag, gall y ffactorau hyn hefyd gynyddu wrth i ddata ddod yn fwy cywir. Bob blwyddyn, felly, mae ein data yn seiliedig ar y ffactorau trosi ar gyfer y flwyddyn honno. Ceir hyd i'r ffactorau trosi a ddefnyddiwyd ar gyfer blwyddyn adrodd 2023/24 yma: Adrodd ar nwyon tŷ gwydr: ffactorau trosi 2024 - GOV.UK.

# 2. Y CEFNDIR


## 2.1. Y NEWID HINSAWDD

### 2.1.1. Byd-eang

Newid hinsawdd yw'r newid hirdymor i dymheredd a thywydd cyfartalog y Ddaear (BBC News, 2024). Mae'r Ddaear yn cael ei chynhesu gan effaith nwyon tŷ gwydr. Mae hon yn broses naturiol, a hebddi, ni fyddai bodau dynol yn gallu goroesi ar y blaned. Mae nwyon tŷ gwydr - sy'n cynnwys carbon deuocsid ($CO_2$), methan ($CH_4$), ocsid nitraidd ($N_2O$), hydrofflworocarbonau (HFC), perfflworocarbonau (PFC), hecsafflworid sylffwr ($SF_6$) a nitrogen trifflworid ($NF_3$), yn bresennol yn atmosffer y Ddaear ac yn dal gwres o'r haul. Mae'r newid hinsawdd yn digwydd yn naturiol, ac mae tystiolaeth bod tymheredd byd-eang wedi codi a gostwng, drwy gydol oes y Ddaear, er enghraifft oes yr ia.




Fodd bynnag, ni all achosion naturiol esbonio'r cynhesu cyflym iawn a welwyd yn y ganrif ddiwethaf, yn ôl corff hinsawdd y Cenhedloedd Unedig, y Panel Rhynglywodraethol ar Newid Hinsawdd (IPCC). Mae'r newid hinsawdd cynyddol hwn wedi'i achosi gan weithgarwch dynol, meddai'r IPCC, yn bennaf oherwydd y defnydd eang o danwydd ffosil fel glo, olew a nwy, mewn cartrefi, ffatrïoedd ac ar gyfer trafnidiaeth. Ers dechrau'r Chwyldro Diwydiannol, pan ddechreuodd pobl losgi llawer iawn o danwydd ffosil, mae swm y $CO_2$yn yr atmosffer wedi cynyddu tua 50%. Mae hyn wedi achosi i'r tymheredd byd-eang cyfartalog fod tua 1.2°C yn gynhesach nag yn ystod diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg (19eg ganrif). Mae'r cynhesu byd-eang cynyddol hwn yn broblem enfawr oherwydd ei effeithiau ar y blaned nawr ac yn y dyfodol.




I fynd i'r afael â newid hinsawdd a lleihau effaith hynny daeth *Cytundeb Paris* i rym ar 4fed Tachwedd 2016 - cytuniad rhyngwladol sydd wedi'i rwymo mewn cyfraith. Fe'i mabwysiadwyd gan 196 o bleidiau yng Nghynhadledd Newid Hinsawdd y Cenhedloedd Unedig ('COP21') ym Mharis ar 12 Rhagfyr 2015. Mae Cytundeb Paris yn garreg filltir yn y broses amlochrog ar gyfer newid hinsawdd oherwydd, am y tro cyntaf, mae cytundeb rhwymol yn dod â gwledydd ynghyd i frwydro yn erbyn newid hinsawdd ac addasu i'w effeithiau. Cytunwyd yn y cytuniad y dylid cyfyngu cynhesu byd-eang i 1.5°C uwch lefelau cyn-ddiwydiannol er mwyn atal digwyddiadau hinsoddol trychinebus, oherwydd po fwyaf y bydd tymheredd cyfartalog yn codi, y gwaethaf fydd effeithiau'r newid hinsawdd.


Fodd bynnag, cadarnhawyd bod cynhesu byd-eang wedi codi'n uwch na 1.5°C dros y cyfnod o 12 mis rhwng Chwefror 2023 ac Ionawr 2024, a datganwyd mai 2023 oedd y flwyddyn gynhesaf ar gofnod. Gweithgarwch dynol a ysgogodd y newid tymheredd hwn i raddau helaeth.



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

Yn greiddiol i Gytundeb Paris, ceir addunedau cenedlaethol i gyfrannu at nodau lliniaru ac addasu byd-eang. Mae Cytundeb Paris yn nodi mecanwaith lle mae pob gwlad yn cynhyrchu cyfraniad a bennir yn genedlaethol (NDC), y mae'n rhaid ei gyflwyno bob pum mlynedd ar y mwyaf.

### 2.1.2. Cenedlaethol: Cymru





Mae Cymru wedi llwyddo i sicrhau gostyngiad o 37% i'w allyriadau nwyon tŷ gwydr o gymharu â 1990 (blwyddyn waelodlin). Fodd bynnag, yn 2022 allyrrodd Cymru 37.7 miliwn $tCO_2e$ (Pwyllgor Newid Hinsawdd, 2025). Y ffynhonnell fwyaf o allyriadau yw'r sector cyflenwi ynni gan ei fod yn cynhyrchu 26% o allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru. Y sector busnes yw'r ail allyrrydd mwyaf, gan gyfrif am 24% o allyriadau Cymru. Mae hyn yn bennaf oherwydd y defnydd o danwydd ffosil mewn gwaith cynhyrchu diwydiannol, yn bennaf mewn dur a haearn. Sectorau eraill sy'n allyrwyr uchel yw'r sector amaethyddol (16%), y sector trafnidiaeth (15%), y sector preswyl (10%) a'r sector prosesau diwydiannol (6%). Mae pob sector arall yn cyfrannu llai na 5%. Rhaid nodi mai ond allyriadau tiriogaethol Cymru y mae hyn yn eu hystyried, ac nad yw'n cynnwys allyriadau sy'n cael eu creu y tu allan i Gymru er budd y wlad e.e. nwyddau a gwasanaethau a gaiff eu mewnforio (Taylor, 2023).

### 2.1.3. Lleol: Sir Gaerfyrddin

Cynhyrchir ystadegau cenedlaethol allyriadau nwyon tŷ gwydr awdurdodau lleol a rhanbarthol y DU yn flynyddol gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol. Mae'r canlynol yn dyfynnu Data allyriadau 2019 ar gyfer Sir Gaerfyrddin gan mai dyma'r flwyddyn ddiwethaf lle nad oedd COVID-19 wedi effeithio ar y data sydd ar gael; Amaethyddiaeth oedd prif ffynhonnell cyfanswm allyriadau Sir Gaerfyrddin yn 2019, sef 49%. Roedd allyriadau o amaethyddiaeth sy'n gysylltiedig ag ynni (o adeiladau a pheiriannau) i gyfrif am 7%, gyda'r allyriadau amaethyddol mwy sylweddol nad oeddent yn gysylltiedig g ynni (o dda byw, defnydd tir a phriddoedd) yn 42%. Cynhyrchwyd yr allyriadau uchaf yn gysylltiedig ag ynni gan y sector domestig sef 19%. Mae sectorau diwydiannol a masnachol Sir Gaerfyrddin, gyda'i gilydd, yn cyfrannu at 13% o gyfanswm yr allyriadau. Caiff 7% o allyriadau blynyddol eugwrthbwyso drwy Ddefnydd Tir, Newid Defnydd Tir a Choedwigaeth (LULUCF).

Mae allyriadau nwyon tŷ gwydr Sir Gaerfyrddin wedi lleihau 38% yn ystod 2005 - 2019, yn bennaf yn sgil datgarboneiddio'r grid trydan cenedlaethol.




## 2.2. EFFEITHIAU'R NEWID HINSAWDD

Mae ein system hinsawdd wedi'i chydbwyso'n fanwl, a gall newidiadau bach greu canlyniadau sylweddol. Mae newid hinsawdd yn effeithio ar brosesau naturiol sylfaenol y Ddaear gan fod gweithgarwch dynol yn achosi i dymheredd byd-eang gynyddu'n gyflym, ac mae'r amgylcheddau adeiledig a naturiol yn ei chael hi'n anodd addasu i'r amodau hyn yn ddigon cyflym.


Mae rhai o effeithiau'r newidiadau hyn ar ein system hinsawdd yn cynnwys:

- Perygl i gyflenwadau dŵr
- Llifogydd lleol
- Llifogydd mewn rhanbarthau arfordirol
- Difrod i ecosystemau morol
- Colli bioamrywiaeth
- Pysgodfeydd yn methu
- Newid i natur y tymhorau
- Straen gwres
- Mae'r rhanbarth lle mae plâu a firysau yn gallu goroesi yn ehangu
- Marwolaethau coedwigoedd a risg uwch o danau
- Difrod i seilwaith
- Ansicrwydd bwyd
- Ymfudwyr oherwydd rhyfel a'r hinsawdd (Y Swyddfa Dywydd, 2024).





### 2.2.1. Cenedlaethol: Y DU

Mae newid hinsawdd yn achosi cynnydd dramatig i amlder tymheredd eithafol ac i nifer y recordiau tymheredd a brofir gan y DU. Mae hyn yn golygu bod y DU yn gweld cyfnodau mwy mynych o dywydd poeth, sy'n creu heriau o ran seilwaith a iechyd a llesiant. Mae'r arsylwadau hefyd yn awgrymu cynnydd mewn glawiad eithafol (Kendon, *et al,* 2023) gyda glawiad cyfartalog y DU 11% yn uwch na'r cyfartaledd yn 2023. Mae'n debyg mai'r hyn sy'n achosi'r cynnydd mewn glawiad yw'r ffaith bod mwy o gapasiti i ddal lleithder mewn atmosffer cynhesach (Y Swyddfa Dywydd 2024). Bydd y newidiadau hyn i batrymau tywydd yn cael effeithiau dinistriol ar ein gallu i gynhyrchu bwyd a'n hiechyd oherwydd gall gwres eithafol achosi straen mawr i'n cyrff, a gall arwain at drawiad gwres, gorflinder ac, mewn achosion difrifol, marwolaeth. Amcangyfrifodd Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU fod tymereddau eithafol wedi achosi bron i 3,000 o farwolaethau ychwanegol yng Nghymru a Lloegr yn ystod haf 2022. Yn ogystal â hynny, mae tywydd cynhesach yn y DU yn agor y drws i firysau nad ydynt wedi gallu goroesi yma yn y gorffennol. Mae'r ffaith bod Firws Gorllewin y Nîl wedi'i ganfod mewn mosgitos yn y DU am y tro cyntaf ym mis Mai 2025 yn enghraifft berffaith o hyn. Gall y firws hwn, sydd fel arfer i'w gael mewn rhannau o Affrica, De America a thir mawr Ewrop, fod yn niweidiol i bobl ac anifeiliaid (Santos a Roxby, 2025).





Ffynhonnell: [Eithafion a chofnodion tymheredd yr effeithiwyd arnynt fwyaf gan hinsawdd newidiol y DU - Y Swyddfa Dywydd] (Gorffennaf 2024)

**Cynhesu byd-eang a thywydd mawr ei effaith yn y dyfodol yn y DU**




Ffynhonnell: [Strategaeth Addasu i'r Hinsawdd ar gyfer Cymru]


### 2.2.2. Cymru




Yn yr un modd, mae tymereddau cyfartalog hefyd wedi cynyddu yng Nghymru, a 2023 oedd y flwyddyn gynhesaf ddilynol ar gofnod (Madge, 2021). Bydd y cynnydd mewn tymheredd yn parhau, ac amcangyfrifir y bydd yn cynyddu 3.9 °C erbyn y 2080au (Netherwood, 2021). Mae glawiad hefyd wedi cynyddu yng Nghymru, ac ers 1961 gwelwyd cynnydd o fwy na 10% (Madge, 2021). Rhagwelir y ceir cynnydd pellach o 25% yng nglawiad y gaeaf erbyn 2050, ond gallai glawiad yr haf ostwng hyd at 26% erbyn y 2080au. Bydd y newidiadau hyn mewn patrymau tywydd yn creu effeithiau dinistriol ar fywoliaeth yng Nghymru, ac amcangyfrifir bod 245,000 o eiddo yng Nghymru mewn perygl o lifogydd (Ymchwil y Senedd, 2023). Mae hyn wedi golygu bod yn rhaid i lywodraeth Cymru fuddsoddi mwy na £38 miliwn eleni yn unig (2024-25), er mwyn rheoli perygl llifogydd (James, 2024). Bydd hyn hefyd yn effeithio'n ddifrifol ar yr amgylchedd naturiol, oherwydd newid i addasrwydd cynefinoedd a phatrymau bridio, gan achosi i 25% o'r rhywogaethau a geir yng Nghymru ar hyn o bryd gael eu colli yn ôl yr Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd (ARNH). Mae'r ARNH hefyd yn tynnu sylw at y ffaith y bydd cynhyrchiant da byw yn lleihau 10-15% yn sgil straen gwres a newidiadau i batrymau twf tir pori. Bydd y newid mewn patrymau tywydd hefyd yn newid addasrwydd cnydau mewn gwahanol ardaloedd. Mae'r newid hinsawdd felly'n rhoi mwy o straen ar ddiwydiant sydd eisoes yn anwadal ac sy'n greiddiol i Gymru.

### 2.2.3. Lleol: Sir Gaerfyrddin


Mae Sir Gaerfyrddin yn teimlo llawer o'r un pwysau â gweddill Cymru yn sgil y newid hinsawdd. Rydym wedi teimlo effeithiau'r cynnydd mewn glawiad, a'r stormydd mwy mynych. Un storm gofiadwy iawn oedd Storm Callum yn 2018, sef y digwyddiad llifogydd mwyaf a gofnodwyd ers 1987 ar gyfer afonydd Tywi a Theifi, ac a effeithiodd ar gannoedd o fusnesau a chartrefi ledled y sir, yn enwedig mewn ardaloedd fel Caerfyrddin, Castellnewydd Emlyn, a Llandeilo. Roedd yn ddigwyddiad dramatig a wnaeth ein hatgoffa nad yw'r sir yn rhydd rhag effeithiau'r newid hinsawdd, a bod y nifer y bydd hyn yn effeithio arnynt ar gynnydd. Yn ôl StatsCymru yn 2024 roedd ychydig llai na 7,000 eiddo yn Sir Gaerfyrddin mewn perygl o lifogydd, ac mae hyn wedi cynyddu 21% ers 2019. Maen nhw wedi rhagweld y bydd yr eiddo sydd mewn perygl erbyn 2120 yn cynyddu i 15,595 (56% arall).




Ar y llaw arall, bydd Sir Gaerfyrddin hefyd yn teimlo pwysau hafau sychach a chynhesach, a all effeithio ar ein hiechyd. Yn seiliedig ar ffigurau'r DU, amcangyfrifir bod tua 2,000 o farwolaethau yng Nghymru yn 2023 yn gysylltiedig â gwres (Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU, 2025). Ar ben hynny, gall y tymhorau cynhesach hyn gynyddu'r risgiau o barasitiaid a phlâu, nad ydynt wedi bod yn endemig i'r rhanbarth yn hanesyddol ond a fydd yn gallu goroesi mewn ardaloedd newydd lle mae'r newid yn yr hinsawdd yn gallu cynnal eu bodolaeth.

Bydd y newidiadau sy'n seiliedig ar yr hinsawdd hefyd yn cael effaith ddinistriol ar y sector amaethyddol. Nid yn unig y bydd newid hinsawdd yn cael effaith negyddol ar y gallu i gynhyrchu bwyd, ond bydd hefyd yn cael effaith negyddol ar economi Sir Gaerfyrddin, gan mai amaethyddiaeth yw un o'r sectorau mwyaf yn y sir, a'i fod yn cyflogi 7.5% o'r gweithlu. Fodd bynnag, er mai amaethyddiaeth yw un o'r allyrwyr mwyaf yn y Sir, rhaid nodi mai dyna'r sector sydd â'r potensial mwyaf o ran helpu i liniaru ac addasu i'r newid hinsawdd. Sector arall sy'n debygol o deimlo pwysau enfawr oherwydd y newid mewn patrymau tywydd yw twristiaeth. Gallai'r ansicrwydd tymhorol achosi gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr â Sir Gaerfyrddin. Mae potensial felly i hyn gael effaith ddinistriol ar economi Sir Gaerfyrddin, gan fod y sector wedi cynhyrchu dros £683 miliwn yn 2023, ac wedi cyflogi dros 6,000 o bobl (Cyngor Sir Caerfyrddin, 2024).

Nid yn unig y mae newid hinsawdd yn effeithio'n fawr ar ffactorau cymdeithasol ac economaidd y sir, ond mae hefyd yn cael effaith drychinebus ar yr amgylchedd naturiol. Oherwydd newid hinsawdd, dinistr cynefinoedd, llygredd, gorddefnydd o adnoddau a rhywogaethau ymledol, rydym yn wynebu argyfwng natur. Ceir dirywiad brawychus mewn poblogaethau bywyd gwyllt, mae cynefinoedd hanfodol fel coetiroedd a gwlyptiroedd yn cael eu difrodi, ac mae ecosystemau sy'n cynnal bywyd ar y Ddaear yn cael eu gwanio, gyda gwyddonwyr yn datgan ein bod yn nesáu at ddiflaniad crynswth. Mae ein hamgylchedd naturiol hefyd yn agored i glefydau, firysau a pharasitiaid nad ydym erioed wedi'u gweld yn y DU o'r blaen oherwydd y newid hinsawdd. Un enghraifft ddiweddar yw'r gostyngiad yn nifer yr adar duon yn y DU. Mae hyn oherwydd bod yr aderyn wedi'i heintio gan y firws Usutu a darddodd o Dde Affrica (Horton, 2024). Mae'r argyfwng natur yn rhoi hyd yn oed mwy o bwysau ar amaethyddiaeth a llesiant dynol wrth i ecosystemau iach ddarparu gwasanaethau hanfodol fel aer glân, dŵr, bwyd, a rheoleiddio'r hinsawdd. Mae hyn yn golygu bod angen gweithredu ar frys i fynd i'r afael â'r newid hinsawdd a'r argyfwng natur, ac y dylid cydweithredu i wneud hynny, er mwyn sicrhau planed y gall pob rhywogaeth fyw arni.




Ffynhonnell y ddelwedd: Adroddiad ar Gyflwr Natur - Cyflwr-Natur-2019-DU-27-09-19

Fel y dangosir gan yr infograffeg, ceir cynnydd sylweddol yn y boblogaeth o lyslau, sy'n cael effaith ddinistriol ar yr amgylchedd naturiol. Mae llyslau yn sugno nodd o blanhigion sy'n achosi difrod sylweddol ac maent hefyd yn trosglwyddo firysau planhigion ac yn denu plâu eraill fel morgrug. Mae hyn yn cynyddu bregusrwydd ein gwaith cynhyrchu amaethyddol.

Er gwaethaf datblygiadau technolegol mae bywyd dynol yn dibynnu'n helaeth ar ecosystemau iach a bywiog - hynny yw, mae ein bywydau ni'n ddibynnol ar ddatrys yr argyfwng natur. Mae ecosystemau iach yn darparu gwasanaethau hanfodol sy'n cynnal ein bodolaeth. Mae natur yn cyflenwi aer glân, dŵr ffres, bwyd a meddyginiaethau, gan reoleiddio'r hinsawdd a chefnogi amaethyddiaeth drwy beillio a chylchdroi maetholion. Gan fod amaethyddiaeth yn rhan mor fawr o economi a diwylliant Sir Gaerfyrddin, mae'n hanfodol inni warchod amgylchedd naturiol y sir. Yn ogystal â hynny, mae coetiroedd, cefnforoedd a gwlyptiroedd yn gweithredu fel clustogau naturiol rhag tywydd eithafol ac yn helpu i amsugno allyriadau carbon. Mae natur hefyd yn cefnogi llesiant meddyliol a'n bywydau diwylliannol, gan fod gan fodau dynol gysylltiad bioffilig ac mae planhigion yn tawelu'r ymennydd, gan feithrin agwedd gadarnhaol, ymdeimlad cryfach o lesiant a llonyddwch. Mae hefyd wedi'i brofi y gall planhigion greu cynnydd o 15% mewn cynhyrchiant (McHugh, 2024.). Heb ecosystemau ffyniannus, byddai'r adnoddau a'r cydbwysedd y mae dynoliaeth yn dibynnu arnynt yn chwalu, gan fygwth iechyd, bywoliaeth a'r gallu i oroesi, gan gynnwys ein gallu ni ein hunain, ein plant a'n hwyrion i oroesi.

# 3. UCHELGEISIAU O RAN POLISI

Yn y bennod hon byddwn yn archwilio'r polisïau sydd ar waith er mwyn helpu i oresgyn yr argyfyngau hinsawdd a natur.

## 4.1. CYMRU

Mae Cymru yn unigryw gan fod ganddi *Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol*. Mae'r Ddeddf yn cynnwys 7 nod llesiant, sy'n anelu i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn rhwymo cyrff cyhoeddus yn gyfreithiol i sicrhau y bydd pob datblygiad yn cael effaith gadarnhaol ar genedlaethau'r dyfodol, ac mae datgarboneiddio yn chwarae rhan hanfodol yn hyn o beth. O dan adran 6 yn *Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016* mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i sicrhau bod ystyriaeth i fioamrywiaeth wedi'i hymgorffori ym mhroses ddatblygu pob busnes a phrosiect. Gwneir hynny drwy gamau sy'n canlyn cyfleoedd yn weithredol i wella a chynnal yr amgylchedd naturiol a hyrwyddo gwydnwch ecosystemau. Gan ddilyn fframweithiau cyfreithiol y ddwy Ddeddf, datblygodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth newid hinsawdd a gosod y targed sydd wedi'i rwymo mewn cyfraith o fod yn genedl Net Sero erbyn 2050. Mae hyn wedi'i nodi i raddau helaeth yn *Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel (2019)* - Cynllun Cyflawni Carbon Isel statudol cyntaf Cymru, a *Cyllideb Carbon Sero Net Cymru 2 (2021)*– ail gynllun lleihau carbon Cymru, sydd i'w gael yma: Cyllideb Carbon Sero Net Cymru 2 (2021 i 2025) | LLYW.CYMRU. Cewch hyd i holl bolisïau Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â'r Amgylchedd a Newid Hinsawdd yma: Yr amgylchedd a'r newid yn yr hinsawdd | Pwnc | LLYW.CYMRU



Ffynhonnell y ddelwedd: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol |

#### 4.1.1. Strategaeth Addasu i'r Hinsawdd ar gyfer Cymru 2024

Mae'r *Strategaeth Addasu i'r Hinsawdd ar gyfer Cymru 2024* yn amlinellu dull cynhwysfawr o fynd i'r afael ag effeithiau newid hinsawdd. Mae'n pwysleisio pwysigrwydd adeiladu cymunedau gwydn, gwarchod ecosystemau, a diogelu'r economi. Mae'r strategaeth yn cynnwys amcanion allweddol, fel gwella amddiffynfeydd rhag llifogydd, y gellir eu cyflawni drwy seilwaith adeiledig a naturiol; gwella systemau rhybuddio cynnar, i rybuddio am ddigwyddiadau tywydd garw, gan ganiatáu i gymunedau baratoi ac ymateb yn effeithiol - enghraifft berffaith o hyn yw'r rhybudd a gawsom ar ein ffonau symudol ynghylch storm Darragh; a hyrwyddo defnydd tir cynaliadwy sy'n gwella bioamrywiaeth, yn lleihau erydiad pridd, ac yn cynyddu cyfraddau atafaelu carbon.

Gellir gweld yr adroddiad llawn yma: Strategaeth Addasu i'r Hinsawdd ar gyfer Cymru 2024 | LLYW.CYMRU

#### 4.1.2. Polisi Adnoddau Naturiol a'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur

Cafodd y *Polisi Adnoddau Naturiol* ei gynhyrchu yn rhan o *Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016*, ac mae'n egluro sut y bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio polisïau cenedlaethol i reoli ein hadnoddau naturiol (y tir, y môr a'r awyr). Mae'r polisi'n nodi tair blaenoriaeth genedlaethol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol:



- Gweithredu datrysiadau sy'n seiliedig ar natur.
- Cynyddu ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd adnoddau.
- Mabwysiadu ymagwedd sy'n seiliedig ar le.

Gellir gweld y Polisi Adnoddau Naturiol yma: Polisi adnoddau naturiol | LLYW.CYMRU


Mae'r *Cynllun Gweithredu Adfer Natur* yn amlinellu'r fframwaith strategol ar gyfer gwarchod bioamrywiaeth yng Nghymru ac yn anelu i wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth drwy fynd i'r afael ag amcanion allweddol, sy'n cynnwys diogelu rhywogaethau a chynefinoedd pwysig iawn, a chynyddu gwydnwch yr amgylchedd naturiol drwy adfer cynefinoedd sydd wedi cael eu dirywio. Mae'r cynllun hefyd yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â phwysau allweddol fel llygredd, rhywogaethau ymledol, ac arferion anghynaliadwy ar y tir ac ar y môr.

Gellir gweld y Cynllun Gweithredu Adfer Natur yma: Cynllun gweithredu adfer natur | LLYW.CYMRU

## 4.2. RHANBARTH DE-ORLLEWIN CYMRU

#### 4.2.1. Strategaeth Ynni De-orllewin Cymru 2022

Cafodd *Strategaeth Ynni De-orllewin Cymru* ei chyhoeddi yn 2022, ac mae'n dangos sut mae'r rhanbarth yn anelu i gyrraedd statws Sero Net erbyn 2050, gyda gostyngiad o 55% mewn allyriadau o systemau ynni erbyn 2025.




Ceir rhagor o wybodaeth yma: [Strategaeth Ynni De-orllewin Cymru]

#### 4.2.2. Bargen Ddinesig Bae Abertawe

Buddsoddiad o £1.3 biliwn ar draws rhanbarth De-orllewin Cymru yw *Bargen Ddinesig Bae Abertawe,* sy'n rhoi'r ardal ar flaen y gad o ran arloesi mewn ynni a gweithgynhyrchu clyfar a'i sbarduno tuag at economi carbon isel. Bydd y Fargen Ddinesig yn:

a. Creu o leiaf 5,000 o swyddi yn y sector ynni ac ynni adnewyddadwy.
b. Darparu tua 6,000 o gyfleoedd yn gysylltiedig â sgiliau a thalent ar gyfer y sectorau ynni a datgarboneiddio.
c. Adeiladu canolfan ragoriaeth ranbarthol o fewn y sector ynni adnewyddadwy.
ch. Tyfu dwy gadwyn gyflenwi ar gyfer gosod, gweithgynhyrchu a gweithredu seilwaith glas a gwyrdd drwy'r Prosiect Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer a phrosiect Morol Doc Penfro.

Bydd y Prosiect Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer yn lleihau'r ddibyniaeth ar danwydd ffosil o fewn aelwydydd. Yr uchelgais yw gosod technolegau adnewyddadwy mewn 10,300 o gartrefi yn y rhanbarth, gan arbed 10,417 kWh o ynni gyda gostyngiad o 19,000+ t$CO_2$e wedi'i ragfynegi bob blwyddyn.

## 4.3. SIR GAERFYRDDIN

Mae ymroddiad Cyngor Sir Caerfyrddin i wella a gwarchod yr amgylchedd naturiol yn ogystal â lliniaru ac addasu i newid hinsawdd yn amlwg drwy'r polisïau a'r cynlluniau sydd ganddo ar waith.

#### 4.3.1. Y Sir Gâr a Garem: Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin 2023-28


Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

Mae'r cynllun yn egluro sut y bydd y bwrdd yn cydweithio i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol y sir dros y cyfnod o bum mlynedd. Mae hyn yn seiliedig ar dystiolaeth a data manwl sy'n deillio o'r Asesiad Llesiant yn ogystal ag ymgysylltiad â rhanddeiliaid a chymunedau lleol.

#### 4.3.2. Datganiad Gweledigaeth Cabinet Sir Gaerfyrddin 2022-2027

Mae'r argyfyngau natur a hinsawdd yn chwarae rhan bwysig yn natganiad gweledigaeth y Cabinet, gan gydnabod y gydberthynas bwerus rhwng newid hinsawdd, colli bioamrywiaeth a llesiant dynol. Mae'r weledigaeth yn egluro sut mae'r Cabinet yn bwriadu helpu i fynd i'r afael â'r argyfyngau natur a hinsawdd ac yn cynnwys mesurau i gynyddu bioamrywiaeth ar holl dir y cyngor, i gynyddu technoleg ynni adnewyddadwy ar adeiladau a thai'r cyngor, gwelliannau i drafnidiaeth gyhoeddus ac adolygu'r strategaeth fflyd i sicrhau bod y cerbydau allyriadau isel mwyaf addas yn cael eu defnyddio.

#### 4.3.3. Strategaeth Gorfforaethol Cyngor Sir Caerfyrddin 2022-2027

Mae'r argyfyngau hinsawdd a natur wedi'u hymgorffori yn ymagwedd strategol Cyngor Sir Caerfyrddin. *Amcan Llesiant 3: Galluogi ein cymunedau a'n hamgylchedd i fod yn iach, yn ddiogel ac yn ffyniannus,* yn cynnwys dwy flaenoriaeth thematig sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â'r argyfyngau hinsawdd a natur. Mae *Datgarboneiddio a'r Argyfwng Natur* yn pwysleisio pwysigrwydd yr amgylchedd naturiol fel elfen greiddiol i ddatblygu mewn modd cynaliadwy. Mae hefyd yn ymrwymo'r awdurdod i weithio tuag at fod yn Sero Net erbyn 2030, ac yn mynd i'r afael â'r problemau sy'n ysgogi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth, ac yn cefnogi adferiad natur.

#### 4.3.4. Llwybr Cyngor Sir Caerfyrddin tuag at Ddod yn Awdurdod Lleol Carbon Sero Net erbyn 2030 (2020).

Ar ôl datgan Argyfwng Hinsawdd yn 2019, Cyngor Sir Caerfyrddin oedd yr awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru i gyhoeddi Cynllun Carbon Sero Net yn 2020. Mae'r cynllun yn egluro methodoleg yr awdurdod ar gyfer ei adroddiadau carbon, a sut mae'n bwriadu cyrraedd ei dargedau mewn pedwar maes allweddol: Adeiladau annomestig; Goleuadau stryd; Milltiroedd y Fflyd; a Milltiroedd Busnes.

#### 4.3.5. Cynllun Ynni Ardal Leol Sir Gaerfyrddin (2024)

Ar lefel y Sir, mae'r Cynllun Ynni Ardal Leol yn egluro'r camau sydd eu hangen i 'drawsnewid yn gyflym' a datgarboneiddio'r system ynni a'r rhwydwaith seilwaith ac yn llywio datblygiad *Cynllun Ynni Cenedlaethol* Llywodraeth Cymru. Mae'n cynnwys 13 o gamau â blaenoriaeth sy'n gweithredu fel catalydd ar gyfer mentrau yn y dyfodol, gan anelu i oleuo prosiectau, polisïau a strategaethau sydd ar ddod i'n helpu i gyrraedd Sero Net erbyn 2050.

Ceir rhagor o wybodaeth yma: Cynllun Ynni Ardal Leol Sir Gaerfyrddin 2024

#### 4.3.6. Blaengynllun Cyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae'r cynllun yn amlinellu strategaeth gynhwysfawr i wella bioamrywiaeth a chynaliadwyedd amgylcheddol yn y sir, gan gyd-fynd â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a chanolbwyntio ar arferion cynaliadwy, cydweithio, a dulliau integredig o reoli'r amgylchedd. Caiff y cynllun ei adolygu a'i addasu bob tair blynedd i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn ddeinamig ac yn ymatebol i heriau a chyfleoedd newydd.

#### 4.3.7. Natur yn Sir Gaerfyrddin: Ein Dull o Weithredu'n Lleol 2020-2030

Mae Partneriaeth Natur Sir Gaerfyrddin wedi datblygu cynllun adfer natur, sy'n amlinellu strategaeth i ddiogelu a gwella bioamrywiaeth yn y rhanbarth. Mae'n tynnu sylw at asedau naturiol lleol, fel coetiroedd, afonydd a chynefinoedd arfordirol, gan fynd i'r afael ag achosion o golli bioamrywiaeth drwy ymdrechion cydweithredol. Mae'r cynllun yn pwysleisio gwydnwch ecolegol, cysylltedd cynefinoedd, a chynnwys y cyhoedd. Mae'n cyd-fynd â Chynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru ac yn anelu i ysbrydoli cyfranogiad eang er mwyn diogelu'r amgylchedd. Mae'r cynllun hefyd yn amlinellu ffactorau sy'n cyfrannu at golli bioamrywiaeth, gan gynnwys newid hinsawdd, arferion amaethyddol modern, datblygiad, llygredd a rhywogaethau estron ymledol.

### 4.3.8. Strategaeth Cyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer Rheoli Glaswelltiroedd ar gyfer Pryfed Peillio ar Ystâd CSC 2024

Mae glaswelltiroedd amwynder sy'n eiddo cyhoeddus yn cynnig potensial sylweddol i fod yn gronfeydd o gynefinoedd sy'n llawn blodau gwyllt a all gyfrannu at ailgysylltu ac adfer bioamrywiaeth laswelltirol. Mae'r strategaeth yn ceisio mynd i'r afael ag achosion o golli cynefinoedd glaswelltir drwy fabwysiadu technegau rheoli glaswelltir newydd lle bo hynny'n ddichonadwy ar draws y sir. Mae'r strategaeth yn hyrwyddo'r dull mwyaf buddiol o dorri ym mhob ardal er mwyn cefnogi bioamrywiaeth, gwydnwch yr amgylchedd lleol, helpu i leihau ein hôl troed carbon, perygl llifogydd a chefnogi ein llesiant a'r agenda creu lleoedd drwy wella seilwaith gwyrdd i'r cyhoedd.

### 4.3.9. Strategaeth Seilwaith Gwyrdd a Glas Cyngor Sir Caerfyrddin 2024

Mae'r Strategaeth Seilwaith Gwyrdd a Glas (SGG) yn canolbwyntio ar greu amgylcheddau deniadol, nodedig sy'n hyrwyddo llesiant cymunedol drwy wella mynediad i fyd natur, gan wella bioamrywiaeth a chryfhau gwydnwch i wrthsefyll yr hinsawdd. Wedi'i chefnogi gan becyn cymorth ymarferol i rymuso cymunedau i ddatblygu eu hasedau SGG eu hunain, mae'r strategaeth hefyd yn cynnwys cynllun gweithredu manwl sy'n amlinellu ymrwymiad yr awdurdod lleol i hyrwyddo mannau amlswyddogaethol a gwireddu gweledigaeth gyffredin.

### 4.3.10. Strategaeth Coed a Choetiroedd Cyngor Sir Caerfyrddin 2024-2029


Mae'n hanfodol ein bod yn amddiffyn ac yn gwella coed a choetiroedd sy'n eiddo i'r Cyngor gan eu bod yn cynnig llu o fanteision. Maent yn darparu cynefinoedd i fywyd gwyllt ac yn cyfrannu at gysylltedd ecolegol a gwydnwch ecosystemau; maen nhw'n storio carbon sy'n helpu i liniaru newid hinsawdd ac yn gwella ansawdd yr aer a thirweddau sain; yn lleihau llifogydd drwy gynyddu cyfraddau amsugno ac ymdreiddiad dŵr wyneb; rhyng-gipio maetholion mewn dŵr ffo; a darparu effaith oeri ar gyfer ardaloedd adeiledig a chysgod i dda byw. Mae coed hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd meddwl ac iechyd corfforol ac yn cynyddu perfformiad gwaith, a gallant gael effaith gadarnhaol ar yr economi drwy wneud eiddo a threfi yn fwy deniadol.  Mae'r strategaeth yn gosod targed uchelgeisiol i blannu 9.5ha o goetir newydd ar ein hystâd bob blwyddyn am y pum mlynedd ar hugain nesaf, gan gynyddu ein gorchudd coetir o 12% i 17%.

### 4.3.11. Strategaeth Rheoli Maetholion Cyngor Sir Caerfyrddin 2024

Nod y Strategaeth Rheoli Maetholion yw mynd i'r afael â llygredd maetholion yn afonydd gwarchodedig Sir Gaerfyrddin, gan ganolbwyntio'n benodol ar lefelau ffosffad mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) afonol. Mae'r strategaeth yn pwysleisio dull cyfannol, integredig o fynd i'r afael ag effeithiau llygredd maetholion ar yr amgylchedd, ar gymunedau a'r economi.

# 5. BLE YDYM NI NAWR?

Fel y soniwyd yn flaenorol, rydym wedi llwyddo i sicrhau gostyngiad o 37% i'n hallyriadau carbon ers ein blwyddyn waelodlin, sef 2016/17. Mae ein cynnydd wedi'i ddangos ar y graff a'r tabl isod.




| | | | | | | | | | 2016/17 o gymharu â 2023/24 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2016/17** | **2017/18** | **2018/19** | **2019/20** | **2020/21** | **2021/22** | **2022/23** | **2023/24** | **Cynnydd** | **% o newid** |
| **Defnydd (kWh)** | 72,527,266 | 68,564,902 | 69,059,743 | 70,332,391 | 63,684,340 | 67,694,145 | 63,869,172 | 61,420,560 | **11,106,706** | **-15%** |
| **Milltiroedd** | 9,313,790 | 9,069,875 | 8,829,043 | 9,126,181 | 6,679,056 | 6,773,772 | 7,272,186 | 8,420,699 | **893,091** | **-10%** |
| **Allyriadau Carbon (tCO2e)** | 26,542 | 23,143 | 21,087 | 20,477 | 17,590 | 18,124 | 16,984 | 16,756 | 9,786 | -37% |

## 5.1. UN CYNGOR

Mae'r cynnydd hwn wedi'i hyrwyddo drwy gyflawni prosiectau helaeth ar draws yr awdurdod. Mae'r bennod hon yn archwilio rhai o'r prosiectau hynny - mae'n amhosib trafod pob un gan fod cynifer ohonynt. Er nad yw canlyniadau cadarnhaol y prosiectau bob amser wedi'u cynrychioli yn ein ffigurau allyriadau, maent yn pwysleisio'r modd yr ydym yn mabwysiadu dull cyfannol o frwydro yn erbyn y

newid hinsawdd ac o wella a gwarchod ein hamgylchedd naturiol ar draws yr awdurdod er mwyn sicrhau dyfodol cynaliadwy i Sir Gaerfyrddin.

### 5.1.1. Adran y Prif Weithredwr

Mae'r adran yn greiddiol i lesiant a datblygiad cyflogeion, ac yn cynnwys gwasanaethau cyfreithiol, polisi corfforaethol, marchnata a'r cyfryngau, gwasanaethau democrataidd, a chofrestru sifil. Mae'r adran wedi helpu'r awdurdod i drawsnewid i ddull hyblyg a hybrid o weithio, sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar ein hallyriadau. Mae'r adran hefyd yn sicrhau bod gan staff fynediad at gyfleoedd dysgu i ddatblygu ymhellach eu gwybodaeth a'u sgiliau yn gysylltiedig ag argyfyngau natur a hinsawdd a sut i ymdrin â'r rheiny.

Enghraifft berffaith o'r modd y mae'r adran yn gweithio tuag at ddyfodol cynaliadwy yw prosiect Bremenda Isaf, lle mae'r tîm Polisi a Phartneriaethau Corfforaethol yn hyrwyddo dulliau cynaliadwy o gynhyrchu bwyd. Mae'r prosiect hwn, a ariennir o'r Gronfa Ffyniant Cyffredin, yn tyfu ac yn prosesu bwyd ar fferm sy'n eiddo i'r Cyngor yn Llanarthne - Bremenda Isaf, i ysgolion, cartrefi gofal a chaffis lleol. Mae hyn nid yn unig yn cynyddu cyflogaeth yn lleol, ond hefyd yn lleihau allyriadau carbon drwy leihau milltiroedd bwyd, yn ogystal â lliniaru rhag effeithiau amaethyddiaeth ar yr amgylchedd naturiol, drwy ddefnyddio arferion ffermio atgynhyrchiol. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin hefyd yn aelod o'r bartneriaeth bwyd lleol –*Bwyd Sir Gâr*. Nod y bartneriaeth yw datblygu system fwyd leol sy'n ffyniannus, yn wydn, yn gynaliadwy a chynhwysol. Ar ben hynny, mae'r tîm yn ymdrechu i adeiladu ar statws Sir Gaerfyrddin fel lle bwyd cynaliadwy, ac mewn cydweithrediad â phartneriaid eraill, bydd yn datblygu strategaeth bwyd cymunedol i annog cynhyrchu a chyflenwi bwyd o ffynonellau lleol yng Nghymru. Yn ogystal â hyn, bydd y tîm yn sicrhau bod y Cyngor yn ymgysylltu'n llawn â rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin i ddatblygu cyfleoedd i'r sector cyhoeddus gaffael bwyd wedi'i gynhyrchu a'i gyflenwi'n lleol, er mwyn gostwng milltiroedd bwyd ymhellach, yn ogystal â chefnogi cynhyrchwyr bwyd lleol i sefydlu, datblygu a thyfu eu busnesau.




### 5.1.2. Adran Cymunedau

Mae'r adran hon yn greiddiol i gymunedau Sir Gaerfyrddin, o ran darparu gwasanaethau sy'n sicrhau bod ein poblogaeth yn ddiogel, yn iach ac yn ffynnu. Mae'r adran wedi derbyn hyfforddiant ar gynaliadwyedd drwy Academi Sgiliau Gwyrdd Coleg Sir Gâr, ac wedi cyflwyno poteli saws yn lle pecynnau bach yn holl gyfleusterau arlwyo'r canolfannau hamdden. Mae hyn wedi atal tua 38,000 o becynnau bach rhag mynd i mewn i'r system wastraff.

Mae'r tîm tai o fewn yr adran hon a thrwy ei brosiect toeau a rendro mae'n helpu i ddatgarboneiddio cartrefi sy'n eiddo i'r Cyngor drwy osod paneli solar PV ar ben toeau.

Mae'r dechnoleg wedi'i gosod ar o leiaf 300 o gartrefi bellach. Yn ogystal â hynny, maen nhw'n gosod systemau gwresogi hybrid sy'n cynnwys pympiau gwres ffynhonnell aer, gyda'r systemau eisoes wedi'u gosod ar tua 100 o gartrefi. Ar ben hynny, mae gwaith yn cael ei wneud i wella effeithlonrwydd ynni ein stoc tai ac i sicrhau bod gan ein holl gartrefi sgôr perfformiad ynni (EPC) band C o leiaf.

Mae'r Tîm Hamdden yn rhagori wrth yrru'r agenda cynaliadwyedd yn ei blaen, ac yn mynd ati'n ddyfal iawn i roi egwyddorion cynaliadwyedd ar waith. Mae gan y tîm uchelgais i sicrhau gostyngiad o 50% i'r defnydd o ynni ar draws y cyfleusterau *Actif*. Er bod y tîm wedi bod yn weithgar iawn yn y maes hwn erioed, mae'r ymdrechion wedi cynyddu'n sylweddol ers cyflwyno'r *Hyrwyddwyr Gwyrdd Hamdden* yn 2023. Gwirfoddolwyr yw'r Hyrwyddwyr o'r holl wahanol dimau hamdden. Maen nhw'n cyfarfod yn fisol i drafod prosiectau a rhannu arfer da. Eu nod yw annog yr holl staff i weithio a meddwl mewn modd cynaliadwy fel bod hynny'n datblygu i fod yn ail natur. Maen nhw hefyd wedi ysgrifennu'r *Cynllun Cynaliadwyedd ar gyfer Gwasanaethau Hamdden (Gorffennaf 2024)* sy'n egluro sut mae'r gwasanaeth Hamdden yn mynd i liniaru'r newid hinsawdd a chynyddu bioamrywiaeth. Maent yn rhannu ffurflenni adborth yn rheolaidd â'r staff i'w hannog i wneud *addewid gwyrdd* a chyflwyno eu syniadau ar sut i arbed ynni a lleihau allyriadau carbon. Ar ben hynny, maent wedi annog cynnwys egwyddorion lleihau carbon ac economi gylchol o fewn meini prawf gwerthuso caffael, a ddefnyddiwyd yn ddiweddar yn yr ymarferion caffael ar gyfer peiriannau gwerthu mewn cyfleusterau hamdden a'r cyfleuster golff gwallgof newydd yn Y Caban ym Mhentywyn. Roeddent yn cynnwys gofynion fel cyflenwyr lleol, defnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu, lleihau'r defnydd o blastig untro, ac offer y gellir eu hailgylchu.




Yn ogystal, mae Wal Fyw wedi cael ei gosod ar ffasâd Llyfrgell Llanelli gan greu nifer o fanteision. Mae wedi cynyddu bioamrywiaeth a gwella ansawdd aer y dref. Mae hefyd yn storio 23.56kg o garbon yn flynyddol, sy'n cyfateb i 6 choeden o faint canolig, gan hybu llesiant pobl ar yr un pryd. Mae'r wal fyw hefyd yn ategu ein Strategaeth Seilwaith Gwyrdd a Glas ac yn hyrwyddo addasu i'r hinsawdd.

Ar ben hynny, mae cais Canolfan Hamdden Caerfyrddin am Grant Gwres Carbon Isel Llywodraeth Cymru wedi bod yn llwyddiannus yn ddiweddar. Bydd y grant yn golygu bod modd gosod Pympiau Gwres Ffynhonnell Aer i ddisodli'r boeleri nwy, gan ddileu'r gwresogi tanwydd ffosil ar y safle hwn.

#### 5.1.3. Adran Addysg, Gwasanaethau Plant a Theuluoedd

Egwyddor graidd yr adran hon yw sicrhau bod pob plentyn yn cael ei werthfawrogi a'i werthfawrogi'n gyfartal. Mae'r adran wedi ymrwymo i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael cefnogaeth effeithiol i gael mynediad at addysg ac at wasanaethau gofynnol eraill. Mae aelodau'r adran wedi cael hyfforddiant ar egwyddorion yr Economi Gylchol, gan gynnwys rhai athrawon. Yn ogystal â hyn, mae gwaith i wneud ein hysgolion yn fwy effeithlon o ran ynni wedi cael ei hwyluso, a bydd y gwaith hwnnw'n parhau, drwy fframwaith Re:Fit Cymru. Mae'r ymgyrch i arbed ynni hefyd yn cael ei hyrwyddo yn yr ysgolion drwy'r rhaglen 'Energy Sparks'. Mae'r elusen yn darparu offeryn rheoli ynni a rhaglen addysg unigryw sy'n benodol i ysgolion. Mae'r offeryn yn dadansoddi defnydd yr ysgol o drydan a nwy ac yn darparu mesurau arbed ynni sy'n hawdd eu gweithredu. Mae hefyd yn ennyn diddordeb plant drwy weithgareddau addysgol sy'n edrych ar ddefnydd yr ysgol o ynni. Mae 18 o ysgolion yn defnyddio'r rhaglen ar hyn o bryd. Mae Ysgol Coedcae wedi bod yn defnyddio ‘Energy Sparks’ ers 2022, ac wedi llwyddo i sicrhau gostyngiad o 25% i'w defnydd o nwy. Cyflawnwyd hyn i raddau helaeth drwy addasu eu rheolyddion

gwresogi a lleihau'r cyfnod gwresogi, yn enwedig ar benwythnosau. Mae'r tabl isod yn dangos cymhariaeth o'r un wythnos mewn blynyddoedd olynol, pan oedd y tymheredd allanol yn debyg, lle gellir gweld effaith y mân newidiadau hyn ar eu defnydd o nwy. Nid yn unig y mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar allyriadau carbon yr ysgol ond byddai hefyd wedi arbed tua £2,000 iddyn nhw yn yr




wythnos honno yn unig.


Ar ben hynny, mae'r Grŵp Gweithredu dros yr Hinsawdd wedi cael ei sefydlu. Nod y grwp yw grymuso pobl ifanc ar draws y sir drwy eu cynnwys mewn llywodraeth leol i hyrwyddo gweddnewid drwy gamau gweithredu'n gysylltiedig â'r hinsawdd ac arferion cynaliadwy. Mae'r grŵp yn cynnwys disgyblion a gaiff eu hethol o ysgolion ledled Sir Gaerfyrddin, ac un dull y mae wedi'i ddefnyddio i hyrwyddo newid yw maniffesto ysgrifenedig gydag wyth o amcanion yn gysylltiedig â'r hinsawdd a natur. Mae'r Grŵp wedi gofyn i'r cyngor lofnodi'r maniffesto ac ymrwymo i weithredu ar newid hinsawdd. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod lleisiau pobl ifanc yn cael eu clywed mewn prosesau penderfynu yn gysylltiedig â gweithredu ar newid hinsawdd. Mae'r grŵp yn cyfarfod bob chwarter i drafod materion newid hinsawdd, i weithredu argymhellion o'r maniffesto, ac i gysylltu ag awdurdodau lleol, sefydliadau a busnesau.

Mae gwaith i wella bioamrywiaeth hefyd yn cael ei gyflawni yn ysgolion y Sir. Mae mannau sy'n gyfeillgar i bryfed peillio yn cael eu datblygu ar diroedd ysgolion, ac mae'r rheolaeth ar laswelltir yn cael ei adolygu gyda'r Tîm Cadwraeth Gwledig drwy ddatblygu cynlluniau gweithredu rheoli glaswelltir. Mae'r Tîm Gwella Ysgolion hefyd yn darparu digwyddiadau hyfforddi athrawon ac adnoddau cefnogol ar gyfer gwarchod bioamrywiaeth. Darparwyd cyllid grant i ddatblygu gerddi cymunedol yn Ysgol Bro Banw, Ysgol Bro Myrddin ac Ysgol Penrhos. Yn ogystal â hyn, mae Ysgol Penrhos hefyd wedi cymryd rhan yn *Rhaglen Pharmabees,* lle mae priffordd sy'n gyfeillgar i bryfed peillio yn cael ei datblygu gan Bouygues, o dan arweiniad Prifysgol Caerdydd, i gysylltu'r ysgol â Safle Pentre Arwel. Mae cychod gwenyn hefyd wedi cael eu gosod yn yr ysgol ac mae aelodau staff wedi cael hyfforddiant ar gadw gwenyn. Mae hyn felly nid yn unig yn hyrwyddo bioamrywiaeth, ond hefyd yn hyrwyddo arferion cynaliadwy.

### 5.1.4. Adran Lle, Seilwaith a Datblygu Economaidd

Mae'r adran Seilwaith Lleoedd a Datblygu Economaidd yn greiddiol i daith yr awdurdod tuag at ddatgarboneiddio a gwella natur. Mae'n ymfalchïo yn y prosiectau y mae wedi'u cyflawni er mwyn datgarboneiddio, rheoli gwastraff a gwarchod a gwella bioamrywiaeth.

Mae gwaith cynllunio datblygu yn elfen hollbwysig er mwyn sicrhau dyfodol cynaliadwy i Sir Gaerfyrddin ac mae polisi cynllunio yn cael ei lywio gan Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig (CDLlD) Sir Gaerfyrddin 2018–2033. Mae'r cynllun yn cefnogi datblygu cynaliadwy drwy hyrwyddo ymdrechion i leihau carbon ac ynni adnewyddadwy, defnyddio seilwaith gwyrdd a glas i wella bioamrywiaeth, a meithrin cymunedau cynaliadwy drwy greu lleoedd a gwella trafnidiaeth gyhoeddus ac egnïol. Mae'n rhoi pwyslais ar ddiogelu'r amgylchedd, sicrhau bod datblygiadau'n gallu addasu i'r newid hinsawdd, ac ar greu mannau deniadol a chynhwysol.



Mae'r map yn dangos ardal Prosiect Caeau Mynydd Mawr (llinell goch) a'r ardal newydd arfaethedig (llinell ddu doredig), a fydd yn dod i rym yn y CDLl newydd yn ddiweddarach eleni.

Datblygwyd prosiect arloesol Caeau Mynydd Mawr, a ddechreuwyd yn 2013, i wrthbwyso effeithiau datblygiad yn ardal Cross Hands ar löyn byw britheg y gors sydd wedi'i warchod gan Ewrop. Mae'r prosiect, sydd wedi'i ariannu drwy gyfraniadau gan ddatblygwyr, yn galluogi cyflawni Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Caerfyrddin drwy ganiatáu i ddatblygiad fynd rhagddo'n ddi-rwystr, gan sicrhau cynefin digonol i gynnal y glöyn byw. Mae'r prosiect yn gweithio gyda thirfeddianwyr lleol, porfawyr a chontractwyr i reoli'r cynefin sy'n cynnal y glöyn byw prin hwn mewn modd priodol.

Ar hyn o bryd mae'r prosiect yn rheoli tua 82 hectar o dir ac mae wedi bod yn llwyddiant ysgubol, wrth i'r löyn byw britheg y gors barhau i ffynnu.

Mae cynaliadwyedd wedi bod yn greiddiol i ddatblygiad Pentre Awel ac mae'r contractwyr, Bouygues, wedi derbyn gwobr Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu (ESG) gan Adeiladu Rhagoriaeth yng Nghymru. O ddechrau'r prosiect bu gan Bouygues ganllawiau clir o ran carbon, ac maen nhw wedi gweithio'n agos gyda chleientiaid, partneriaid o'r gadwyn gyflenwi, a gweithwyr i leihau eu heffaith ar yr amgylchedd yn ogystal â galluogi'r gymuned leol i ffynnu. Yn ystod cam cyntaf y datblygiad, arbedodd Bouygues 450 $tCO_2e$ rhag cael ei allyrru drwy leihau dros 90% o allyriadau uniongyrchol o danwydd ar y safle. Cyflawnwyd hyn i raddau helaeth drwy ddefnyddio olew llysiau wedi'i hydro-drin (HVO) sydd wedi'i ardystio'n gynaliadwy, a gostyngiad o 10% mewn gwastraff a gynhyrchir, a'r defnydd o ynni a dŵr. Defnyddiwyd pŵer solar ar gyfer camerâu teledu cylch

cyfyng y safle a swyddfeydd a chabanau'r safle. Defnyddiwyd deunyddiau wedi'u hailgylchu a deunyddiau gwyrdd hefyd yn rhan o'r gwaith adeiladu.

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi partneru â Nappicycle i gyflawni prosiect arloesol sy'n ymdrin â dwy her enfawr - gwyro gwastraff oddi wrth safleoedd tirlenwi a chynnal y ffyrdd mewn modd cynaliadwy. Defnyddiodd y prosiect peilot ar y B4336 ym Mhontweli tua 80,000 o gewynnau, wedi'u casglu gan y Cyngor a'u hailgylchu yn belenni ffibrog yng nghyfleuster Nappicycle yng Nghapel Hendre a'u cynnwys wedyn yn neunydd wynebu Asffalt Mastig Carreg (SMA) yn ffatri GH Harries yn Yr Eglwys Lwyd, Sir Benfro. Cafodd yr SMA yma wedyn ei ddefnyddio i wella wyneb y ffordd. Mae'r prosiect hwn yn esiampl berffaith o economi gylchol leol ar waith yn ogystal â dull mwy cynaliadwy o reoli gwastraff a phriffyrdd. Mae defnyddio contractwyr lleol hefyd wedi cael mwy o effaith ar leihau ein hôl troed carbon drwy leihau'r milltiroedd teithio, gan greu buddion eraill ar yr un pryd fel rhoi hwb i'r economi leol.

Fel y nodwyd yn flaenorol, bydd Sir Gaerfyrddin yn profi llifogydd mwy eithafol oherwydd y newid hinsawdd, felly mae amddiffyn rhag llifogydd yn elfen hollbwysig wrth addasu i'r hinsawdd yn y sir. Fel Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol Sir Gaerfyrddin, rydym yn cynnal ystod eang o gynlluniau lliniaru llifogydd o amgylch y Sir, yn rhan o'n Rhaglen Gwaith Cyfalaf. Mae'r rhain wedi'u targedu i reoli perygl llifogydd, lleihau'r eiddo sydd yn profi llifogydd, a chynnal ein hasedau amddiffyn rhag llifogydd. Mae cynlluniau'n amrywio rhwng gwaith gwella graddfa fach ar gwlferti a gollyngfeydd a phrosiectau Rheoli Llifogydd Naturiol mwy cymhleth, yn ogystal â chynlluniau i ddarparu Mesurau Gwydnwch rhag Llifogydd ar eiddo unigol.


# 6. BLE YDYM NI EISIAU BOD?

## 6.1. TAFLWYBRAU DATGARBONEIDDIO


Yn ddiweddar, rydym wedi comisiynu datblygiad Offeryn Taflwybrau Carbon gan GEP Environmental. Mae'r offeryn yn defnyddio'r fenter Targedau Seiliedig ar Wyddoniaeth (SBTi) a'n data adrodd i gyflwyno darlun o'n taith tuag at Sero Net. Gan nad oes offeryn cenedlaethol wedi'i ddarparu gan Lywodraeth Cymru, ac mai ni yw un o'r awdurdodau lleol cyntaf i ddatblygu offeryn o'r fath, gwnaethom ei gynnig i'w ddefnyddio gan eraill, gan fod iddo lu o fuddion cysylltiedig. Mae hyn yn hyrwyddo cydweithio a dull cydgysylltiedig ag awdurdodau cyfagos. Rydym wedi defnyddio'r offeryn i ddarganfod cyfradd y gostyngiad blynyddol mewn allyriadau sydd ei hangen arnom i gyrraedd ein targed Sero Net.

### 6.1.1. Taflwybr Datgarboneiddio Lefel Isel

Fel y soniwyd yn flaenorol, rydym wedi llwyddo i sicrhau gostyngiad o 37% i'n hallyriadau carbon ers 2016/17. Fodd bynnag, gan nad oes ond 5 mlynedd ar ôl tan 2030 mae angen inni ddwysáu ein hymdrechion. Os byddwn yn parhau i leihau ein hallyriadau ar ein cyfradd gyfredol, byddwn yn cyrraedd gostyngiad o oddeutu 50%. Mae hyn wedi'i ddangos ar y graff isod. Mae hynny'n golygu y byddai angen llawer iawn o wrthbwyso inni allu cyrraedd statws Sero Net.





### 6.1.2. Taflwybr Datgarboneiddio Lefel Uchel





Fel y dangosir ar y graff uchod, drwy leihau ein hallyriadau carbon 50% yn flynyddol o hyn ymlaen, byddwn yn gweld gostyngiad cyffredinol o 99% o gymharu â'n blwyddyn waelodlin.

### 6.1.3. Taflwybr Datgarboneiddio Lefel Ganolig

Gan fod gennym yr uchelgais i leihau ein hallyriadau i isafswm o 80% yn gyntaf, a gwrthbwyso'r gweddill, mae angen gostyngiad blynyddol isafswm o 20% i'n hôl troed carbon. Drwy ddilyn y trywydd hwn, byddwn yn cyflawni gostyngiad o fwy na 50% erbyn 2026/27 a gostyngiad o fwy na 75% yn 2030, a ddangosir ar y graff isod.




Dyma'r taflwybr rydym yn gweithio tuag ato gan mai dyma'r opsiwn mwyaf pragmatig a'r mwyaf cymesur o ran costau a'r gallu i'w gyflawni. Yr hierarchaeth o fewn ein methodoleg Sero Net yw lleihau ein hallyriadau cymaint â phosibl, gydag 80% yn darged isafswm. Mae'n amhosibl dileu pob allyriad ac rydym yn credu bod cael targed o uchafswm o 20% o allyriadau gweddilliol yn ein rhoi yn y sefyllfa orau bosibl i gyflawni Sero Net. Mae'r ail gam o fewn ein hierarchaeth felly'n golygu y bydd yr allyriadau gweddilliol hyn i ddechrau'n cael eu gwrthbwyso drwy fewnosod. Bydd hyn yn golygu buddsoddi i gynhyrchu ynni adnewyddadwy a phlannu coed ar draws ein hystâd. Mae'r gwaith hwn eisoes yn cael ei gyflwyno drwy'r holl awdurdod, yn sgil cyflwyno gwaith fel y Strategaeth Coed a Choetiroedd. Mae gwrthbwyso ar waelod ein hierarchaeth gan ei fod yn dibynnu ar brynu credydau carbon ac ni fydd ond yn cael ei ystyried os yw'n amhosib cyrraedd Sero Net drwy fewnosod yn unig. Mae hyn oherwydd ein bod eisiau buddsoddi yn ein sir ein hunain yn gyntaf.




Yn y bennod nesaf byddwn yn archwilio sut i gyflawni hyn.

# 7. SUT YDYM NI'N MYND I GYRRAEDD YNO?

Fel y dangoswyd ar ddechrau'r adroddiad, mae gan Gyngor Sir Caerfyrddin a Chymru amrywiaeth o bolisïau a strategaethau ar waith i hwyluso'r daith tuag at Sero Net ac i warchod a gwella'r amgylchedd naturiol. Ar ben hynny, nid her yr ydym yn ei hwynebu ar ein pennau ein hunain yw hon; Mae gwaith yn cael ei wneud ar draws pob sector yng Nghymru a Sir Gaerfyrddin i gyrraedd targedau Llywodraeth Cymru ac rydym wedi ffurfio prosiectau cydweithredol llwyddiannus i wella'r gwaith hwn.

## 7.1. CYDWEITHIO: SUT YR YDYM WEDI TREFNU EIN HUNAIN I FYND I'R AFAEL Â'R HER

Mae partneriaethau a chydweithio yn hollbwysig i'r frwydr yn erbyn newid hinsawdd ac ymdrechion i wella cyflwr natur. Y rheswm am hynny yw ei bod hi'n bwysig dod ag arbenigedd, adnoddau a safbwyntiau amrywiol ynghyd i alluogi ateb mwy effeithiol, arloesol a chynhwysfawr na allwn ei gyflawni ar ein pennau ein hunain.

Mae'r argyfyngau newid hinsawdd a natur wedi'u hymgorffori yn strategaeth gorfforaethol Cyngor Sir Caerfyrddin ac yn ein proses benderfynu. Mae'r Panel Cynghori Trawsbleidiol ar Newid Hinsawdd a'r Argyfwng Natur yn casglu gwybodaeth o ffrydiau gwaith ac ymatebion i ofynion deddfwriaethol ac yn eu hadrodd yn ôl i'r Cabinet ac i'r Cyngor Llawn er mwyn helpu prosesau penderfynu. Yn ogystal â hynny, bydd penderfyniadau'n mynd drwy bwyllgor craffu i asesu eu cadernid. Mae gan yr awdurdod hefyd grwpiau swyddogion trawsadrannol mewnol er mwyn galluogi meddwl ac ymagweddau cyfannol at yr agendâu hyn.

Yn 2021 cafodd pedwar *Cydbwyllgor Corfforaethol* eu ffurfio ar draws Cymru i gefnogi cydweithrediad ehangach rhwng awdurdodau lleol. Mae Cydbwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru wedi'i ffurfio o gynrychiolwyr o bedwar awdurdod lleol y rhanbarth, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Ffocws y pwyllgor yw gwella cynllunio, cydlynu a darpariaeth ranbarthol o ran trafnidiaeth, cynllunio defnydd tir, datblygiad economaidd ac ynni. Mae gan y Cydbwyllgorau ffocws rhanbarthol a'r gallu i ariannu prosiectau.

Mae *Panel Strategaeth yr Hinsawdd (PSH)* wedi'i drefnu gan *Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru* wedi cael ei sefydlu er mwyn helpu i gefnogi, arwain a rhoi trosolwg strategol o waith datgarboneiddio mewn llywodraeth leol. Mae'n cynnwys Prif Weithredwyr o'r awdurdodau lleol ac o gyrff cyhoeddus eraill. Drwy gynnwys prif weithredwyr, mae'n sicrhau bod lleisiau llywodraeth leol yn cael eu clywed o fewn polisi Cymru drwy waith y panel gyda Llywodraeth Cymru er mwyn datblygu Cynllun Cyflawni Carbon Isel nesaf Cymru. Mae grwpiau gorchwyl a gorffen, dan arweiniad Prif Weithredwyr awdurdodau lleol, yn porthi PSH, gan wella ymglymiad awdurdodau lleol yn y gwaith o lunio polisi yn ogystal â hwyluso cydweithio.

Yn ogystal â hyn, mae'r awdurdod yn aelod o'r *Gymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth Cyhoeddus (APSE)* gan gynnwys APSE Ynni. Prosiect cydweithredol yw hwn sy'n cynnwys dros 100 o awdurdodau lleol y DU, sy'n gweithio tuag at drefoli ynni. Sefydlwyd ASPE Ynni i gefnogi awdurdodau lleol i wneud y gorau o'u hasedau ac i symud ymlaen yn yr agenda ynni a hinsawdd, drwy ddarparu platfform rhannu gwybodaeth ac adnoddau helaeth er mwyn helpu i gyrraedd ein targedau allyriadau ein hunain a thargedau allyriadau cenedlaethol.

Rydym hefyd yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol a sefydliadau eraill o fewn ein rhanbarth. Mae gennym berthynas ardderchog â'r tri awdurdod lleol arall yn Ne-orllewin Cymru a byddwn yn aml yn cydweithio â nhw wrth weithredu strategaethau a phrosiectau. Enghraifft berffaith o hyn yw'r Strategaeth Ynni Ranbarthol a gwaith y Cynllun Ynni Ardal Leol y soniwyd amdano'n flaenorol. Mae'r gwaith rhanbarthol yn cael ei arwain gan y *Grŵp Craidd Ynni*, sy'n adrodd i'r Cydbwyllgor Corfforaethol. Ar ben hynny, mae *Bargen Ddinesig Bae Abertawe* yn hyrwyddo'r gwaith rhanbarthol hwn

ymhellach gan ei fod wedi'i arwain gan bedwar awdurdod lleol y rhanbarth, ar y cyd a'r byrddau iechyd lleol, prifysgolion, busnesau a'r sector cyhoeddus.

Yn ogystal â hyn, mae cyrff cyhoeddus hefyd yn cael eu dwyn ynghyd drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, a sefydlwyd o dan *Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*. Mae'r bwrdd yn dod â chasgliad o gyrff cyhoeddus ynghyd i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol y sir, ac mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn aelod statudol ohono.

Ar ben hynny, rydym yn aelodau balch o Bartneriaeth Natur Sir Gaerfyrddin sy'n cynnwys amrywiaeth o sefydliadau, gan gynnwys cyrff bywyd gwyllt y llywodraeth a thu allan i'r llywodraeth, elusennau bywyd gwyllt a grwpiau gwirfoddol - pob un ohonynt yn cydweithio i wella a gwarchod bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin.

Er mwyn cyrraedd y targedau ffosffad a osodwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru, mae *Bwrdd Rheoli Maetholion,* yr ydym yn aelod ohono, wedi cael ei sefydlu ar gyfer Afon Tywi. Rydym hefyd yn perthyn i lawer o grwpiau sy'n rheoli lefelau maetholion y sir, er enghraifft y *Grŵp Cynghori Technegol: Gweithgor Amaethyddol* Nod y grŵp hwn yw lleihau llif maetholion o arferion amaethyddol a defnydd tir gwledig er mwyn diogelu dalgylchoedd ACA afonol.

Ar ben hynny, fel y soniwyd yn flaenorol, mae'r adran Hamdden yn falch o gael tîm o *Hyrwyddwyr Gwyrdd*. Dyma grŵp o unigolion sy'n angerddol am weithredu ar yr hinsawdd a chynaliadwyedd ac sydd wedi gwirfoddoli i fod yn arloeswyr yn y gweithle.


## 7.2. CYNNYDD YN ERBYN CAMAU GWEITHREDU

Rydym wedi bod yn gwneud cynnydd da yn erbyn yr un cam gweithredu ar bymtheg a nodwyd yn ein cynllun Carbon Sero Net, gyda deg ohonynt wedi'u cwblhau a'u cau. Ceir rhestr lawn o'r cynnydd ar y camau hyn yn atodiad 1. Fodd bynnag, mae'r awdurdod yn llawer mwy gweithgar yn y maes hwn na'r hyn y mae'r camau'n ei gyfleu yn sgil datblygiad parhaus y Cynllun Sero Net, sydd wedi bod yn fodd i gynnwys datgarboneiddio a'r argyfwng natur fel un o'r blaenoriaethau thematig o fewn amcanion llesiant yr awdurdod. Ar ben hynny, mae gwaith tuag at liniaru'r argyfwng hinsawdd a natur ac ymgorffori mesurau addasu i'r hinsawdd yn mynd y tu hwnt i'r hyn sydd yn y Cynllun Sero Net drwy ddefnyddio'r System Rheoli Dangosyddion Perfformiad (PIMS) i weithredu camau. Bydd cynnydd yn erbyn y camau hyn yn destun gwaith monitro a chraffu bob chwarter, a hefyd yn goleuo'r cynllun busnes corfforaethol, a gaiff ei fonitro'n flynyddol. Oherwydd natur esblygol y cynllun, byddwn yn parhau i olrhain cynnydd yn erbyn y 6 cham gweithredu sy'n weddill ar gyfer Carbon Sero Net, ond bydd ymyriadau a mentrau newydd yn cael eu monitro drwy broses PIMS. Mae'r holl gamau gweithredu PIMS a restrir yn yr adroddiad hwn wedi cael eu tynnu o gynllun cyflawni busnes Cyngor Sir Caerfyrddin 25-26, felly mae 31 Mawrth 2026 wedi'i bennu fel dyddiad targed i'w cwblhau i gyd.

## 7.3. SENARIOS DATGARBONEIDDIO

Gan ddefnyddio'r offeryn taflwybr carbon rydym wedi rhagweld effaith gwahanol brosiectau ar ein llwybr datgarboneiddio. Mae hyn yn rhoi cyfle inni greu darlun o effaith pob prosiect. Mae'r offeryn taflwybrau carbon felly'n rhan hynod fuddiol o'r broses benderfynu. Mae'r offeryn hefyd yn ein helpu i ddarganfod ble mae angen mwy o waith a buddsoddiad.

### 7.3.1. Senario Prosiectau yn yr Arfaeth





Dangosir ein taflwybr datgarboneiddio ar y graff uchod, yn seiliedig ar brosiectau sydd gennym yn yr arfaeth ar hyn o bryd. Rhaid nodi y gallai'r rhain gynhyrchu mwy neu lai o arbedion, gan mai rhagfynegiadau yr ydynt ar hyn o bryd. Yn ogystal â hynny, er mwyn creu'r graff nid yw'r arbedion ond wedi cael eu cynnwys ar gyfer y flwyddyn osod, ond bydd y prosiectau'n creu arbedion blynyddol. Er y bydd y prosiectau hyn yn creu effaith gadarnhaol ar ein hallyriadau, maent yn dangos bod angen llawer mwy o fuddsoddiad mewn prosiectau datgarboneiddio i wireddu ein huchelgais.

### 7.3.2. Senario Datgarboneiddio Gwaredu Adeiladau

Mae ein portffolio adeiladau bob amser yn newid yn sgil gwaredu, prynu a chodi adeiladau, ac mae'n chwarae rhan bwysig yn ein hôl troed carbon. Fel y dengys ein hadroddiadau (gweler atodiad 1) adeiladau annomestig sydd i gyfrif am fwyafrif ein hallyriadau. Mae gwaredu adeiladau yn cael effaith gadarnhaol ar ein hallyriadau carbon, a chyda hyn mewn golwg, rydym wedi ystyried yr effaith hyn yn y dyfodol. Mae'r senario ganlynol, a ddangosir ar y graff isod, yn seiliedig ar gynllun lefel uchel i waredu adeiladau sydd dan ystyriaeth erbyn 2030. Rhaid nodi mai ymarfer yn unig yw hwn ac nad yw'n derfynol. Mae'r taflwybr hwn yn seiliedig ar ein portffolio cyfredol o adeiladau annomestig a'r 11 o adeiladau sydd dan ystyriaeth i'w gwaredu.

Mae'r taflwybr hwn hefyd yn rhagdybio y byddwn yn cadw at ein cyfradd leihau gyfredol, ac yn tybio y bydd yr holl adeiladau'n cael eu gwerthu yn 2027/28. Fel y gwelwch o'r graff isod, mae gwaredu ond 11 o adeiladau'n cael effaith gadarnhaol iawn ar ein hallyriadau. Ar sail defnydd ynni'r adeiladau yn 23/24 byddai hyn yn arbed 1,621,020.25 kWh a 332.1 t$CO_2$e.


Mae hyn hefyd yn pwysleisio'r angen i ystyried yr effaith amgylcheddol yn ogystal â'r potensial am fioamrywiaeth ar diroedd yr adeiladau wrth gaffael adeiladau newydd i'n hystâd. Mae hyn yn hanfodol os ydym am gyflawni ein huchelgeisiau. Mae'r penderfyniad i gael gwared â Pharc Dewi Sant o'n hystâd yn enghraifft berffaith o'r modd y gall gwerthu adeilad gael effaith aruthrol ar ein hallyriadau carbon. Yn seiliedig ar ddefnydd ynni 2023/24. bydd gwerthu'r safle yn sicrhau gostyngiad o 23% i'r allyriadau o'n hadeiladau annomestig.




Yn ôl y gyfraith, rhaid cael ac arddangos Tystysgrif Ynni ym mhob adeilad cyhoeddus â chyfanswm arwynebedd llawr defnyddiol o fwy na 250m$^2$. Mae Tystysgrif Arddangos Ynni yn dangos sgôr perfformiad ynni adeilad ar sail defnydd gwirioneddol o ynni dros gyfnod o 12 mis. Mae'r sgôr weithredol yn ddangosydd rhifiadol o'r allyriadau $CO_2$ blynyddol o'r adeilad a dangosir y sgôr hon ar raddfa o A i G, gydag A yn cynrychioli'r allyriadau $CO_2$ isaf a G yn cynrychioli'r rhai uchaf. Mae sgôr y Dystysgrif yn ddangosydd defnyddiol y dylid ei ystyried wrth benderfynu i waredu a chaffael adeiladau.

### 7.3.3. Senario Datgarboneiddio'r Fflyd

O'r pedwar maes allweddol yr ydym yn adrodd arnynt, ein fflyd yw ein hail allyrrydd uchaf, felly mae hwn yn faes â blaenoriaeth. Rydym wedi ystyried pa sefyllfa y byddwn ynddi erbyn 2030 o drosi 10% o'n fflyd yn gerbydau trydan bob blwyddyn. Mae defnyddio cerbyd trydan yn lle injan hylosgi mewnol (petrol a diesel) yn dileu'r holl allyriadau wrth yrru'r cerbyd. Fodd bynnag, mae allyriadau'n dal i fod yn gysylltiedig â'r ceir, gan fod allyriadau'n gysylltiedig â'r trydan a ddefnyddir i'w pweru, ond bod yr allyriadau hynny'n llawer llai. Yn seiliedig ar batrymau allyriadau 23/24, ac os na fyddwn yn gwneud dim byd arall i ddatgarboneiddio ar wahân i drosi 10% o'n fflyd i gerbydau trydan bob blwyddyn, bydd hynny'n golygu y byddwn yn allyrru 13,025.83 t$CO_2$e erbyn 2030; mae hyn yn ostyngiad o 22% o'n cyfanswm yn 23/24. Dangosir hyn ar y graff isod. Mae datgarboneiddio ein fflyd yn hanfodol i gyrraedd ein Targed Sero Net, ond mae angen gwneud hynny ar y cyd â phrosiectau datgarboneiddio eraill ar draws yr awdurdod cyfan.




Fel y dangosir gan y senarios hyn, mae dull cyfannol yn hanfodol er mwyn cyflawni ein huchelgais.

## 7.4. CYNLLUN POBL A NEWID DIWYLLIANNOL Y NEWID HINSAWDD A'R ARGYFWNG NATUR

Er mwyn cyflawni'r nodau uchelgeisiol y mae'r Cyngor wedi'u gosod ar gyfer lliniaru ac addasu i newid hinsawdd, yn ogystal â gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol, mae angen cefnogaeth ac ymroddiad gan bawb. Gan hynny, mae cynllun pobl a newid diwylliant yn offeryn hanfodol er mwyn ymgysylltu ag eraill, drwy rannu gwybodaeth am y newid hinsawdd a'r argyfwng natur. Mae hefyd yn sicrhau bod ein negeseuon yn strwythuredig, yn glir, yn gyson ac wedi'u halinio â dyheadau ein sefydliad. Mae'r cynllun yn elfen hanfodol er mwyn cyrraedd ein nodau, meithrin perthnasoedd a chynnal presenoldeb cadarnhaol a hygred yn ein cymuned. Mae brys y mater dan sylw yn dwysáu pwysigrwydd y cynllun, gan fod angen gweithredu nawr, ac mae angen i bawb weithredu, gan ei fod effeithio ar bob agwedd ar ein bywyd. Amlygwyd hefyd yn yr arolwg cyhoeddus diweddaraf mai dim ond 19% o'r ymatebwyr oedd yn cytuno bod yr argyfwng hinsawdd yn cael sylw'n lleol. Roedd 37% yn anghytuno bod eu hamgylchedd lleol yn ddymunol ac wedi'i ofalu amdano'n dda. Yn anad dim, mae hyn yn dangos bod angen cydweithredu gwell ar draws ein cymunedau.

Ceir hyd i'r cynllun yn atodiad 3.

## 7.5. COST DATGARBONEIDDIO

Mae angen buddsoddiad enfawr mewn mesurau effeithlonrwydd ynni a thechnolegau allyriadau isel er mwyn cyrraedd gostyngiad o 80% i'n hallyriadau carbon. Ar ôl inni gyrraedd ein hallyriadau targed, efallai y bydd angen buddsoddi ymhellach i fewnosod a gwrthbwyso gweithgareddau, er mwyn sicrhau ein bod yn cyrraedd statws Sero Net. Mae Atodiad 2 yn cynnwys tabl sy'n rhagweld faint fydd hyn yn ei gostio.

Fodd bynnag, rhaid nodi mai amcangyfrif yn unig yw hyn, a'i fod yn ddibynnol ar lawer o wahanol ystyriaethau. Nid yw o reidrwydd yn golygu y bydd angen arian ychwanegol ychwaith, gan y bydd rhannau helaeth o'r swm yn arian sydd wedi'i ailgyfeirio o dechnoleg tanwydd ffosil. Er enghraifft, pan fydd angen newid boeler sy'n rhedeg ar danwydd ffosil, ni fydd boeler unfath yn cael ei osod yn ei le, ond yn hytrach system allyriadau isel gyfatebol, fel pwmp gwres ffynhonnell aer. Ein nod yw cyflawni prosiectau datgarboneiddio ar y cyd â phartïon eraill sydd â buddiant. Er enghraifft, rydym yn gweithio'n agos iawn gyda'n hawdurdodau cyfagos, ac yn ystyried cyflawni prosiectau ar y cyd a thrwy fforymau rhanbarthol, fel Bargen Ddinesig Bae Abertawe, sydd eisoes yn cyflawni prosiectau ar draws y rhanbarth. Bydd hyn yn helpu i liniaru costau datgarboneiddio. Rydym wedi ymrwymo'n fawr i'n huchelgais i gyflawni Sero Net, ond mae ein gallu i gyflawni hynny'n dibynnu'n fawr ar gyllid gan drydydd partïon fel Llywodraeth Cymru, ac rydym yn ymroi'n weithredol i geisio a defnyddio'r cyllid hwnnw.

# 7. CASGLIAD

I gloi, a ninnau hanner ffordd drwy ein cynllun Carbon Sero Net, gallwn ymfalchïo yn y ffaith ein bod wedi sicrhau gostyngiad o 37% i'n hallyriadau carbon ers ein blwyddyn waelodlin, gan adlewyrchu'r llwyddiant fu ar draws y wlad. Fel awdurdod, rydym wedi sicrhau bod gennym strategaethau a chynlluniau effeithiol ar waith, sy'n cyd-fynd â thargedau ac uchelgeisiau Llywodraeth Cymru i wneud Sir Gaerfyrddin a'r Cyngor yn fwy cynaliadwy ac yn gyfoethog o ran natur. Mae hyn nid yn unig yn gwella llesiant y boblogaeth bresennol, ond cenedlaethau'r dyfodol hefyd. Rydym hefyd yn falch o'r prosiectau cydweithredol rydym wedi'u creu ag awdurdodau lleol cyfagos a rhanddeiliaid lleol i sbarduno ein gwaith ymhellach a sicrhau bod cynlluniau'n cael eu gwireddu. Rydym wedi nodi yn yr adroddiad hwn enghreifftiau o'r modd yr ydym, ar draws y Cyngor, yn gweithio tuag at ein targedau, ac rydym wedi adolygu, drwy ein gwaith ar daflwybrau, y llwybr y mae angen inni ei gymryd i ddod yn Awdurdod Lleol Sero Net erbyn 2030. Er mwyn cyflawni ein huchelgais, rydym yn cydnabod bod angen mwy o fuddsoddiad ac ymyriadau, a rhaid inni gofio y bydd cost gwneud dim yn llawer mwy na chost datgarboneiddio, y sgil effaith newid hinsawdd a dirywiad natur ar ein sir.

Er ein bod yn gwneud cynnydd da ac yn gwneud ein gorau glas i gyflawni ein huchelgais a'n nodau, mae llu o gyfyngiadau o'n blaen. Mae'n wybodaeth gyffredin bod cyllideb yr awdurdod yn cael ei thynhau bob blwyddyn oherwydd toriadau gan y llywodraeth, rydym yn aml felly'n dibynnu ar gyllid grant i gwblhau prosiectau. Fel y gallwch ddychmygu, mae cystadlu mawr am bob grant, gan fod y sector cyhoeddus cyfan yn wynebu cyni ariannol. Ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy, cyflwr y Grid Cenedlaethol sy'n achosi'r cyfyngiad mwyaf. Yn anffodus, mae angen uwchraddio'r Grid Cenedlaethol yn sylweddol er mwyn iddo allu derbyn a dosbarthu ynni o asedau adnewyddadwy newydd. Wrth osod system newydd mewn ardaloedd lle nad oes gan y Grid Cenedlaethol gapasiti gellir talu i'w uwchraddio, ond mae'r costau hyn yn aml yn eithriadol o uchel. Ar y llaw arall, fel y soniwyd yn flaenorol, os na fyddwn yn buddsoddi'n sylweddol i ddatgarboneiddio a gwarchod natur, bydd cost gwneud dim yn llawer uwch i'n cymunedau. Mae ymddygiadau diwylliannol a diffyg dealltwriaeth ynghylch newid hinsawdd a'r argyfwng natur hefyd yn llesteirio ein cynnydd. Fodd bynnag, mae'r adroddiad hwn, ynghyd â'r Cynllun Pobl a Newid Diwylliannol ar gyfer y Newid Hinsawdd a'r Argyfwng Natur, yn ymdrechu i newid hyn. Mae oed yr adeiladau o fewn ein hystâd hefyd yn achosi cryn her. Mae hyn oherwydd bod adeiladau hŷn yn tueddu i fod yn fwy aneffeithlon o ran ynni, gan nad oedd arbed ynni yn ystyriaeth wrth eu hadeiladu. Mae ein hadeiladau hynaf yn dyddio'n ôl i'r 1800au ac rydym yn

rhagweld bod cyfran fawr o'n hadeiladau yn gwastraffu ynni ar hyn o bryd. Mae'r adeiladau hŷn hefyd fel arfer yn cynnwys systemau hŷn sy'n gweithio'n aneffeithlon a byddai angen eu tynnu a'u disodli'n llwyr. Ar ben hynny, cyfyngir ar yr addasiadau y gellir eu gwneud ar adeiladau rhestredig. Mae hynny'n golygu bod yn rhaid i unrhyw brosiectau effeithlonrwydd ynni neu gynhyrchu ynni a gyflawnir gennym gynnwys mesurau sy'n sensitif i gymeriad a dynodiad adeiladau. Mae'n hanfodol hefyd ein bod yn sicrhau bod amgylcheddau naturiol yn cael eu diogelu wrth inni weithio. Fodd bynnag, byddwn yn ymdrechu i gyflawni ein huchelgais, ac ar y cyd, **fel un cyngor,** gallwn oresgyn unrhyw rwystrau a chyflawni unrhyw beth.

# ATODIAD 1

## ÔL TROED CARBON

Mae'r tabl isod yn manylu ar yr allyriadau a gofnodwyd gennym ar gyfer y meysydd o fewn ein Cynllun Carbon Sero Net.


| | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | % o newid ers y waelodlin |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adeiladau Annomestig** | | | | | | | | | |
| **Defnydd (kWh)** | 66,808,735 | 63,690,923 | 64,857,362 | 66,407,242 | 59,808,497 | 64,095,021 | 60,274,987 | 57,837,072 | -13% |
| **Allyriadau Carbon (tCO2e)** | 18,923 | 16,258 | 14,822 | 14,443 | 12,581 | 13,026 | 11,846 | 11,649 | -38% |
| **Goleuadau Stryd** | | | | | | | | | |
| **Defnydd (kWh)** | 5,718,531 | 4,873,979 | 4,202,381 | 3,925,149 | 3,875,843 | 3,599,124 | 3,594,185 | 3,521,319 | -38% |
| **Allyriadau Carbon (tCO2e)** | 2,569 | 1,874 | 1,291 | 1,088 | 981 | 832 | 809 | 792 | -69% |
| **Milltiroedd y Fflyd** | | | | | | | | | |
| **Milltiroedd** | 5,127,150 | 5,121,289 | 4,982,428 | 5,154,668 | 4,427,070 | 4,262,681 | 4,496,754 | 5,466,196 | 7% |
| **Diesel a Ddefnyddiwyd (litrau)** | 1,416,276 | | | 1,419,336 | 1,267,437 | 1,320,551 | 1,327,545 | 1,313,071 | -7% |
| **Trydan (kWh)** | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | 62,169 | Amh |
| **Allyriadau Carbon (tCO2e)** | 3,790 | 3,852 | 3,856 | 3,814 | 3,407 | 3,573 | 3,584 | 3,507 | -7% |
| **Milltiroedd Busnes** | | | | | | | | | |
| **Milltiroedd** | 4,186,640 | 3,948,586 | 3,846,615 | 3,971,513 | 2,251,986 | 2,511,091 | 2,775,432 | 2,954,503 | -29% |
| **Allyriadau Carbon (tCO2e)** | 1,260 | 1,159 | 1,118 | 1,132 | 621 | 693 | 745 | 808 | -36% |
| **CYFANSWM** | | | | | | | | | |
| **Defnydd (kWh)** | 72,527,266 | 68,564,902 | 69,059,743 | 70,332,391 | 63,684,340 | 67,694,145 | 63,869,172 | 61,420,560 | -15% |
| **Milltiroedd** | 9,313,790 | 9,069,875 | 8,829,043 | 9,126,181 | 6,679,056 | 6,773,772 | 7,272,186 | 8,420,699 | -10% |
| **Ôl-troed Carbon (tCO2e)** | 26,542 | 23,143 | 21,087 | 20,477 | 17,590 | 18,124 | 16,984 | 16,756 | -37% |

*Sylwer: Dylid nodi data ar ein perfformiad a ddyfynnir yn y ddogfen hon yn defnyddio ffactorau trosi allyriadau'r DU a gyhoeddwyd gan yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net. Caiff y ffactorau allyriadau hyn eu newid wrth i danwydd droi'n lanach - trydan yn bennaf gydag ynni mwy adnewyddadwy wedi'i gynnwys yn y gymysgedd o ynni. Fodd bynnag, gall y ffactorau hyn hefyd gynyddu wrth i ddata ddod yn fwy cywir. Bob blwyddyn, felly, mae ein data yn seiliedig ar y ffactorau trosi ar gyfer y flwyddyn honno. Ceir hyd i'r ffactorau trosi a ddefnyddiwyd ar gyfer blwyddyn adrodd 2023/24 yma: Adrodd ar nwyon tŷ gwydr: ffactorau trosi 2024 - GOV.UK.

Fel y soniwyd yn yr adroddiad, rydym wedi llwyddo i sicrhau gostyngiad o 37% i'n hallyriadau carbon ers ein blwyddyn waelodlin. Er inni wneud cynnydd o ran lleihau allyriadau'n gyffredinol, daeth y gostyngiadau mwyaf o'n hallyriadau goleuadau stryd.

## **Ôl troed Carbon: Adeiladau Annomestig**

Ers ein blwyddyn waelodlin rydym wedi llwyddo i sicrhau gostyngiad o 38% i'n hallyriadau o adeiladau annomestig, fel y dangosir ar y graff isod. Mae hyn i raddau helaeth yn deillio o'r mesurau effeithlonrwydd ynni sydd wedi cael eu rhoi ar waith ar draws ein hystâd. Fodd bynnag, rhaid nodi bod hyn hefyd yn deillio o'r ffaith bod trydan y grid yn troi'n lanach gan fod y defnydd o ynni adnewyddadwy wedi cynyddu yn y gymysgedd o drydan. Dylid nodi hefyd mai dyma'r flwyddyn gyntaf inni gael dynnu'r trydan a ddefnyddir i bweru ein cerbydau trydan o'n defnydd o drydan mewn adeiladau, ac adrodd ar y trydan hwnnw ar wahân.




| | Non-domestic buildings | | | | | | | | 2022/23 Vs 2023/24 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | Progress | % Change |
| Consumption (kWh) | 66,808,235 | 63,690,923 | 64,857,362 | 66,407,242 | 59,808,497 | 64,095,021 | 60,274,987 | 57,837,072 | -2,437,915 | -4% |
| Carbon Emissions (tCO2e) | 18,923 | 16,258 | 14,822 | 14,443 | 12,581 | 13,026 | 11,846 | 11,649 | -197 | -2% |

Yn rhan o'n dadansoddiad ôl troed carbon rydym yn monitro'r defnydd o ynni yn ein hadeiladau annomestig, ac wedi nodi'r 10 lle ceir y defnydd mwyaf, fel y dangosir yn y tabl isod. Mae hyn nid yn unig yn ein galluogi i weld maint yr her o'n blaen, ond hefyd yn dangos yr hyn y dylem ganolbwyntio arno. Enghraifft dda o'r ffordd rydym yn canolbwyntio ar y defnyddwyr uchel hyn yn ein gwaith yw Canolfan Hamdden Caerfyrddin. Fel y gwelwch, mae'r Ganolfan yn yr ail safle. Cafodd mesurau effeithlonrwydd ynni a phaneli solar eu gosod ar y safle o dan Gam 1 Re:Fit, ond roedd angen gwneud mwy o waith er mwyn helpu i ddatgarboneiddio'r ganolfan. Arweiniodd hyn at ein cais diweddar i gylch tri o Grant Gwres Carbon Isel Llywodraeth Cymru, lle rydym wedi llwyddo i sicrhau cymorth ariannol i osod pympiau gwres ffynhonnell aer. Bydd y prosiect hwn yn cael gwared â'r system wresogi tanwydd ffosil a geir ar y safle ar hyn o bryd yn llwyr, gan ei helpu i ddod yn fwy cynaliadwy. Mae'r holl safleoedd ar y rhestr yn cael eu cyflwyno ar gyfer gwaith effeithlonrwydd ynni o dan Gam 2 Re:Fit.

| Safle | Enw'r Safle | Blwyddyn Adeiladu | 23/24 kWh | 23/24 $tCO_2e$ | Sgôr y Tystysgrif Ynni |
|---|---|---|---|---|---|
| **1** | Ysgol a Chanolfan Hamdden Dyffryn Aman | 1929 - 2014 | 3,944,348.72 | 747.23 | 71 C (cyfartaledd) |
| **2** | Canolfan Hamdden Caerfyrddin | 1982 - 2010 | 2,937,451.42 | 553.67 | 54 C |
| **3** | Canolfan Hamdden Llanelli | 1963 ac 1994 | 2,234,595.02 | 426.78 | 74 C |
| **4** | Ysgol Uwchradd Y Frenhines Elizabeth | 2008 | 1,885,321.40 | 370.32 | 73 C |
| **5** | Cartref Gofal a Chanolfan Ddydd Llys-y-Bryn | 1987 a 2006 | 1,540,844.19 | 291.29 | 91 D |
| **6** | Ysgol Maes y Gwendraeth | 1926 - 2016 | 1,539,643.46 | 305.71 | 109 E (cyfartaledd) |
| **7** | Ysgol Bro Dinefwr | 2016 | 1,309,458.31 | 257.27 | 73 C |
| **8** | Ysgol Gyfun Dyffryn Taf | 1980 - 2005 | 1,092,640.00 | 214.42 | 55 C (cyfartaledd) |
| **9** | Ysgol Gyfun y Strade | 1937 - 2013 | 996,654.21 | 194.67 | 65 C |
| **10** | Parc Myrddin | Tua 1930 | 900,491.75 | 173.31 | 84 (cyfartaledd) |

## Cynnydd yn erbyn camau gweithredu

| **NZC-01** | | |
|---|---|---|
| **Cam Gweithredu** | Swyddog Arweiniol | Amserlen |
| **Cyflawni prosiect Cam 1 Re:Fit Cymru (Effeithlonrwydd Ynni) i sicrhau arbedion ynni/carbon** | Pennaeth Eiddo | Cwblhawyd |
| Cynnydd | | |
| Cwblhawyd Cam 1 o brosiect Re:Fit Cymru yn 2021. Gwelwyd mesurau effeithlonrwydd ynni yn cael eu gweithredu ar draws 30 o adeiladau'r Cyngor, gan arwain at yr arbedion canlynol:<br>- 71,874,488 kWh<br>- 2,2929.68 $tCO_2e$<br>- £1,379,053 | | |

| **NZC-02** | | |
|---|---|---|
| **Cam Gweithredu** | Swyddog Arweiniol | Amserlen |
| **Datblygu camau pellach prosiect Re:Fit Cymru (Effeithlonrwydd Ynni), neu brosiect tebyg, i sicrhau arbedion ynni/carbon yn gyflymach** | Rheolwr Newid Hinsawdd a Thrawsnewid Ynni | Parhaus |
| Cynnydd | | |
| Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gydag Ameresco, ein darparydd gwasanaeth Re:Fit Cymru, i gwmpasu cam 2 y prosiect. Rydym yn anelu i'r cam hwn fod yn fwy uchelgeisiol na'r cam gwreiddiol, a byddwn yn cynnwys nifer fwy o safleoedd wrth ei gyflawni. Mae Cyfnod 2 wedi cael ei ohirio gan fod Ameresco yn cwblhau prosiectau datgarboneiddio eraill ar ein rhan. Yn 2022, gosodwyd mesurau effeithlonrwydd ynni gan gynnwys gwydro dwbl, deunydd inswleiddio waliau ceudod a gwelliannau i'r to yng Nghanolfan Ddysgu Caerfyrddin i gadw gwres o fewn yr adeilad yn well. Gosodwyd pwmp gwres ffynhonnell aer hefyd a ddisodlodd y system wresogi tanwydd ffosil yn y ganolfan. I wrthbwyso'r trydan ychwanegol yr oedd ei angen i bweru'r pwmp gosodwyd paneli ynni PV ategol hefyd. Gosodwyd goleuadau LED hefyd er mwyn helpu i leihau'r defnydd o ynni ar y safle. Yn sgil hyn, mae'r adeilad wedi arbed 12.3 $tCO_2e$ rhag cael ei ryddhau'n flynyddol, a rhwng 2023-24 llwyddwyd i osgoi defnyddio 71,379 kWh o ynni. Yn 2023 cawsom y Grant Gwres Carbon Isel gan Lywodraeth Cymru, a alluogodd Ameresco i osod pympiau gwres ffynhonnell aer yn 6 o'n hysgolion cynradd, gan ddileu eu systemau gwresogi tanwydd ffosil. Gosodwyd paneli solar PV ar 5 o'r safleoedd hefyd er mwyn lleihau'r trydan ychwanegol y byddai ei angen i | | |

| |
|---|
| redeg y pympiau. Yn anffodus, mae gwaith i osod y paneli solar PV ar un o'r safle wedi'i ohirio oherwydd strwythur y to. Mae Ameresco hefyd wedi ein cynorthwyo i wneud cais llwyddiannus i gylch 3 y Grant Carbon Isel. |

| **NZC-03** | | |
|---|---|---|
| Cam Gweithredu | Swyddog Arweiniol | Amserlen |
| **Ymgorffori safon 'Passivhaus', lle bo'n briodol, mewn prosiectau i godi adeiladau newydd** | Rheolwr Dylunio Eiddo | Cwblhawyd |
| Cynnydd | | |
| Mae Dylunio Eiddo wedi parhau i weithredu Safon Passivhaus ar draws cynigion dylunio ar gyfer ysgolion cynradd newydd. Mae'r rhain yn cynnwys Ysgol Gorslas, Ysgol Penbre ac Ysgol y Castell, y cafodd pob un ohonynt eu cwblhau'n llwyddiannus o fewn y 24 mis diwethaf.<br>Fodd bynnag, yn sgil gweithredu safonau costau Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion arian cyfatebol ledled Cymru, ceir angen cynyddol i sicrhau arbedion yn nyluniad adeiladau ac mewn safonau gofod. Felly mae'n debygol y bydd yr Awdurdod yn cyrraedd targedau dylunio Carbon Sero Net drwy weithredu methodolegau gwneuthuriad yn gyntaf ar gyfer adeiladau yn hytrach na mabwysiadu achrediad Safon Passivhaus ffurfiol yn drylwyr.<br>Mae methodolegau tebyg yn cael eu defnyddio mewn prosiectau y tu allan i'r sector Addysg, yn benodol mewn cynlluniau tai cymdeithasol mawr a phrosiectau adfywio ffisegol ledled Sir Gaerfyrddin, gyda buddsoddiad i ymgorffori lefelau uchel o inswleiddio thermol, mewn dyluniad ffabrig, mewn aerglosrwydd eithriadol, ac mewn systemau adfer gwres mecanyddol yn cefnogi cynaliadwyedd a pherfformiad adeiladau. Mae hyn yn ymestyn i gynnwys anogaeth i ddewis deunyddiau cyfrifol, gan gyfeirio at gyrraedd targedau carbon corfforedig a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. | | |
| **NZC-04** | | |
| Cam Gweithredu | Swyddog Arweiniol | Amserlen |
| **Adolygu a diwygio manylebau a briffiau dylunio yn barhaus i adlewyrchu technolegau newydd ac offer sy'n effeithlon o ran ynni** | Rheolwr Dylunio Eiddo | Cwblhawyd |
| Cynnydd | | |
| Rydym yn parhau i adolygu, arbed ac optimeiddio ein hymagweddau at dechnolegau newydd ac offer sy'n effeithlon o ran ynni. Mae hyn yn berthnasol i'n cefnogaeth tuag at y fethodoleg gwneuthuriad yn gyntaf ar strwythur adeiladau. Yn gyntaf, drwy leihau'r galw am ynni ac wedyn creu gwrthbwysau cadarnhaol yn erbyn ynni newydd a gynhyrchir ar y safle, drwy ymgorffori systemau cynhyrchu solar, er enghraifft. | | |
| **NZC-05** | | |
| Cam Gweithredu | Swyddog Arweiniol | Amserlen |
| **Ymestyn technoleg 'clyfar' ac is-fesuryddion i sicrhau bod data ar ddefnydd ynni yn cael eu casglu'n gywir ac yn amserol** | Swyddog Ynni Corfforaethol | Parhaus |
| Cynnydd | | |
| Mae 100% o'r mesuryddion nwy a 90% o'n mesuryddion trydan wedi'u diweddaru i AMR. Ar ôl cwblhau'r rhaglen mesuryddion trydan byddwn yn gwneud gwaith uwchraddio i'n cyflenwadau dŵr gan mai ond 1% o'r mesuryddion dŵr sy'n glyfar ar hyn o bryd. | | |

| **NZC-06** | | |
|---|---|---|
| Cam Gweithredu | Swyddog Arweiniol | Amserlen |
| **Datblygu targed lleihau carbon priodol ar gyfer adeiladau annomestig y Cyngor yn rhan o adolygiad blynyddol o'r cynllun gweithredu** | Rheolwr newid hinsawdd a thrawsnewid ynni | Cwblhawyd |


| Cynnydd |
| --- |
| Er mwyn cyrraedd ein nod Sero Net erbyn 2030, mae angen sicrhau gostyngiad blynyddol o 20% i'n hallyriadau. |

## Camau gweithredu PIMS ychwanegol

| | |
| --- | --- |
| | Datblygu strategaeth i gyrraedd Carbon Sero Net i'w defnyddio mewn adeiladau yn rhan o fanylebau Dylunio Eiddo. |
| 17673 | Cyflawni ein rhaglen 'ôl-osod' effeithlonrwydd ynni / ynni adnewyddadwy ar draws ein hystâd |

## Ôl troed Carbon: Goleuadau Stryd

Rydym wedi trosi tua 90% o'n goleuadau stryd yn oleuadau deuod allyrru golau (LED) ynni isel, gyda'r gweddill yn cael eu trosi ar ddiwedd eu hoes. Canlyniad hyn fu gostyngiad o 69% yn y carbon a allyrrwyd a 38% o ostyngiad yn y trydan a'r trydan a ddefnyddiwyd ers ein blwyddyn waelodlin, fel y dangosir ar y graff isod.




| Streetlighting | | | | | | | | | 2022/23 VS 2023/24 | |
| --- | --- | --- | --- | --- | --- | --- | --- | --- | --- | --- |
| | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | Progress | % Change |
| Consumption (kWh) | 5,718,531 | 4,873,979 | 4,202,381 | 3,925,149 | 3,875,843 | 3,599,124 | 3,594,185 | 3,521,319 | -72,866 | -2% |
| Carbon Emissions (tCO2e) | 2,569 | 1,874 | 1,291 | 1,088 | 981 | 832 | 809 | 792 | -17 | -2% |


## Cynnydd yn erbyn Camau Gweithredu

| **NZC-07** | | |
| --- | --- | --- |
| Cam Gweithredu | Swyddog Arweiniol | Amserlen |
| **Datblygu targed lleihau carbon priodol ar gyfer goleuadau stryd y Cyngor fel rhan o'r adolygiad blynyddol o'r cynllun gweithredu** | Peiriannydd Goleuadau | Cwblhawyd |

| | Cyhoeddus | |
|---|---|---|
| Cynnydd | | |
| Ar hyn o bryd mae ~90% o'n goleuadau stryd wedi'u trosi i LED gyda'r gweddill ar amserlen i gael eu newid pan ddaw oes y bylbiau presennol i ben. Er mwyn lleihau carbon ymhellach, mae angen archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio technoleg goleuadau stryd amgen, e.e. pŵer solar, yn ogystal ag oriau goleuo. Mae angen cyrraedd targed i leihau 10% o allyriadau carbon erbyn 2030. | | |

## Ôl troed Carbon: Milltiroedd y Fflyd

Ers ein blwyddyn waelodlin rydym wedi llwyddo i sicrhau gostyngiad o 7% i allyriadau carbon Milltiroedd y Fflyd. Fodd bynnag, rydym wedi gweld cynnydd sydyn o 22% yn y milltiroedd teithio o gymharu â 2022/23 wrth i'r gwasanaethau a ddarperir gynyddu a bywyd ddychwelyd i'r cyfnod cyn covid. Serch hynny, rydym wedi gweld gostyngiad o 2% yn ein hallyriadau carbon ar gyfer Milltiroedd y Fflyd yn sgil cyflwyno mwy o gerbydau trydan o fewn ein fflyd. Mae hyn yn dangos sut y gall cerbydau trydan gael effaith gadarnhaol ar ein hallyriadau yn enwedig os na allwn leihau'r milltiroedd y mae ein fflyd yn eu teithio oherwydd y gwasanaethau y mae'n ofynnol inni eu darparu.




| Fleet Mileage | | | | | | | | | 2022/23 VS 2023/24 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | Progress | % Change |
| Mileage (Miles) | 5,127,150 | 5,121,289 | 5,293,249 | 5,154,668 | 4,427,070 | 4,262,681 | 4,496,754 | 5,466,196 | 969,442 | 22% |
| Carbon Emissions (tCO2e) | 3,790 | 3,852 | 3,856 | 3,814 | 3,407 | 3,573 | 3,584 | 3,507 | -77 | -2% |

## Cynnydd yn erbyn camau gweithredu

| **NZC-08** | | |
|---|---|---|
| Cam Gweithredu | Swyddog Arweiniol | Amserlen |
| **Adolygu'r cerbydau sy'n cael eu pweru gan y tanwydd mwyaf priodol ar gyfer pob un o wasanaethau'r Cyngor.** | Rheolwr Fflyd | Parhaus |
| Cynnydd | | |



Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

| | | |
|---|---|---|
| Ar hyn o bryd mae cerbydau trydan i gyfrif am 8.6% o fflyd yr awdurdod. Fodd bynnag, mae Panel Cynghori Trawsbleidiol y Newid Hinsawdd a'r Argyfwng Natur (CCNEAP) wedi dechrau ymchwilio'n fanwl i sector trafnidiaeth yr awdurdod, gan ddatblygu cynllun pontio er mwyn trosi i fflyd allyriadau isel. Bydd yr argymhellion yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet yn ystod haf 2025. | | |
| **NZC-09** | | |
| Cam Gweithredu | Swyddog Arweiniol | Amserlen |
| **Datblygu targed lleihau carbon priodol ar gyfer milltiroedd fflyd y Cyngor fel rhan o adolygiad blynyddol y cynllun gweithredu** | Rheolwr Fflyd | Cwblhawyd |
| Cynnydd | | |
| Ein nod yw trosi 10% o'n fflyd i gerbydau Trydan bob blwyddyn. | | |


**Camau gweithredu PIMS ychwanegol**

| | |
|---|---|
| 17484 | Datblygu a gweithredu Strategaeth Fflyd newydd [gan gynnwys Cynllun Pontio i Gerbydau Trydan] |

## Ôl troed carbon: Milltiroedd Busnes

Rydym wedi llwyddo i sicrhau gostyngiad o 36% i'r allyriadau carbon sy'n deillio o'n Milltiroedd Busnes ers ein blwyddyn waelodlin. Mae hyn i raddau helaeth yn deillio o'r ffaith ein bod wedi cyflwyno trefniadau gweithio hybrid, gan olygu bod modd cynnal mwy o gyfarfodydd a digwyddiadau yn rhithiol. Er y bu gostyngiad cyffredinol, yn anffodus rydym wedi gweld cynnydd o 8% mewn allyriadau o gymharu â'n data ar gyfer 2022/23. Gellir esbonio hyn drwy'r ffaith bod cynnydd graddol yn nifer y cyfarfodydd a'r digwyddiadau yn y cnawd dros y blynyddoedd diwethaf, wrth symud i ffwrdd oddi wrth fyd Covid, er bod gwaith hybrid wedi datblygu'n fwy cyffredin.

Fodd bynnag, mae hyn wedi amlygu'r angen i wneud mwy o waith yn y maes hwn i leihau ein hallyriadau carbon.




| Business Mileage | | | | | | | | | 2022/23 VS 2023/24 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | Progress | % Change |
| Mileage (Miles) | 4,186,640 | 3,948,586 | 3,846,615 | 3,971,513 | 2,251,986 | 2,511,091 | 2,775,432 | 2,954,503 | 179,071 | 6% |
| Carbon Emissions (tCO2e) | 1,260 | 1,159 | 1,118 | 1,132 | 621 | 693 | 745 | 808 | 63 | 8% |

## Cynnydd yn erbyn Camau Gweithredu


| **NZC-10** | | |
|---|---|---|
| Cam Gweithredu | Swyddog Arweiniol | Amserlen |
| **Cynnal adolygiad o geir cronfa'r Cyngor er mwyn canfod cyfleoedd i leihau carbon.** | Pennaeth Trafnidiaeth a Phriffyrdd | Cwblhawyd |
| Cynnydd | | |
| Mae ceir cronfa sydd ar gael yn gorfforaethol yn gymysgedd o gerbydau hybrid a cherbydau trydan llwyr. Yn flaenorol roeddem yn ddibynnol ar gerbydau injan tanio mewnol. Mae gwaith hefyd wedi cael ei wneud i gynyddu'r defnydd o'r cerbydau hyn sy'n helpu i hyrwyddo teithiau cynaliadwy ymhlith y staff.<br>I gyd-fynd â'r dull corfforaethol a'r ymrwymiad i leihau allyriadau carbon, mae ffurflen TEEP wedi cael ei llunio. Ar ôl rhoi hyn ar waith, bydd yn ofynnol cael cyfiawnhad clir dros ystyried amnewid cerbyd am gerbyd nad yw'n gerbyd trydan. | | |
| **NZC-11** | | |
| Cam Gweithredu | Swyddog Arweiniol | Amserlen |
| **Cwblhau strategaeth cerbydau trydan ar gyfer y Sir.** | Rheolwr Strategaeth a Seilwaith Trafnidiaeth | Parhaus |
| Cynnydd | | |
| Cafodd y Strategaeth Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan ei chyhoeddi yn 2022, ac mae ail fersiwn yn cael ei drafftio ar hyn o bryd. | | |
| **NZC-12** | | |
| Cam Gweithredu | Swyddog Arweiniol | Amserlen |
| **Datblygu targed lleihau carbon priodol ar gyfer milltiroedd busnes y Cyngor fel rhan o adolygiad blynyddol o'r cynllun gweithredu** | Pennaeth Trafnidiaeth a Phriffyrdd | Cwblhawyd |
| Cynnydd | | |
| Rydym wedi gosod targed o ostyngiad blynyddol o 10% i filltiroedd busnes y Cyngor. Drwy ein cynllun pobl a newid diwylliannol, byddwn yn hyrwyddo'r defnydd o geir trydan o'r gronfa, defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol er mwyn lleihau milltiroedd busnes y Cyngor. | | |

## Camau gweithredu PIMS ychwanegol

| | |
|---|---|
| 17457 | Datblygu cyfleusterau o fewn swyddfeydd Cyngor Sir Caerfyrddin i gefnogi Teithio Llesol i ymwelwyr, aelodau a swyddogion. Edrych ar raciau beiciau, ystafelloedd newid, cyfleusterau cawod ac ati**. [Gweledigaeth 65]** |
| 17458 | Cyflwyno'r llwybr beicio a cherdded o Gaerfyrddin i Landeilo a fydd yn hwb enfawr i drefi a phentrefi lleol, a thwristiaeth ledled y sir. **[Gweledigaeth 66]** |
| 17469 | Parhau i wneud cais am gyllid drwy Lywodraeth Cymru i alluogi cyflwyno pwyntiau gwefru mynediad i'r cyhoedd ymhellach ledled y sir yn unol â'n strategaeth Seilwaith Cerbydau Trydan; canolbwyntio ar y rhwydwaith priffyrdd strategol; edrych ar leoliadau ar draws ardaloedd trefol a gwledig, gan gynnwys y ganolfan uwch-wefru gyntaf yn Cross Hands. **[Gweledigaeth 55]** |
| 17483 | Bod y Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid i ystyried buddsoddiad pellach yn rhwydwaith y pwyntiau gwefru trydan ar draws y Sir gyda ffocws ar ddatblygu'r seilwaith fel rhan o'r fenter 10 Tref Wledig. **MFR 29** |
| 17525 | Defnyddio cyllid i weithredu’r Prif Gynlluniau Teithio Llesol ar gyfer ein prif drefi. Byddwn yn monitro eu heffeithiolrwydd drwy ddadansoddiad meintiol (cyfrifiadau) ac ansoddol (arolygon) er mwyn gwella llwybrau Teithio Llesol ar gyfer cymunedau |
| 17526 | Nifer y cilometrau di-draffig yn Sir Gaerfyrddin (seilwaith cerdded, teithio ar olwynion a beicio) [gwaelodlin] |
| 17527 | Nifer defnyddwyr y gwasanaeth llogi beiciau ym mhob lleoliad |

| | |
|---|---|
| 17529 | Nifer y Pecynnau Cynllunio Teithio i'r Ysgol/Cynlluniau Teithio Llesol i'r Ysgol Sustrans a Gyhoeddwyd er mwyn annog defnydd o ddulliau teithio llesol i'r ysgol. |
| 17532 | Nodi cyllid ychwanegol posibl i addysgu disgyblion oedran cynradd ar deimlo'n fwy diogel yn cerdded a beicio yn y gymuned. |

**Cynhyrchu Ynni Adnewyddadwy a Mewnosod a Gwrthbwyso Carbon**




Ymagwedd y Cyngor at Sero Net yw canolbwyntio ar leihau ein hôl troed carbon yn sylweddol ond mae'n cydnabod ei bod hi'n amhosib dileu ein holl allyriadau'n llwyr. Cydnabyddir y sefyllfa hon yn y 'Net' yn yr hafaliad Carbon Sero Net, gan olygu bod yn rhaid defnyddio ynni adnewyddadwy a gynhyrchir ac atafaelu carbon, e.e. plannu coed, i wrthbwyso ein hôl troed carbon gweddilliol. Er hynny, rydym yn parhau i ddilyn y dull hierarchaeth lliniaru carbon gan nad ydym yn ystyried gwrthbwyso fel esgus i beidio lleihau ein hôl troed carbon.

Rydym wedi parhau i osod systemau solar PV ar ein hadeiladau annomestig, gan gynnwys ysgolion, ac ar hyn o bryd mae gennym gapasiti o oddeutu 1.8 MWp wedi'i osod. Ein huchelgais yw cynhyrchu ein holl drydan ein hunain drwy ffynonellau adnewyddadwy, ond nod hirdymor yw hwn y ceir llawer o gyfyngiadau arno. Y prif gyfyngiadau yw'r gallu ariannol a chapasiti'r grid cenedlaethol. Wrth osod paneli solar PV rhaid inni hefyd ystyried cadernid strwythurol y to, ac yn anffodus hen adeiladau yw llawer o'r adeiladau o fewn ein hystâd. Nid ydym ychwaith yn berchen ar lawer o dir a allai gael ei ddefnyddio i osod paneli solar ar y ddaear neu dyrbinau gwynt. Mae'r tabl isod yn dangos y trydan a gynhyrchir gan ein gosodiadau solar PV.

| Solar PV | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Trydan a Gynhyrchir (kWh)** | 997,480 | 1,059,364 | 1,106,902 | 1,317,121 | 1,082,623 |

*Oherwydd mesuryddion diffygiol, mae ein cynhyrchiant trydan PV solar yn seiliedig ar gymhwyso cyfartaledd gyffredinol o 736 kWp/kWh. Cyfrifwyd y ffigur hwn drwy ddefnyddio 15 o safleoedd a chanddynt fesuryddion cwbl weithredol.

| NZC-13 | | |
|---|---|---|
| Cam Gweithredu | Swyddog Arweiniol | Amserlen |
| **Gweithio gyda Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru (GYLlC) i archwilio a darparu cyfleoedd am ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr.** | Rheolwr newid hinsawdd a thrawsnewid ynni | Parhaus |
| Cynnydd | | |
| Cynhyrchodd GYLlC Adolygiad Asedau Tir i ystyried potensial tyrbinau gwynt a phaneli PV solar wedi'u gosod ar y ddaear ar ein ffermydd tir yn unig. Nodwyd safleoedd â blaenoriaeth ganddynt sy'n cynnig y potensial mwyaf. Rydym yn gobeithio gweithredu rhai o'u hystyriaethau drwy gam 2 Re:Fit. Mae GYLlC hefyd yn helpu i ddatblygu prosiect canopi solar yng nghanol tref Caerfyrddin sydd ar hyn o bryd yn y cam dichonoldeb. Mae GYLlC yn ased gwerthfawr iawn a byddwn yn parhau i weithio gyda nhw i archwilio prosiectau ynni adnewyddadwy graddfa fawr. | | |

| NZC-14 | | |
|---|---|---|
| Cam Gweithredu | Swyddog Arweiniol | Amserlen |
| **Gweithio gyda'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol er mwyn cefnogi caffael mwy o ynni o brosiectau ynni adnewyddadwy a gynhyrchir yn lleol.** | Rheolwr newid hinsawdd a thrawsnewid ynni | Cwblhawyd |
| Cynnydd | | |
| Am 100% o'r trydan rydyn ni'n ei gaffael drwy ddefnyddio Cytundeb Fframwaith Gwasanaeth Masnachol y Goron ceir pŵer cyfatebol sydd wedi'i gynhyrchu gan ffynonellau ynni adnewyddadwy yng Nghymru, ac mae gennym dystysgrifau Gwarantau Tarddiad Ynni Adnewyddadwy (REGO) i ddilysu hyn. Er nad yw hyn yn cyfateb i 100% o ynni glân ar adeg ei ddefnyddio, mae'n arwydd o ymrwymiad yr Awdurdod tuag at ynni adnewyddadwy, drwy ysgogi cynnydd mewn asedau sy'n cynhyrchu ynni adnewyddadwy yng Nghymru | | |

| NZC-15 | | |
|---|---|---|
| Cam Gweithredu | Swyddog Arweiniol | Amserlen |
| **Archwilio dichonoldeb plannu coed a mesurau tebyg eraill, ar dir a reolir gan y Cyngor i gyfrannu at wrthbwyso carbon.** | Rheolwr Asedau Strategol | Parhaus |
| Cynnydd | | |
| Mae'r Strategaeth Coetiroedd a Choed wedi cael ei llunio, ac yn unol â tharged Llywodraeth Cymru mae'n nodi bod y Cyngor yn dal y targed i blannu 9.5ha o goetir newydd ar ein hystâd yn flynyddol am y 25 mlynedd nesaf, gan gynyddu ein gorchudd coetir o 12% i 17%. Mae cyfrifiannell y Cod Carbon Coetiroedd yn rhagweld y byddai plannu 9.5ha o goed llydanddail yn arwain at atafaelu 21.19 t$CO_2$e. | | |

| NZC-16 | | |
|---|---|---|
| Cam Gweithredu | Swyddog Arweiniol | Amserlen |
| **Datblygu targed priodol ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy fel rhan o adolygiad blynyddol o'r cynllun gweithredu.** | Rheolwr Asedau Strategol | Cwblhawyd |
| Cynnydd | | |
| Nod hirdymor y Cyngor yw cynhyrchu 100% o'i drydan o ffynonellau ynni adnewyddadwy. I gyflawni hyn, byddwn yn monitro capasiti'r Grid Cenedlaethol ar gyfer cynhyrchu ynni newydd, ac yn monitro ein hasedau yn barhaus am y potensial i osod systemau ynni adnewyddadwy. Byddwn hefyd yn defnyddio unrhyw gyfleoedd ariannu sy'n codi. Byddwn yn sicrhau y bydd pob cam o brosiect Re:Fit yn cynnwys cynhyrchu ynni adnewyddadwy. | | |

| Cyfeirnod PIMS | Disgrifiad |
|---|---|
| 16297 | Defnyddio dull graddol o weithredu system newydd ar gyfer casglu gwastraff ymyl y ffordd yn 2025, sy'n cydymffurfio â methodoleg casglu Glasbrint Llywodraeth Cymru. Newidiadau i wasanaethau casglu ailgylchu, bwyd, gwydr a gwastraff gweddilliol o 2025 [**CV 48**] |
| 16537 | Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu safle economi gylchol / ynni adnewyddadwy blaenllaw ar gyfer Sir Gaerfyrddin |
| 16538 | Cyflawni Cynllun Ynni Ardal Leol Sir Gaerfyrddin |
| 16539 | Ymgymryd â gwaith y Byrddau Rheoli Maetholion ar gyfer Tywi, Teifi a Chleddau a'i gefnogi wrth fynd i'r afael â'r broblem ffosffadau mewn Afonydd |
| 16540 | Cyfrannu at sicrhau isafswm niwtraliaeth maetholion mewn ymateb i broblemau llygredd ffosffad a maetholion mewn dyfroedd gwarchodedig |
| 16543 | Dangos tystiolaeth o gyflawni Dyletswydd Bioamrywiaeth Adran 6 y Cyngor i gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo gwydnwch ecosystemau. |
| 16563 | Datblygu strategaeth economi gylchol ehangach er mwyn galluogi cymunedau i fynd ati'n rhagweithiol i weithredu prosiectau cynaliadwy drwy rwydweithiau cymunedol presennol, ac i'r awdurdod hwyluso datblygu seilwaith pellach i gefnogi dyheadau am economi gylchol. |
| **newydd** | Cefnogi'r gwasanaeth i greu a chyflawni cynllun cyfathrebu ar gyfer y newid hinsawdd a'r argyfwng natur. (CV47) |
| | Datblygu cynllun cost-effeithiol i sicrhau bod pob Cartref Cyngor yn effeithlon o ran ynni ac yn cyrraedd isafswm o Fand C EPC cyn gynted â phosibl |
| | Cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar y cynllun eco flex yn nhai'r sector preifat. |
| | Gan ddefnyddio hyfforddiant a model 'Hyrwyddwyr Sero Chwaraeon', codi ymwybyddiaeth o fewn y sector chwaraeon ynghylch pwysigrwydd cynaliadwyedd, gan annog sefydliadau, athletwyr a chefnogwyr i fabwysiadu arferion mwy ecogyfeillgar a hyrwyddo cyfrifoldeb cymdeithasol o fewn y sector. |
| | Gweithio gyda Chronfa Bensiwn Dyfed i barhau â'r daith tuag at leihau ei dwysedd carbon, ac annog Cronfa Bensiwn Dyfed i weithio gyda chronfeydd pensiwn eraill a dysgu ganddynt, gyda golwg ar dynnu rhagor o fuddsoddiadau'n ôl o danwydd ffosil a buddiannau anfoesegol. (CVS57). |
| | Byddwn yn ymgorffori Carbon Sero Net yn ein gweithgarwch caffael |
| 17794 | Gweithio ar y cyd i sicrhau bod pob prosiect, cynllun a pholisi addysg newydd sy'n ymwneud â thir a reolir gan yr Adran Addysg yn arddangos yr arfer gorau o ran creu budd net i fioamrywiaeth, adfer natur a Seilwaith Gwyrdd a Glas. |
| 17793 | Gweithio mewn ysgolion i addysgu dysgwyr am gynhyrchu bwyd a sut i goginio prydau iach drwy ddefnyddio cynnyrch lleol. (CV82) |
| 17795 | Ar dir a reolir gan ysgolion Addysg ac ysgolion CSC, nodi cyfleoedd i wella bioamrywiaeth e.e., rheoli rhai ardaloedd o laswelltir amwynder ar gyfer pryfed peillio, ac ardaloedd sy'n addas ar gyfer plannu coed, yn |



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

| | |
|---|---|
| | gyson â Strategaeth Coed a Choetiroedd CSC |
| 17027 | Targedau i leihau defnydd yn seiliedig ar ddata gwaelodlin Tystysgrifau Ynni i'w Harddangos a chynigion i resymoli yn y dyfodol. |
| 16780 | Cyflwyno a monitro Blaengynllun newydd ar gyfer Deddf yr Amgylchedd Ion 23 - Rhag 25 |
| 16798 | Cyflwyno llawlyfr safonau gwasanaeth gweithredol ar gyfer staff gweithredol o fewn y Gwasanaethau Gwastraff |
| | Cyflawni ymrwymiad y cyngor i leihau allyriadau carbon erbyn 2030, o gymharu â gwaelodlin 2016 |
| | Monitro a Gweithredu'r Cynlluniau Rheoli Maetholion ar gyfer Afon Tywi, Teifi a Chleddau |
| 16898 | Cyflawni argymhellion y grŵp gorchwyl a gorffen tipio anghyfreithlon [Gweledigaeth 62] |
| 17445 | Cyflawni'r Strategaeth Newid Hinsawdd ac Argyfwng Natur |
| 17482 | Gweithredu Cytundebau Lefel Gwasanaeth sy'n cynnwys Rheolaeth ar Dir sy'n adlewyrchu Addasrwydd Bioamrywiaeth ar gyfer Toriadau Bioamrywiaeth Defnydd Tir, yn unol â'r Polisi Rheoli Glaswelltir. |
| 17492 | Adolygu ac ymchwilio i effeithiau carbon yn sgil gwaith cynnal a chaw ataliol ar briffyrdd o gymharu â gwaith cynnal a chadw ymatebol [effaith oes gyfan] |
| 17494 | Adolygu rheolaeth a'r capasiti am Wydnwch Cymunedol mewn perthynas â'r perygl o effeithiau tywydd anffafriol, gan gynnwys Ymateb Priffyrdd i Lifogydd sy'n gysylltiedig â Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol. |
| 17495 | Cydlynu adolygiad o'r Polisi Sachau Tywod a digwyddiadau ymgysylltu cymunedol mewn perthynas â digwyddiadau tywydd garw |
| 17498 | Bod y Cyngor yn cydweithio â chymunedau lleol i fynd i'r afael â phroblemau tipio anghyfreithlon a rheoli gwastraff mewn ardaloedd gwledig ac yn monitro effaith newidiadau a gyflwynwyd yn ddiweddar yng nghanolfannau ailgylchu a safleoedd tirlenwi'r Cyngor ar lefelau tipio anghyfreithlon mewn ardaloedd gwledig. **MFR 52** |
| 17499 | Datblygu cynllun cyfathrebu ar gyfer Ansawdd yr Amgylcheddol Lleol |
| 17500 | Ymgysylltu ag ardaloedd prysur o ran bwyd cyflym i ddatblygu cynllun gweithredu lleol penodol er mwyn lleihau'r sbwriel a gaiff ei ollwng o geir. |
| 17501 | Cyflwyno cynllun gweithredu TCC i gefnogi gweithgareddau gorfodi amgylcheddol |
| 17503 | Cydlynu 25 o ddigwyddiadau casglu sbwriel Cymoni eich Cymuned. |
| 17504 | Grymuso trigolion i gymryd cyfrifoldeb am eu hamgylchedd lleol drwy gynnal 20 grŵp gwirfoddol y flwyddyn. |
| 17505 | Gweithredu 6 chynllun gweithredu fesul ward/ardal yn seiliedig ar dystiolaeth o broblemau penodol sy'n gysylltiedig â gwastraff. |
| 17506 | Canfod cyllid i ddarparu adnodd ar gyfer addysg, ailddefnyddio a thrwsio. |

| | |
|---|---|
| 17507 | Parhau i ddatblygu'r Prosiect ETO drwy ymgysylltu cymunedol ehangach â phrosiectau presennol i weithio mewn partneriaeth a chydweithrediad yn lleoliadau'r Deg Tref. |
| 17509 | Cynnal rhaglen gymunedol o arolygon cyfranogiad ailgylchu i 5% o aelwydydd |
| 17510 | Cynnal 25 o weithgareddau ymgysylltu cymunedol â phreswylwyr, staff a rhanddeiliaid cymunedol. |
| 17512 | Cydlynu 8 sesiwn galw heibio i staff ar Strategaeth Gwastraff i gynnwys y broses Gorfodi Addysg a gofynion strategaeth casglu gwastraff gyfredol |
| 16280 | Parhau â'r nod o fod yn Awdurdod Lleol Carbon Sero Net erbyn 2030, a sefydlu gweithgor trawsbleidiol i fwrw ymlaen â'r agenda Carbon Sero Net a'r Argyfwng Natur. [Gweledigaeth 47] |
| 16281 | I gydnabod yr Argyfwng Natur a ddatganwyd gan CSC a Llywodraeth Cymru; byddwn yn newid ein harferion rheoli i gynyddu bioamrywiaeth yr holl dir sy'n eiddo i'r cyngor, a chydnabod y berthynas gref rhwng y newid hinsawdd, colli bioamrywiaeth, a llesiant dynol. Hyrwyddo'r defnydd o dir CSC i gefnogi adferiad natur. [Gweledigaeth 56] |
| 17516 | Cynnal asesiad a rhesymoli pob pwynt casglu cymunedol i baratoi ar gyfer gweithredu |
| 17518 | Datblygu a chyflawni cynllun gweithredu strategol ar gyfer y gwasanaeth 'Gwastraff Swmpus |
| 17519 | Gweithredu'r strategaeth brynu ar gyfer y fflyd casglu gwastraff sydd ar les |
| 17521 | Datblygu amserlen o raglenni addysgol er mwyn ymgysylltu â chymunedau ac ysgolion, er mwyn codi ymwybyddiaeth ynghylch cynlluniau trwsio, ailddefnyddio ac ailgylchu |
| 17530 | Cynnal 40 o ymweliadau gan ysgolion â'r ganolfan ETO yn Nant-y-caws. |
| 17531 | Datblygu a chyflwyno rhaglen addysg i'n disgyblion oed cynradd ar: Orfodi Amgylcheddol ac Ansawdd Amgylchedd Lleol |
| 17645 | Cyflwyno rhaglen ymchwilio blynyddol i ddraenio - bydd gwaith yn cael ei gyflawni sy'n canolbwyntio ar arolygon ac i drwsio asedau draenio tanddaearol. Cymunedau sydd â'r perygl uchaf o lifogydd - arolygon wedi'u cynnal i weld a yw'r draeniau'n gweithio. Mae ein gwybodaeth am y systemau draenio a'n dealltwriaeth ohonynt yn gadarn. Cynnal a chadw ac atgyweiriadau wedi'u gweithredu ar ôl arolygon yn seiliedig ar risg |
| 17653 | Lobïo Llywodraeth Cymru i ariannu a chefnogi gweithredu uniongyrchol yn Sir Gaerfyrddin gan weithio gyda sefydliadau lleol i fynd i'r afael â'r problemau llygredd dŵr sy'n wynebu'r ardal ar hyn o bryd. **MFR 50** |
| 17657 | Cynorthwyo ac arwain mesurau lliniaru dan arweiniad datblygwyr tuag at niwtraliaeth maetholion gan gynnwys gweithio mewn partneriaeth â'r Byrddau Rheoli Maetholion er mwyn ymateb mewn modd strategol i hwyluso datblygu. |
| 17672 | Hwyluso cyfleoedd i liniaru ffosffad a maetholion ar dir sy'n eiddo i'r cyngor |
| | Cynhyrchu Astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer gweithredu cynllun integredig i gael gwared â dŵr wyneb gan gynnwys dyluniad ar gyfer dau Faes Parcio yn Llanymddyfri a Chastellnewydd Emlyn fel rhan o'r Dyfarniad Grant Afonydd Cydnerth |

| | |
|---|---|
| | Datblygu a mabwysiadu canllawiau Cynllun Lle sy'n canolbwyntio ar y gymuned i gefnogi rhyngweithio â chymunedau a'u perchnogaeth ar bolisi a phenderfyniadau. |
| 17534 | Nodi rhaglen amnewid (yn amodol ar gyllid) ar gyfer amnewid ceblau tanddaearol |
| 17536 | Cyflwyno cynllun gweithredu adolygu cydymffurfiaeth fflyd i ddarparu gweithrediadau, prosesau a gweithdai fflyd diogel ac effeithlon sy'n cydymffurfio â gofynion. |
| 17537 | Datblygu a gweithredu polisi adnewyddu fflyd |
| | Paratoi, mabwysiadu a gweithredu Strategaeth Seilwaith Gwyrdd a Glas Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys pecyn cymorth i ddatblygwyr a chymunedau. |
| | Paratoi a mabwysiadu'r Strategaeth Rhandiroedd a Thyfu Cymunedol yn rhan o brosiect Gwyrddu Sir Gâr. |
| | Paratoi Canllawiau Creu Lleoedd i gefnogi gweithredu dylunio o ansawdd uchel ar draws ein cymunedau |
| | Lobïo Llywodraeth Cymru i ailystyried cyflwyno'r rheoliadau Parthau Perygl Nitradau arfaethedig (sy'n anelu i wella ansawdd dŵr drwy gyfyngu ar y cyfnod pan geir gwasgaru slyri) a chanolbwyntio yn lle hynny ar ymyrryd yn uniongyrchol mewn achosion lle bydd tramgwyddwyr ailadroddus yn camreoli slyri yn hytrach na chosbi pob ffermwr. **MFR 51** |
| | Byddwn yn cyflwyno rhaglenni gwella cylchol uchel eu gwerth ar draws ein stoc tai presennol er mwyn gwella perfformiad thermol a chynyddu lefelau EPC presennol. Targed diwedd blwyddyn |
| | Byddwn yn cyflawni cyfres o brosiectau mawr annibynnol yn unol â rhaglen fuddsoddi'r Cyfrif Refeniw Tai. |
| | Yn unol â deddfwriaeth EPC, byddwn yn caffael ardystiadau ar gyfer pob annedd. |
| 16491 | Grŵp Defnydd Tir Strategol – cwblhau adolygiad lefel uchel cyflawn o ddaliadau tir CSC |
| | Ehangu cylch gwaith y Grŵp Defnydd Tir Strategol i gynnwys casglu gwybodaeth am safleoedd tir llwyd i'w hadfywio ledled y sir, Defnyddir hyn i hysbysu'r cyhoedd am safleoedd addas i'w hadfywio a rhwystrau cysylltiedig i'w datblygu. |
| 15674 | Paratoi a mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig yn unol â'r Cytundeb Cyflawni. |
| 16541 | Monitro ac adrodd ar gyflawniad Cynllun Gweithredu Pryfed Peillio 2023-28 ar gyfer Rheoli Glaswelltiroedd ar gyfer Pryfed Peillio ar Ystâd CSC. |
| 17448 | Gweithredu'r Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd - 2 |
| 16851 | Cyflawni o leiaf ddau brosiect i uwchraddio a/neu adnewyddu asedau Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol sy'n eiddo i'r Cyngor Sir (yn amodol ar gyllid) o Grant Cynllun Mân Waith Cyfalaf Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol Llywodraeth Cymru |
| 16852 | Cyflawni 100% o'r camau gweithredu o'r archwiliadau cronfeydd dŵr blynyddol o fewn yr amserlenni pwrpasol a drefnwyd. |
| 17449 | Arwain gwaith i gyflawni Cynllun Rheoli'r Draethlin a chyflwyno adolygiad blynyddol i'r Tîm Rheoli Corfforaethol, Grŵp Peirianneg Arfordir Abertawe a Bae Caerfyrddin a Llywodraeth Cymru. |

| | |
|---|---|
| 17479 | Gweithredu'r Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig cyfredol a monitro ei lwyddiant, neu ddiffyg llwyddiant, yn erbyn y mesurau cyflawni a nodwyd ar ei gyfer, gan sicrhau y cedwir at bolisïau, gweithdrefnau ac arferion. |
| 17665 | Cyflawni'r rhaglen gwaith cyfalaf Amddiffyn rhag Llifogydd ac Amddiffyn yr Arfordir |
| | Nodi a gweithredu cyfleoedd i'r Cynllun Rheoli Lleoedd Lleol ar gyfer Natur ddarparu 2 gynllun sy'n gyson â'r Strategaeth Coed a Choetiroedd, a'r Strategaeth Seilwaith Gwyrdd a Glas, a'r amcanion creu lleoedd. |
| | Nodi a gweithredu cyfleoedd i alinio'r Strategaeth Coed a Choetiroedd (TWS) â mesurau i gyfyngu ar effeithiau llifogydd trwy fentrau plannu coed brodorol, gyda'r nod o gyflawni 2 gynllun |
| | Canfod a manteisio ar gyfleoedd i alinio'r Strategaeth Coed a Choetiroedd ag ymdrechion i liniaru maetholion |
| | Gweithredu blwyddyn 2 o raglen arolygu a chynnal a chadw asedau ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol deuflynyddol. |

**<u>Camau gweithedu PIMS ychwanegol</u>**

| | |
|---|---|
| | Nodi safleoedd ychwanegol lle ceir potensial i gynhyrchu ynni adnewyddadwy |
| | Archwilio’r potensial i ddefnyddio lleoliadau canol tref i gynhyrchu ynni adnewyddadwy |
| 16277 | Cynyddu ynni adnewyddadwy ar dir sy'n eiddo i'r cyngor a gweithio gyda phartneriaid i gefnogi cynlluniau ynni adnewyddadwy ledled y sir. **[Gweledigaeth 60] [MFR 48]** |
| 16278 | Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod seilwaith trydan yn ei le i'n galluogi i ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy uchelgeisiol er mwyn gyrraedd sero net. **[Gweledigaeth 67]** |
| 16542 | Cyflawni'r camau gweithredu a nodir yn y Strategaeth Coed a Choetiroedd |
| 16282 | Gan weithio gyda grŵp adolygu Defnydd Tir Strategol CSC, nodi safleoedd addas a bwrw ymlaen i blannu coed arnynt, gan ddangos egwyddorion coedwigo, ac mewn ymgynghoriad â chymunedau lleol. Nodi tair ardal arall i blannu coed arnynt. Ar yr amod bod cymorth grant ar gael. **[Gweledigaeth 63]** |

# ATODIAD 2

## COST DATGARBONEIDDIO

Heb fodel cenedlaethol ar waith, datblygwyd y fethodoleg ganlynol ar y cyd â Chyngor Abertawe i ragfynegi'r gost o ddod yn awdurdod lleol Sero Net. Mae'n bwysig nodi mai ffigurau sy'n seiliedig ar ragdybiaethau ac amcangyfrifon yw'r rhain, felly nid ydynt yn rhai pendant.

Ar ben hynny, ni fydd y buddsoddiad i ddatgarboneiddio yn cael ei ysgwyddo gan y cyngor yn unig. Bydd angen i drydydd partïon dalu cyfran sylweddol o'r gost, gan gynnwys y llywodraeth ganolog drwy gyllid grant a buddsoddiadau uniongyrchol mewn technolegau glanach. Bydd arian hefyd yn cael ei ailgyfeirio o brynu technoleg sy'n cael ei phweru gan danwydd ffosil.

Mae'r cyngor yn chwilio'n weithredol am gyllid o amrywiaeth o ffynonellau, gan ddefnyddio mecanweithiau buddsoddi i arbed a chyflawni prosiectau datgarboneiddio ar y cyd â phartïon eraill â buddiant.

| | $tCO_2e$ cyfredol | Buddsoddiad | Gweddill $tCO_2e$ | Cost |
|---|---|---|---|---|
| **Adeiladau ac Ynni** | 11,649 | Mesurau effeithlonrwydd ynni. Systemau cynhyrchu ynni adnewyddadwy. Rhwydweithiau gwres. | 3,000 | £73m+ |
| **Goleuadau Stryd** | 792 | Mae goleuadau stryd a reolir gan CSC bron i gyd wedi'u trosi i LED gyda'r ychydig iawn sy'n weddill wedi'u hamserlennu ar gyfer LED ar 'ddiwedd eu hoes'. Gan hynny, ni allwn wneud llawer mwy (ar wahân i'w diffodd am gyfnod hirach) nes y bydd technoleg newydd ar gael. Cafwyd gostyngiadau sylweddol mewn tCO2e uniongyrchol dros y blynyddoedd diwethaf ond maent bellach yn sefydlogi – ond byddant yn parhau i ostwng i gyd-fynd â datgarboneiddio'r grid trydan. | 600 | £1m |
| **Fflyd** | 3,507 | 113 o gerbydau nwyddau trwm x gwahaniaeth pris o £200k yr un = +£23m<br>Bysiau lles (25), Bysiau mini (32), Cerbydau nwyddau mawr (313), Ceir (87)<br>Amnewid cerbydau eto ar gyfer ynni adnewyddadwy cyn 2030 @ £15m | 0 | £56m |
| **Fflyd Lwyd** | 808 | Hawliadau teithio | 0 | £3m |
| **Cyfanswm** | 16,756 | | 3,600 | £133m+ |
| **Defnydd Tir** | -699 | | | |
| **Mewnosod** | -1027 | Adroddiad wedi'i gynnal gan City Science. I fewnosod yr allyriadau gweddilliol a ragfynegir gennym, bydd angen:<br>-5.5MW o ynni solar = £2.5 miliwn<br>- Plannu coed = cost ymlaen llaw o £130,000 | -1027 | £2.6m+ |
| **Gwrthbwyso** | -2598 | Wedi prynu gwrthbwysau wedi'u dilysu = ffi flynyddol o £59,000 | -2598 | £59,000 |
| **Cyfanswm** | 12,432 | | | £135.6m+ |



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

Cynigiwyd y fethodoleg hon i CLlLC ac i Lywodraeth Cymru er mwyn helpu awdurdodau lleol eraill a datblygu model cenedlaethol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd model cenedlaethol yn cael ei ryddhau yn 2025. Ar ôl inni ei dderbyn, byddwn yn cynnal asesiad ac yn ystyried ei ymgorffori wrth ddatblygu ein Cynllun Carbon Sero Net.

# ATODIAD 3

## CYNLLUN POBL A NEWID DIWYLLIANNOL Y NEWID HINSAWDD A'R ARGYFWNG NATUR

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi ymrwymo i leihau effeithiau'r newid hinsawdd a gwella a gwarchod yr amgylchedd naturiol. Mae'r awdurdod wedi gosod nodau uchelgeisiol na ellir ond eu cyflawni drwy gefnogaeth ac ymroddiad pawb. Felly, mae cynllun pobl a newid diwylliannol yn offeryn hanfodol er mwyn ymgysylltu ag eraill, drwy rannu gwybodaeth am yr argyfwng newid hinsawdd a'r argyfwng natur. Mae hefyd yn sicrhau bod ein negeseuon yn strwythuredig, yn glir, yn gyson ac wedi'u halinio â dyheadau ein sefydliad. Mae'r cynllun felly'n elfen hanfodol er mwyn cyrraedd ein nodau, meithrin perthnasoedd a chynnal presenoldeb cadarnhaol a hygred yn ein cymuned. Mae brys y mater dan sylw yn dwysáu pwysigrwydd y cynllun, gan fod angen gweithredu nawr, ac mae angen i bawb weithredu, gan ei fod effeithio ar bob agwedd ar ein bywyd. Amlygwyd hefyd yn yr arolwg cyhoeddus diweddaraf mai dim ond 19% o'r ymatebwyr oedd yn cytuno bod yr argyfwng hinsawdd yn cael sylw'n lleol. Roedd 37% yn anghytuno bod eu hamgylchedd lleol yn ddymunol ac wedi'i ofalu amdano'n dda. Yn anad dim, mae hyn yn dangos bod angen mwy o ymgysylltu â'r cyhoedd nid yn unig er mwyn gwella eu dealltwriaeth nhw, ond hefyd i wella ein dealltwriaeth ni'n hunain.

### Amcanion a Chyflawni

Mae'r cynllun wedi cael ei ddatblygu'n seiliedig ar egwyddor cynaliadwyedd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r pum ffordd o weithio; cydweithio, integreiddio, cynnwys, hirdymor ac atal.

Dyma amcanion y cynllun:

- Esbonio sut mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn newid i Sero Net ac yn diogelu a gwella bioamrywiaeth drwy gyfathrebu effeithiol, gan ganolbwyntio i ddechrau ar dri phrif grŵp o fewn ein cymuned – Ysgolion, Tenantiaid y Cyngor a Staff y Cyngor. Bydd hyn yn galluogi mwy o gydweithio rhwng yr awdurdod a'r cyhoedd.
- Annog newid ymddygiad effeithiol drwy ddefnyddio hyfforddiant ac addysg i feithrin gwybodaeth a fydd yn ysbrydoli gweithredu.
- Meithrin dealltwriaeth gyfunol o bolisïau a strategaethau newydd sy'n cyd-fynd â'r agenda hon er mwyn helpu i addysgu pobl ar yr hyn sy'n cael ei wneud yn y maes hwn yn lleol ac yn genedlaethol.
- Dathlu'r gwaith sydd wedi cael ei wneud a dangos y canlyniadau effeithiol er mwyn annog agweddau cadarnhaol ac integreiddio o fewn ac o amgylch y ffrwd waith hon.

- Annog cyfranogiad holl adrannau Cyngor Sir Caerfyrddin, rhanddeiliaid a'r cyhoedd, yn enwedig y tri grŵp ffocws.

Bydd y cynllun yn dilyn Fframwaith Dewisiadau Gwyrdd Llywodraeth Cymru wrth ei gyflawni:

**Gosod esiampl:** Byddwn yn arwain drwy esiampl ac yn sicrhau bod y neges yr ydym yn ei chyfleu am ein gwaith yn ysbrydoli eraill i weithredu a mabwysiadu ymddygiadau gwyrdd.

**Galluogi:** byddwn yn addysgu i gynyddu gwybodaeth a rhoi cymorth lle bo modd, er mwyn galluogi adrannau eraill, rhanddeiliaid a'r cyhoedd i wneud dewisiadau gwyrdd.

**Gwerthuso:** byddwn yn cyfleu effaith ein gweithredoedd ac yn dangos eu canlyniadau, er mwyn annog integreiddio a chydweithio, gan atgyfnerthu'r neges y gallwn wneud gwahaniaeth ar y cyd.

**Ymgysylltu:** lle bo modd byddwn yn cynnwys eraill yn ein gwaith a'n darpariaeth.

**Annog:** bob tro wrth gyfathrebu byddwn yn annog pobl i wneud dewisiadau cynaliadwy ac i ddylanwadu ar y bobl o'u hamgylch fel eu bod hwythau'n gwneud dewisiadau tebyg.

## Cynulleidfa Darged

Ein cynulleidfa darged wrth gyfathrebu yw'r awdurdod lleol cyfan, Cynghorwyr, rhanddeiliaid, grwpiau cymunedol, ysgolion a'r cyhoedd. Fodd bynnag, er mwyn ennill momentwm cychwynnol byddwn yn rhoi'r flaenoriaeth i dri grŵp yn ein ffocws lleol – Ysgolion, Tenantiaid y Cyngor a Staff y Cyngor, gan weithio gyda thimau cyfathrebu Llywodraeth Cymru i roi ffocws ar negeseuon cyhoeddus ehangach. Credwn fod canolbwyntio ar y grwpiau hyn i ddechrau yn rhoi persbectif da o drigolion Sir Gaerfyrddin gan eu bod yn cynrychioli amrywiaeth o ddemograffeg. Dewiswyd y grwpiau hyn hefyd gan ein bod yn teimlo bod llawer iawn o waith eisoes yn cael ei wneud yn y meysydd hyn ond nad yw o reidrwydd yn cael ei gyfleu'n effeithiol. Ar ben hynny, credwn fod gan y grwpiau hyn y potensial i hwyluso effaith pelen eira o wybodaeth a fydd yn cefnogi'r newid diwylliannol sydd ei angen. Er ein bod yn dechrau gyda'r grwpiau hyn nid yw ffocws y cynllun wedi'i gyfyngu iddyn nhw'n unig, a byddwn yn ymgysylltu â'r cyhoedd yn gyffredinol.

## Negeseuon Allweddol

Y neges hanfodol y byddwn yn ei chyfleu bob tro wrth gyfathrebu fydd y ffaith na allwn fynd i'r afael â newid hinsawdd a'r argyfwng natur ar ein pen ein hunain. Mae cydweithio ac agwedd gyfannol yn hanfodol i'r agenda hon. Rydym am annog dull cydgysylltiedig drwy gyfathrebu ynghylch strategaethau a pholisïau allweddol sy'n dod i rym a sut y gall pobl gymryd rhan a'u mabwysiadu. Byddwn hefyd yn dathlu llwyddiannau prosiectau a gwaith allweddol sy'n cael ei wneud ar draws yr awdurdod lleol. Byddwn hefyd yn cyfathrebu ynghylch

diwrnodau cenedlaethol allweddol, ynghyd ag unrhyw ddigwyddiadau rydym yn eu cynnal. Bydd ein cyfathrebiadau ni yn cyd-fynd â chyfathrebiadau Gweithredu ar Newid Hinsawdd Cymru, er mwyn hyrwyddo'r dull cydgysylltiedig ymhellach. Drwy ein negeseuon rydym hefyd am sicrhau bod ein grwpiau ffocws yn gwybod sut y gallant, a sut y maent, yn gwneud gwahaniaeth; rydym am iddyn nhw deimlo wedi'u grymuso ac yn frwdfrydig, a fydd yn ei dro yn annog mwy o weithredu.

**Sianeli a Phlatfformau**

Byddwn yn defnyddio amrywiaeth o sianeli gwahanol i sicrhau ein bod yn cyrraedd cynifer o bobl ag sy'n bosibl wrth gyfathrebu. Byddwn yn rhannu gwybodaeth am yr hyn y mae'r awdurdod lleol yn ei wneud a diwrnodau cenedlaethol y gall pobl gymryd rhan ynddynt drwy'r Cylchlythyr Staff, gwefan y Cyngor, y Fewnrwyd a'r cyfryngau cymdeithasol, gyda'r tîm Marchnata a'r Cyfryngau yn hwyluso'r gwaith hwnnw.

Byddwn hefyd yn cynnal Fforwm Hinsawdd a Natur. Bydd hyn yn rhoi'r cyfle inni roi cyflwyniadau i randdeiliaid lleol, grwpiau cymunedol a'r cyhoedd ar y gwaith rydym yn ei wneud. Byddwn hefyd yn cynnal trafodaethau bord gron er mwyn i bobl gael ymgysylltu â swyddogion allweddol a rhoi eu syniadau a'u hadborth. Bydd hyn hefyd yn gyfle inni drafod sut y gallwn gydweithio i gyrraedd ein targedau. Ar ben hynny, byddwn yn mabwysiadu'r ymagwedd hon ar gyfer ein tri grŵp ffocws - Ysgolion, tenantiaid y Cyngor a staff y Cyngor. Bydd hyn yn gyfle gwych i gyfarfod a dod i adnabod y grwpiau a rhoi cipolwg o'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth gyfredol. Bydd hefyd yn rhoi amser gwerthfawr inni gyfleu'n effeithiol yr hyn yr ydym ni fel awdurdod yn ei wneud yn dda a hefyd yn rhoi cyfle inni roi adborth iddyn nhw ac asesu sut y gallwn wella a gweithio gyda'n gilydd. Bydd hyn yn helpu i hyrwyddo perthnasoedd cadarnhaol a chysylltiad cryfach rhwng y cyngor a chymunedau lleol.

Bydd platfform ThinQi hefyd yn cael ei ddefnyddio i annog aelodau staff i ehangu eu gwybodaeth am ein hymagwedd at Sero Net, ac yn yr un modd am fioamrywiaeth a'n dyletswydd o dan y Ddeddf Amgylcheddol drwy fodiwlau e-ddysgu.

**Gweithgareddau**

1) **Gweithdai Grŵp Ffocws**

Cwrdd â phob grŵp ffocws (Ysgolion, Tenantiaid y Cyngor a staff y Cyngor) a chynnal trafodaeth arddull bord gron gyda'r prif bynciau trafod fel a ganlyn:

- Lefel bresennol eu dealltwriaeth ynghylch y newid hinsawdd a'r argyfwng natur.

Bydd hyn yn ein galluogi i lunio deunydd dysgu pwrpasol ar y pynciau hyn er mwyn helpu i

gryfhau eu gwybodaeth. Bydd hyn yn sicrhau eu bod nhw'n gwybod yn union pam mae angen inni newid ein hymddygiadau a'n hagweddau.

- Yr hyn yr ydym ni fel awdurdod lleol yn ei wneud i helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd ac argyfyngau natur gyda ffocws ar eu hardaloedd.

Bydd hyn yn eu helpu i ddeall ein bod ni'n bod yn rhagweithiol yn y maes hwn, ac i ddeall sut y bydd y prosiectau rydyn ni'n eu gweithredu yn effeithio arnyn nhw. Er enghraifft, os bydd tenantiaid y Cyngor wedi cael system ynni adnewyddadwy wedi'i gosod yn eu cartref, gallwn esbonio sut yn union mae'n gweithio a sut y bydd o fudd iddynt. Bydd tynnu sylw at fanteision yr hyn rydym yn ei wneud, a sut y bydd hynny'n effeithio'n gadarnhaol ar y grwpiau, yn helpu i hyrwyddo agweddau ac ymgysylltu gwell â'r prosiectau a weithredir gennym.

- Rhannu syniadau ac arferion gorau.

Bydd dod â grŵp o gymheiriaid ynghyd bydd modd rhannu arfer gorau a syniadau. Er enghraifft, bydd dod â phob pennaeth ynghyd i un lle i drafod yr hyn maen nhw'n ei wneud yn barod yn annog eraill i gymryd rhan. Mae hefyd yn hanfodol ein bod yn caniatáu amser i'r grwpiau rannu'r syniadau sydd ganddynt, a lle bo'n bosibl ac yn addas, byddwn yn helpu i wireddu'r syniadau hyn.

2) **Lansio Cynllun Ynni Ardal Leol**

Er mwyn annog ymgorffori'r Cynllun Ynni Ardal Leol gallwn gynnal gweithdai sy'n cyflwyno canlyniad y Cynllun Ynni Ardal Leol a'r camau ynddo i'r canlynol: Aelodau; Cyfarwyddwyr a Rheolwyr; a Rhanddeiliaid. Mae'n hanfodol ein bod yn cyfleu'n effeithiol yn y gweithdai mai cyfrifoldeb pawb yw'r Cynllun Ynni Ardal Leol ac y dylai pob un ohonom weithio tuag at gyflawni'r camau ynddo. Gallwn gynnal trafodaethau ynghylch sut y gellir cyflawni'r camau. Rhagwelir y bydd y gweithdai yn 2 awr o hyd ac y gellir eu cyflwyno yn y cnawd neu drwy Teams; mae'n bosibl y bydd mwy o bobl yn gallu ymuno o ddefnyddio Teams. Bydd sesiwn ddysgu amser cinio yn cael ei chynnal, lle gwahoddir holl aelodau staff y cyngor i fod yn bresennol. Bydd hon yn ffordd effeithiol o sicrhau bod pawb yn gwybod beth yw'r Cynllun Ynni Ardal Leol ac y dylem fod yn gweithio tuag at gyflawni'r camau ynddo. Bydd ymgyrch gyfathrebu helaeth i hyrwyddo'r sesiwn ddysgu a'r Cynllun Ynni Ardal Leol ei hun yn hanfodol er mwyn sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'r cynllun. Defnyddir ymgyrch gyfathrebu ar draws y wefan gorfforaethol a'r cyfryngau cymdeithasol i hysbysu'r cyhoedd ynghylch y cynllun. Gellir cyflawni mwy o ymgysylltiad cyhoeddus drwy'r fforwm newid hinsawdd ac argyfwng natur (isod)

3) **Fforwm newid hinsawdd ac argyfwng natur Cyngor Sir Caerfyrddin.**

Nod y fforwm yw arddangos y gwaith y mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn ei wneud tuag at fynd i'r afael â newid hinsawdd a goresgyn yr argyfwng natur. Yn ddelfrydol, byddai hwn

yn ddigwyddiad undydd wyneb yn wyneb lle gwahoddir rhanddeiliaid, grwpiau cymunedol a'r cyhoedd i wrando ar gyflwyniadau ar wahanol ffrydiau gwaith a arweinir gan y Cyngor. Byddai hefyd yn fuddiol cael trafodaethau bord gron ar sut y gellir cyflawni'r camau hyn yn y sir hefyd, drwy esbonio'r gefnogaeth y gallwn ei darparu. Gall y trafodaethau bord gron hyn hefyd fod yn gyfle gwych i glywed beth sy'n cael ei wneud ar draws y sir, y tu allan i'r cyngor, a rhoi cyfle i'r cyhoedd roi adborth. Byddai'r fforwm yn darlunio ac yn annog dull cydgysylltiedig ac yn sicrhau bod hon yn agenda uchel ei blaenoriaeth i'r awdurdod.

Awgrymiadau o destunau ar gyfer cyflwyniadau:

- Cynllun Sero Net Cyngor Sir Caerfyrddin a'r gwaith rydym yn ei wneud i ddatgarboneiddio
- Y Cynllun Ynni Ardal Leol
- Dyletswyddau'r Ddeddf Amgylcheddol
- Strategaeth Coed a Choetiroedd
- Gwaith Mannau Lleol ar gyfer Natur
- Gwaith ar bryfed peillio
- Strategaeth y Seilwaith Gwyrdd a Glas
- Y gwaith mae ysgolion yn ei wneud
- Rheoli Maetholion
- Strategaeth Seilwaith Cerbydau Trydan

**Adolygu**

Mae'n hanfodol ein bod yn neilltuo amser i fyfyrio ar ein gweithgareddau cyfathrebu er mwyn gwerthuso'r hyn sydd wedi bod yn effeithiol. Bydd hyn yn ein galluogi i ddeall sut i wella a pharhau i ennyn diddordeb pobl o fewn ein darpariaeth.

**ATODIAD 4**

# Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 – Adolygiad 2023-2025

# Cyngor Sir Caerfyrddin

## Rhagfyr 2025

## Cynnwys


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| | Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd - Rhagair | 2 |
| | Rhagair y Cyfarwyddwr | 2 |
| 1 | Crynodeb Gweithredol | 3 |

| | | |
|---|---|---|
| 2 | **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016** | 3 |
| 3 | **Adnoddau Naturiol Sir Gaerfyrddin** | 4 |
| 4 | **Cyd-destun Strategol** | 6 |
| 5 | **Camau Gweithredu'r Blaengynllun a gyflawnwyd 2023–2025** | 6 |
| 6 | **Adolygiad o'r camau a gyflawnwyd** | 26 |


## Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd - Rhagair

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin ac awdurdodau lleol eraill yng Nghymru yn chwarae rôl hanfodol wrth fynd i'r afael â'r argyfwng natur. Fel rhanddeiliaid pwysig yn ein cymunedau a'n hamgylcheddau priodol, rydym mewn sefyllfa dda i ddeall yr heriau ecolegol unigryw a wynebir ar lefel leol ac ymateb iddynt. Trwy gynllunio strategol, dyrannu adnoddau, a rhoi polisïau ar waith, gall Cyngor Sir Caerfyrddin fynd ati i ddiogelu a gwella'r cynefinoedd naturiol a'r fioamrywiaeth o fewn ein hawdurdodaethau. Trwy gydweithio â phartneriaid, gan gynnwys grwpiau cymunedol, mudiadau cadwraeth, y trydydd sector, y sector cyhoeddus a busnesau, gellir meithrin partneriaethau sy'n hyrwyddo rheolaeth gynaliadwy ar dir, adfer cynefinoedd, a chadwraeth bywyd gwyllt. Yn ogystal, gall awdurdodau lleol gymryd rhan mewn ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd, gan addysgu preswylwyr a'u grymuso i gyfrannu at ymdrechion cadwraeth natur. Mae mynd ati i gymryd rhan fel hyn yn hanfodol er mwyn diogelu treftadaeth naturiol Cymru, gan sicrhau amgylchedd iach a



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

| |
|---|
| chydnerth ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. |

| | |
|---|---|
| **Cymeradwywyd** | Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd |

## Rhagair y Cyfarwyddwr

Mae Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau a gyflwynwyd yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn cynnig cyfeiriad clir ar gyfer gwarchod bioamrywiaeth ac ecosystemau cynaliadwy. Mae hyn yn rhywbeth sydd i'w groesawu. Mae Strategaeth Drawsnewid gyntaf y Cyngor ar gyfer 2022 – 2027 yn cadarnhau'r datganiad o Argyfwng Natur a wnaed ganddo yn 2022 ac o gymorth i'r Awdurdod ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur. Rydym yn deall y cysylltiadau rhwng yr Argyfyngau Natur a Newid Hinsawdd, ac rydym yn deall sut y byddwn wrth hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau yn cyfrannu at addasu i'r hinsawdd. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru Fil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) yn 2025 ynghyd â fframwaith ar gyfer llywodraethu amgylcheddol a fframwaith pennu targedau, sy'n cynnwys gofynion i werthuso, monitro ac adrodd ar gynnydd. Bydd y gwaith y mae'r Cyngor yn ei wneud wrth ystyried dyletswydd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn helpu'r awdurdod i fod yn barod ar gyfer gweithredu'r ddeddfwriaeth hon.

Mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i flaenoriaethu a galluogi camau gweithredu a fydd yn cynnal ac yn gwella'r ecosystemau amrywiol yn Sir Gaerfyrddin, rhai ohonynt yn unigryw, a chamau gweithredu a fydd yn arwain at adferiad natur. Credaf fod yr adolygiad hwn o Flaengynllun Ionawr 2023 – Rhagfyr 2025 y Cyngor yn dangos sut rydym yn gweithio ar y cyd i wreiddio bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau yn ein prosesau gwneud penderfyniadau, ein cynlluniau a pholisïau a'n harferion gwaith o ddydd i ddydd. Dros y 3 blynedd nesaf byddwn yn parhau i ddatblygu'r ffordd hon o weithio a monitro ein cynnydd.



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

| | |
|---|---|
| **Cymeradwywyd** | A. Williams<br><br>Cyfarwyddwr, Lle a Seilwaith |

## 1. Crynodeb Gweithredol

Cyhoeddwyd yr adolygiad hwn i gydymffurfio â chyfrifoldeb cyfreithiol yr Awdurdod o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. O dan Adran 6 y Ddeddf hon rhaid i bob corff cyhoeddus 'geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth gyflawni eu swyddogaethau ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau'. Yr enw ar hyn yw'r Ddyletswydd Adran 6 - Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau.

Er mwyn dangos y cyflawnwyd y ddyletswydd hon, o dan Ddeddf yr Amgylchedd, mae'n ddyletswydd statudol bod rhaid i bob corff cyhoeddus yng Nghymru baratoi a chyhoeddi cynllun ar sut maent yn bwriadu cydymffurfio â'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau.  Mae'r ddeddfwriaeth hefyd yn ei gwneud yn ofynnol eu bod yn gwneud hyn bob 3 blynedd a'u bod yn adolygu'r cynllun ac yn cyhoeddi'r adolygiad hwnnw ar wefan y Cyngor. Cyhoeddodd Cyngor Sir Caerfyrddin ei Flaengynllun Deddf yr Amgylchedd cyntaf yn 2017, a hwn yw'r adolygiad o'n trydydd cynllun 2023-25.

Aeth Sir Gaerfyrddin ati i ddatblygu a chyflawni ei Flaengynllun trwy ofyn i swyddogion ar draws y meysydd gwasanaeth edrych ar eu harferion gwaith, eu cynlluniau a'u prosiectau a nodi/tynnu sylw at ofynion ar gyfer gweithredu o dan y ddyletswydd hon ar yr un pryd â chyflawni eu cyfrifoldebau ac amcanion eraill. Gall y dull hwn weithiau olygu bod angen newid yr hyn sydd ar adegau yn arferion gwaith a ddefnyddiwyd ers tro byd. Gall hyn gymryd amser i'w sefydlu a dod yn arferol. Er bod rhai meysydd gwasanaeth yn ei chael yn gymharol hawdd gwneud y newid hwn, mae'n llawer anoddach i eraill ac mae angen cefnogaeth reolaidd wrth wneud y newidiadau hyn. Gall newidiadau ddigwydd yn hwylus neu weithiau fod yn anghyflawn neu gael eu cwblhau bob yn dipyn ond, gyda chymorth parhaus,

gobeithir y byddant yn cael eu hymgorffori. Mae'n rhan o gymhlethdod yr ystod o swyddogaethau a chyfrifoldebau deddfwriaethol sydd gennym.

Caiff y 43 o gamau gweithredu'r Blaengynllun y cytunwyd arnynt (roedd gennym 29 o gamau gweithredu yn ein Blaengynllun cyntaf), fel y'u nodir isod yn Nhabl 1, eu monitro trwy System Monitro Gwella Perfformiad (PIMS) CSC a cheir adroddiad arnynt gan y swyddog cyfrifol bob chwe mis neu bob blwyddyn. Caiff yr adroddiad hwnnw ei gymeradwyo gan y Pennaeth Gwasanaeth perthnasol. Mae'r Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd a'r Swyddog Bioamrywiaeth yn gyfrifol am fonitro'r gwaith o gyflawni'r cynllun a chynnwys holl swyddogion perthnasol CSC yn y broses hon. Gall fod angen cyswllt rheolaidd rhwng y swyddogion hyn a'r rhai sy'n gyfrifol am bob cam gweithredu unigol i gyflawni'r camau gweithredu. Er bod hyn yn cymryd amser mae'n hanfodol os yw arferion gwaith yn mynd i newid.

## 2. Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Daeth Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn gyfraith ar 21 Mawrth 2016. Mae'n rhoi deddfwriaeth ar waith er mwyn gallu rheoli adnoddau Cymru mewn ffordd fwy rhagweithiol, cynaliadwy a chydlynol ac i sefydlu'r fframwaith deddfwriaethol angenrheidiol ar gyfer mynd i'r afael â newid hinsawdd. Mae'r Ddeddf yn cefnogi cylch gorchwyl ehangach Llywodraeth Cymru o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gweler isod) fel bod Cymru yn elwa ar economi lewyrchus, amgylchedd iachus a gwydn a chymunedau bywiog, cydlynol.

### Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau

Mae Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod cyhoeddus 'geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, i'r graddau y bo hynny'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol.'

Bwriad y ddeddfwriaeth yw sicrhau y bydd awdurdodau cyhoeddus, wrth gyflawni eu swyddogaethau, yn:

- Gwneud bioamrywiaeth yn rhan naturiol ac annatod o waith polisi a gwneud penderfyniadau mewn cyrff cyhoeddus, gan wreiddio hyn mewn cynlluniau, polisïau a phrosiectau a gweithgareddau beunyddiol.
- Mynd i'r afael â'r dirywiad mewn bioamrywiaeth, trwy gamau cadarnhaol fydd yn arwain at ofalu am neu gryfhau ein bioamrywiaeth.
- Datblygu cydnerthedd ecosystemau trwy gynnal a gwella bioamrywiaeth.

### Beth yw ecosystem gydnerth?

Mae ecosystem gydnerth yn un sy'n iach ac sy'n gweithio mewn ffordd sy'n gallu mynd i'r afael â'r pwysau a gofynion a roddir arni, ac sy'n gallu cynnig buddion dros yr hirdymor i ddiwallu'r anghenion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol presennol. Mae ein hecosystemau yn rhoi inni ystod eang o wasanaethau a buddion. Mae angen inni gymryd pob un o'r rhain i ystyriaeth wrth inni wneud penderfyniadau ar sut i'w defnyddio, fel eu bod yn cynnig buddion niferus ar gyfer yr hirdymor. Mae hyn yn cynnwys rhoi ystyriaeth i'w gwerth cynhenid.

## 3. Adnoddau Naturiol Sir Gaerfyrddin

Wrth adrodd ar ei Flaengynllun Deddf yr Amgylchedd mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn deall pwysigrwydd yr amgylchedd naturiol. Mae bioamrywiaeth ac ecosystemau cydnerth yn rhoi inni lawer o'r pethau sy'n cynnal ein bywydau, trwy nifer o wasanaethau pwysig:

- **Darparu** – darparu bwyd (gwenith, pysgod ac ati), tanwydd (coed, glo), dŵr ffres, meddyginiaeth, tecstilau.
- **Rheoleiddio** – gwaredu llygryddion, rheoli llifogydd, amsugno carbon deuocsid (nwyon tŷ gwydr), atal erydiad.
- **Diwylliannol** – tirweddau hardd, ymdeimlad o berthyn, hamdden a thwristiaeth, ysbrydoliaeth ac ymchwilio, o blant ysgol i wyddonwyr.
- **Cefnogi** – gofalu am briddoedd a thwf planhigion.

Mae amgylchedd naturiol iach yn cynnal ein cymdeithas ac yn galluogi ein heconomi i ffynnu. Gall ein hadnoddau a'n hecosystemau helpu i leihau llifogydd, cyflenwi dŵr glân, gwella ansawdd aer a darparu deunyddiau ar gyfer adeiladu. Maent hefyd yn cynnig cartref i fywyd gwyllt o bob math, ac yn rhoi inni dirweddau rydym yn eu ffermio a'u trysori yn Sir Gaerfyrddin, gan wella ein llesiant ac ansawdd

ein bywydau, a nhw yw'r adnodd naturiol y mae ein diwydiant twristiaeth a hamdden datblygol yn seiliedig arno.

Derbynnir er hynny fod yr amgylchedd naturiol o dan bwysau cynyddol am nifer o resymau gwahanol. Mae methu rheoli amgylchedd naturiol yn iawn yn cynyddu'r risgiau hirdymor i'n llesiant, ac yn lleihau gwerth ein hadnoddau naturiol - ein system gynhaliaeth naturiol. Dyna felly'r rhesymwaith dros sefydlu ein Blaengynllun Deddf yr Amgylchedd, sef adolygu ein harferion gwaith, cynlluniau a pholisïau i sicrhau eu bod yn cyfyngu unrhyw effaith negyddol ar yr amgylchedd naturiol a mynd ati o ddifrif i geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau.

## Sut mae ein hadnoddau naturiol yn cefnogi'r saith nod llesiant (o Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol Cyfoeth Naturiol Cymru)

| | |
|---|---|
| ***Cymru lewyrchus*** | Mae adnoddau naturiol yn cynnig cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth a gweithgarwch economaidd. Er enghraifft, mae twristiaeth bywyd gwyllt a gweithgareddau awyr agored i Gymru yn darparu tua 206,000 o swyddi ac amcangyfrifir ei fod yn werth £6.2 biliwn. Yn 2013, bu i 3.5 miliwn a mwy o ymwelwyr â'n harfordir ddod â £602 miliwn i'r economi, a rhagwelir twf o 10%. Mae tri Pharc Cenedlaethol Cymru yn denu 12 miliwn o ymwelwyr bob blwyddyn, a'r rheini'n gwario £1 biliwn ar nwyddau a gwasanaethau. |
| ***Cymru gydnerth*** | Mae bioamrywiaeth, mynyddoedd, gweundiroedd a rhosydd, glaswelltiroedd lled-naturiol, coetiroedd, mannau gwyrdd trefol, afonydd, nentydd, llynnoedd a gwlyptiroedd, yr arfordir ac ecosystemau morol oll yn cyfrannu at gefnogi gallu Cymru i addasu i newid hinsawdd. |
| ***Cymru iachach*** | Mae adnoddau naturiol yn gwneud cyfraniad sylweddol at iechyd corfforol a llesiant meddyliol pobl yng Nghymru. Er enghraifft, mae coed yn helpu i amsugno llygryddion a gwella ansawdd yr aer, sydd yn gallu effeithio ar iechyd pobl os yw'n wael. Mae mynediad at natur a mannau gwyrdd yn cael effeithiau cadarnhaol ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl. |
| ***Cymru sy'n fwy cyfartal*** | Mae mynediad cyfartal i ecosystemau sy'n darparu gwasanaethau diwylliannol yn cyfrannu at gydraddoldeb yng Nghymru. Byddwn yn gweithio tuag at ddarparu mynediad cyfartal i bawb at fuddion llesiant a gynigir gan ecosystemau naturiol. |

| | |
|---|---|
| ***Cymru o gymunedau cydlynus*** | Dangoswyd bod cynnwys cymunedau yn y gwaith o reoli eu parciau a'u coetiroedd lleol yn gwella cydlyniant y gymuned ac yn lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol.<br><br>Rydym wedi dechrau gweithio gyda Chynghorau Tref a Chymuned ar barciau lleol. |
| ***Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu*** | Mae tirweddau wedi chwarae rhan arwyddocaol o ran datblygu arferion diwylliannol unigryw, megis technegau adeiladu lleol yn dibynnu ar ddefnyddiau lleol, ynghyd â chelf a llenyddiaeth leol benodol. |
| ***Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang*** | Mae'r amgylchedd yn cyflenwi ein holl adnoddau materol ond rhaid inni sicrhau mai dim ond ein cyfran deg a ddefnyddir gennym. |

## 3.2 Cynllun Adfer Natur

Lansiodd Llywodraeth Cymru ei **Gynllun Adfer Natur** (NRAP) ei hun, sy'n amlinellu ei ymrwymiad i fioamrywiaeth yng Nghymru, Amcanion y Cynllun Gweithredu Adfer Natur yw:

| | |
|---|---|
| **1** | Sicrhau a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn gwreiddio bioamrywiaeth mewn gwaith gwneud penderfyniadau ar bob lefel. |
| **2** | Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd o'r pwysigrwydd pennaf a gwella'r rheolaeth ohonynt |
| **3** | Cryfhau cydnerthedd ein hamgylchedd naturiol trwy adfer cynefinoedd wedi dirywio a chreu cynefinoedd newydd. |
| **4** | Mynd i'r afael â'r pwysau trymaf ar rywogaethau a chynefinoedd |
| **5** | Gwella'n tystiolaeth, dealltwriaeth a monitro |
| **6** | Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth i gyflwyno ar waith |

Yn Sir Gaerfyrddin roedd **Cynllun Adfer Natur Lleol** wedi cael ei ddatblygu yn 2020 yn seiliedig ar amcanion y cynllun cenedlaethol a lluniwyd adroddiad **Sefyllfa Byd Natur** yn 2024.

## 4. Cyd-destun strategol

### 4.1 Cynlluniau a Pholisïau'r Cyngor sy'n cysylltu â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

• Amcanion Llesiant Strategaeth Gorfforaethol Cyngor Sir Caerfyrddin 2022-27: Amcan 3 - Galluogi ein cymunedau a'n hamgylchedd i fod yn iach, yn ddiogel ac yn ffyniannus (Cymunedau Ffyniannus) a'r flaenoriaeth thematig: Datgarboneiddio a'r Argyfwng Natur (gan gynnwys 'mynd i'r afael â'r materion sy'n sbarduno dirywiad yn ein bioamrywiaeth ac yn cefnogi adferiad natur'). Byddai hefyd yn cyfrannu at Gynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer Sir Gaerfyrddin.

• **Datganiad Gweledigaeth Cabinet Cyngor Sir Caerfyrddin 2022–27** sy'n amlinellu man cychwyn uchelgeisiau'r Cyngor dros y 5 mlynedd nesaf hyn. Mae hyn yn cynnwys gweledigaeth i: *Cynyddu bioamrywiaeth yr holl dir sy'n eiddo i'r Cyngor, a chydnabod y gydberthynas gref rhwng newid hinsawdd, colli bioamrywiaeth a llesiant pobl. Ystyried defnyddio tir Cyngor Sir Caerfyrddin i greu cynefinoedd blodau gwyllt a phryfed peillio, gan gynnwys ochrau ac ymylon ffyrdd. Ni allwn ddatrys bygythiadau newid hinsawdd o achos gweithgarwch dynol a cholli bioamrywiaeth ar y llaw arall.* Rydym naill ai'n datrys y ddau beth neu ddim un ohonynt.

• Datganiad gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Sir Caerfyrddin o **Argyfwng Hinsawdd a Natur**, a'r rôl sydd gan ein cynefinoedd wrth liniaru newid yn yr hinsawdd a darparu cyfleoedd ar gyfer Adfer Natur.

• Bydd yn cyfrannu at **Strategaeth Trawsnewid y Cyngor 2022-27** a bydd yn fecanwaith i weithredu rhaglen i gyflawni'r newid i Sero Net erbyn 2030

## 5. Blaengynllun – gweithredoedd a gyflawnwyd

### 5.1 Sut y datblygwyd ac yr adroddwyd ar y cynllun gweithredu

**Adnabod camau gweithredu is-adrannol**

Datblygwyd y trydydd Blaengynllun hwn gan y cyngor ac ar ei gyfer, gan ddatblygu'r cynlluniau blaenorol, dysgu o'r profiad hwnnw, a thrafod â Phenaethiaid Gwasanaeth a chydweithwyr mewn ystod o is-adrannau. Yna cafodd y camau gweithredu a nodwyd eu cymeradwyo gan y Pennaeth Gwasanaeth a thimau perthnasol. Pwysleisiwyd bod rhaid i'r camau gweithredu hyn ddod o'r timau yn hytrach na chael eu gorfodi arnynt - bernir bod hyn yn hanfodol er mwyn gwreiddio arferion gwaith newydd.

Yna cafodd pob cam gweithredu y cytunwyd arno ei ychwanegu at System Gwella Monitro Perfformiad (PIMS) y Cyngor gyda'r bwriad o'u hintegreiddio gyda Chynlluniau Busnes Is-adrannol yn ôl y galw. Trwy ddefnyddio'r System Monitro



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

Perfformiad a Gwella (PIMS) adroddir ar y gweithredoedd hyn bob 6 mis ym Mehefin a Rhagfyr bob blwyddyn, a chaiff yr adroddiad diweddaru ei gymeradwyo gan y Pennaeth Gwasanaeth perthnasol. Cylch adrodd Ionawr PIMS ar y gweithredoedd Deddf yr Amgylchedd PIMS hyn yw sail yr adroddiad blynyddol i Bwyllgor Craffu yr Amgylchedd a Diogelu'r Cyhoedd y Cyngor ar ddechrau Gorffennaf bob blwyddyn. Mae'r cynllun gweithredu yn ddogfen fyw. Caiff gweithredoedd eu hadolygu a'u diwygio yn ôl y galw gyda'r swyddogion sy'n gyfrifol amdanynt. Gellir ychwanegu camau gweithredu newydd wrth i drafodaethau gael eu cynnal gydag is-adrannau eraill perthnasol yn y Cyngor.

Defnyddiwyd cylch adrodd Mehefin 2025 ar gyfer camau gweithredu PIMS Deddf yr Amgylchedd y Cyngor wrth baratoi'r adroddiad terfynol hwn.

Credwn fod y drefn a ddefnyddiwyd wrth gyflawni Blaengynllun Deddf yr Amgylchedd y Cyngor yn arddangos y ffyrdd canlynol o weithio fel y cyfeirir atynt yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

| | |
|---|---|
| Meddwl am y tymor hir fel nad ydym yn peryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwy eu hunain | Buom yn edrych ar wasanaethau ac arferion gwaith y Cyngor – ein gwaith craidd, a bydd y newidiadau a wnawn i'r arferion hyn yn cynnig buddion hirdymor |
| Deall achosion sylfaenol y materion i'w **hatal** rhag ailddigwydd | Rydym wedi datblygu ein gweithredoedd Deddf yr Amgylchedd gyda'r timau cyflawni cyfrifol, gan sicrhau y gellir integreiddio'r gweithredoedd a nodir mewn arferion gwaith, a chyda pholisïau a chynlluniau eraill |
| Gweithio mewn ffordd **integredig** fel ein bod yn edrych ar holl nodau ac amcanion llesiant gwasanaethau a phartneriaid eraill | Rydym wedi arddangos dull cydweithredol trwy weithio gyda'r sawl sy'n gyfrifol am wneud newidiadau i arferion gwaith |
| **Cydweithio** – gweithio gydag eraill mewn ffordd gydweithredol i ddod o hyd i ddatrysiadau cynaliadwy ar y cyd | |

## 5.2 TABL 1 Camau Gweithredu Blaengynllun Deddf yr Amgylchedd Cyngor Sir Caerfyrddin a ddatblygwyd ac yr adroddwyd arnynt:

### Amcanion y Cynllun Gweithredu Adfer Natur

- Amcan 1: Ymgysylltu a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth **i ymgorffori bioamrywiaeth ar hyd y broses gwneud penderfyniadau ar bob lefel**
- Amcan 2: **Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd** o'r pwysigrwydd pennaf a gwella'r rheolaeth ohonynt
- Amcan 3: **Cryfhau cydnerthedd ein hamgylchedd naturiol** trwy adfer cynefinoedd wedi dirywio a chreu cynefinoedd newydd.
- Amcan 4: **Mynd i'r afael â'r pwysau trymaf** ar rywogaethau a chynefinoedd
- Amcan 5: Gwella'n **tystiolaeth, dealltwriaeth a monitro**
- Amcan 6: Rhoi fframwaith **llywodraethu a chymorth** i gyflwyno ar waith.

| Rhif PIMS | Disgrifiad o'r Cam Gweithredu | Amcan(ion) y Cynllun Gweithredu Adfer Natur a gyflawnwyd | Crynodeb o'r Camau Gweithredu a gyflawnwyd 2023-25 |
|---|---|---|---|
| | **IS-ADRAN YR AMGYLCHEDD NATURIOL A CHYNALIADWYEDD** | | |
| 18034 | Bwrw ymlaen â mabwysiadu a chyflawni Strategaeth Coed a Choetir CSC. Adrodd ar gyfanswm nifer y camau gweithredu a roddwyd ar waith bob 6 mis. | 1, 6 | Mabwysiadwyd y Strategaeth Coed a Choetir gan y Cabinet ym mis Rhagfyr 2024.<br>Mae'r strategaeth hon yn nodi sut a pham y bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn rheoli'r coed a choetir y mae'n gyfrifol amdanynt. Mae hefyd yn nodi sut a pham y bydd CSC yn sicrhau ei fod yn plannu mwy o goed a mwy o goetir mewn mannau priodol, am y rhesymau cywir. Wrth gyflawni'r strategaeth bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn chwarae ei ran wrth liniaru'r Argyfyngau Natur a Newid |

<table>
<tr><th>Rhif PIMS</th><th>Disgrifiad o'r Cam Gweithredu</th><th>Amcan(ion) y Cynllun Gweithredu Adfer Natur a gyflawnwyd</th><th>Crynodeb o'r Camau Gweithredu a gyflawnwyd 2023-25</th></tr>
<tr><td></td><td>Adroddir ar gamau gweithredu unigol yn y System Monitro Perfformiad a Gwella fel rhan o'r gwaith o fonitro'r Strategaeth Coed a Choetir.</td><td></td><td>Hinsawdd a ddatganwyd ganddo a Llywodraeth Cymru. Bydd cyflawni'r strategaeth arfaethedig yn llwyddiannus hefyd yn gwireddu'r buddion niferus eraill a ddaw yn sgil coed a choetir.<br><br>Mae'r canlynol wedi'u plannu yng nghyfnod y Blaengynllun:<br>
<table>
<tr><th></th><th>Hectarau</th><th># coed</th><th></th></tr>
<tr><td>2022/23</td><td>5.4</td><td>8680</td><td>Creu coetir ar amrywiaeth o safleoedd sy'n eiddo i'r Cyngor ledled y sir</td></tr>
<tr><td>2023/24</td><td>0.69</td><td>1100</td><td>Creu coetir ar amrywiaeth o safleoedd sy'n eiddo i'r Cyngor ledled y sir</td></tr>
<tr><td>2024/25</td><td>10.89</td><td>12200</td><td>Creu coetir ar amrywiaeth o safleoedd sy'n eiddo i'r Cyngor ledled y sir</td></tr>
</table></td></tr>
<tr><td>18035</td><td>Fel partner ym Mhartneriaeth Natur Sir Gâr, cyhoeddi crynodeb o Adroddiad Sefyllfa Byd Natur Sir Gâr ar wefan CSC.</td><td>1,5</td><td>• Mae'r crynodeb o Adroddiad Sefyllfa Byd Natur Sir Gâr, a baratowyd gan Bartneriaeth Natur Sir Gâr, bellach ar dudalennau bioamrywiaeth gwefan CSC: https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/gweithredu-dros-yr-hinsawdd-sir-gar/bioamrywiaeth/sefyllfa-byd-natur-yn-sir-gaerfyrddin/<br>• Mae'r ddogfen lawn i'w gweld ar wefan Partneriaeth Natur Sir Gâr Canolfan Gwybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru<br>• Mae'n seiliedig ar ddata/gwybodaeth o ystod o ffynonellau/arbenigedd ac mae'n rhoi trosolwg</td></tr>
</table>

| Rhif PIMS | Disgrifiad o'r Cam Gweithredu | Amcan(ion) y Cynllun Gweithredu Adfer Natur a gyflawnwyd | Crynodeb o'r Camau Gweithredu a gyflawnwyd 2023-25 |
|---|---|---|---|
| | | | o'r prif benawdau ac argymhellion ar gyfer ein cynefinoedd a'n rhywogaethau blaenoriaeth a geir yn Sir Gaerfyrddin a'r bygythiadau sy'n eu hwynebu. |
| 18036 | Adroddiad ar gamau gweithredu a gyflawnwyd gan CSC, ac mewn partneriaeth ag eraill, a fydd yn darparu adferiad natur a thystiolaeth o ymateb CSC i'r Argyfwng Natur | 1,6 | Dyma'r adroddiad ar Flaengynllun Deddf yr Amgylchedd 2023-2025 CSC a bydd hwn yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd 2025/dechrau 2026. Y  cynllun nesaf: Bydd Blaengynllun Deddf yr Amgylchedd 2026-28 CSC yn cael ei gynhyrchu yn 2025 i'w fabwysiadu gan CSC. |
| 18037 | Bwrw ymlaen â mabwysiadu ac adrodd ynghylch cyflawni Strategaeth CSC ar gyfer Rheoli Glaswelltir i Bryfed Peillio | 1, 5, 6 | Cafodd Strategaeth CSC ar gyfer Rheoli Glaswelltir i Bryfed Peillio 2024-29 ei chyflwyno i Rag-gyfarfod y Cabinet a'r Cabinet a'i chefnogi ganddynt yn 2024. Mae hefyd wedi cael ei chefnogi gan Gabinet yr Wrthblaid. Felly mae'r gwaith o fabwysiadu'r cynllun wedi'i gwblhau.<br><br>Mae grant Lleoedd Lleol ar gyfer Natur Llywodraeth Cymru wedi galluogi CSC i brynu peiriannau ychwanegol y mae eu hangen i ddarparu'r rheolaeth angenrheidiol. Yn gyfan gwbl, mae gan y gwasanaeth Tiroedd dri pheiriant torri a chasglu Grillo, dau drelar, peiriant torri a chasglu Weidemann i'w roi y tu ôl i dractor a pheiriannau torri gwair trydan i gynyddu'r hyblygrwydd o ran y ffordd y gallant weithio dros ystâd y cyngor.<br><br>Mae Cytundebau Lefel Gwasanaeth bellach yn cynnwys yr opsiynau 'bioamrywiaeth' fel y'u disgrifir yn y Strategaeth Rheoli Glaswelltir a bydd y gwasanaeth Tiroedd yn gallu creu cynlluniau rheoli glaswelltir manwl ar gyfer safleoedd, gan allu cymharu rhwng gwahanol dechnegau rheoli pan fydd |

| Rhif PIMS | Disgrifiad o'r Cam Gweithredu | Amcan(ion) y Cynllun Gweithredu Adfer Natur a gyflawnwyd | Crynodeb o'r Camau Gweithredu a gyflawnwyd 2023-25 |
|---|---|---|---|
| | | | system fapio newydd, sef Alloy, ar waith.<br><br>Mae Cwestiynau Cyffredin wedi'u paratoi ac maent ar y dudalen Pryfed Peillio ar wefan CSC<br><br>Mae cynllun monitro syml wedi'i ddyfeisio gan y Swyddog Bioamrywiaeth yn Un Llais Cymru i'w ddefnyddio gan swyddogion/y cyhoedd/y gymuned a chafodd y cynllun ei dreialu yn 2025. |
| 18038 | Parhau i fwrw ymlaen â phrosiect britheg y gors Caeau'r Mynydd Mawr CSC yn ardal Cross Hands | 1,2,3, 6 | Mae Prosiect Britheg y Gors Caeau'r Mynydd Mawr yn parhau i ddarparu gwelliannau i fioamrywiaeth sy'n cefnogi poblogaeth britheg y gors yn ardal y prosiect, gan weithio mewn partneriaeth ag eraill – gan gynnwys CNC, Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru, Gwarchod Glöynnod Byw a thirfeddianwyr a phorwyr preifat.<br><br>Bydd ardal y prosiect yn cael ei chynyddu o dan y Cynllun Datblygu Lleol newydd (2018-2033), er mwyn galluogi'r gwaith datblygu i barhau i fynd rhagddo yn ardal twf Cross Hands. Trwy'r system gynllunio bydd ystyriaeth barhaus yn cael ei rhoi i effaith cynigion datblygu ar nodweddion britheg y gors Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Caeau'r Mynydd Mawr, a'r ffaith bod angen sefydlu strategaeth reoli i wneud iawn am unrhyw effaith ar hyn a sicrhau bod cynefin a ddefnyddir gan fetaboblogaeth iâr fach yr haf britheg y gors yn ACA Caeau'r Mynydd Mawr yn cael ei reoli yn awr ac yn y dyfodol.<br><br>Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019. |

| Rhif PIMS | Disgrifiad o'r Cam Gweithredu | Amcan(ion) y Cynllun Gweithredu Adfer Natur a gyflawnwyd | Crynodeb o'r Camau Gweithredu a gyflawnwyd 2023-25 |
|---|---|---|---|
| | | | Ar hyn o bryd, mae 23 safle gyda 44ha o gynefin mewn cyflwr addas ar gyfer y glöyn byw. |
| 18039 | Pan fydd cyfleoedd yn codi, dylid sicrhau cyfraniadau Adran 106 gan ddatblygwyr i ddarparu budd net i fioamrywiaeth oddi ar y safle ar dir a reolir gan CSC | 1,3 | Rydym yn parhau i sicrhau cyfraniadau Adran 106 ar gyfer yr holl ddatblygiadau y gellir codi tâl arnynt o fewn ardal Prosiect Caeau'r Mynydd Mawr (gweler cam gweithredu 18038) ac yn chwilio am gyfleoedd eraill i ddarparu Adran 106 mewn perthynas â cheisiadau cynllunio eraill lle mae cyfleoedd addas.<br><br>Ar ddiwedd 2025 mae pum Adran 106 wedi'u llofnodi sy'n anelu at ddarparu budd net i fioamrywiaeth oddi ar y safle ar dir a reolir gan CSC (gweler yr astudiaeth achos sy'n cyd-fynd â'r adroddiad hwn). Mae cynlluniau gweithredu'n cael eu hysgrifennu i ddatblygu cytundebau gyda datblygwyr.<br><br>Manteision a gyflawnwyd: cynnal a gwella cynefinoedd glaswelltir, coetir a thir llwyd a pharthau afonol. |
| 18040 | Ceisio cyllid a pharhau i gyflawni Prosiect Corsydd Sir Gaerfyrddin | 2 | Mae'r ffocws yma ar safleoedd prosiect [ardaloedd o dir comin 'Adran 45' (heb berchennog hysbys)] sy'n ardaloedd o gyforgorsydd yr iseldir (a nodwyd gan CNC). Ar gyfer Adran 45 tiroedd comin mae Deddf Tiroedd Comin 2006 yn rhoi pwerau i awdurdod lleol ddiogelu tir sydd wedi'i gofrestru fel tir comin a lle gellid gweithredu yn y modd mwyaf buddiol i'r safle a gweithio mewn partneriaeth ag eraill.<br><br>Mae angen cyllid allanol i gyflawni ymyriadau rheoli angenrheidiol ac mae cyllid Llywodraeth |

| Rhif PIMS | Disgrifiad o'r Cam Gweithredu | Amcan(ion) y Cynllun Gweithredu Adfer Natur a gyflawnwyd | Crynodeb o'r Camau Gweithredu a gyflawnwyd 2023-25 |
|---|---|---|---|
| | | | Cymru (Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant a Lleoedd Lleol ar gyfer Natur) wedi'i ddefnyddio i greu strimynnau atal tân a byndiau cyfuchlinol i gadw dŵr yn y gors a lleihau'r risg tân.<br><br>Yn 2025, mae swyddogion CSC wedi cwrdd â swyddog CNC o Brosiect Gweithredu Cymru ar gyfer Mawnogydd ar y safle yng nghomin y Figyn i asesu'r gwaith adfer a wnaed a thrafod y camau gweithredu yn y dyfodol. Yn seiliedig ar y canllawiau disgwyliedig gan CNC, ceisir cyllid i ymgymryd â chamau gweithredu pellach.<br><br>Mae llosgi anghyfreithlon yn dal i fod yn broblem ar un safle. |
| 18041 | Prosiect Llygod Pengrwn y Dŵr Llanelli: Comisiynu arolwg llygod pengrwn y dŵr i lywio'r gwaith o reoli llygod pengrwn y dŵr yn ardal y prosiect yn y dyfodol a bwrw ymlaen ag argymhellion wedi'u costio | 2,3 | Mae CSC yn berchen ar safleoedd yn Llanelli sydd â phoblogaethau o lygod pengrwn sydd mewn perygl ac sy'n rhywogaeth warchodedig sy'n cael blaenoriaeth yng Nghymru. Y prif fygythiadau i'r rhywogaeth hon yw colli cynefin addas (gan gynnwys trwy ddatblygu tai a seilwaith).<br><br>Comisiynwyd a chwblhawyd arolwg ym mis Mehefin 2024 ar safleoedd allweddol yn Llanelli. Yn seiliedig ar y rhain, ceisir cyllid i ymgymryd â'r camau gweithredu a argymhellwyd (gan gynnwys gwella mynediad ar gyfer arolygu/rheoli parhaus ar un safle nad oes modd ei gyrraedd ar hyn o bryd i'r gogledd o Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir) fel y gellir llunio cynlluniau wedi'u costio.<br><br>Mae CSC yn defnyddio cyllid Adran 106 i reoli ffosydd ar safle ym Machynys lle roedd datblygiad Tai Persimmon wedi effeithio ar gynefin llygod pengrwn y dŵr ac mae swyddogion wedi cwrdd â Chwrs Golff Machynys a rhoi cyngor ynghylch rheoli'r ffosydd ar y cwrs ar gyfer llygod pengrwn y |

| Rhif PIMS | Disgrifiad o'r Cam Gweithredu | Amcan(ion) y Cynllun Gweithredu Adfer Natur a gyflawnwyd | Crynodeb o'r Camau Gweithredu a gyflawnwyd 2023-25 |
|---|---|---|---|
| | | | dŵr.<br><br>Argymhellir dull partneriaeth barhaus i edrych ar reoli cynefinoedd llygod pengrwn y dŵr yn yr ardal ehangach – gydag Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru, Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir, CNC, Cwrs Golff Machynys. |
| 18042 | Darparu hyfforddiant i Aelodau Etholedig a swyddogion ynghylch Gwella Bioamrywiaeth, Clefyd Coed Ynn, yr Argyfwng Natur ac ati. | 1 | Mae hyfforddiant wedi dod yn rhan bwysig o ymgorffori dyletswydd a gofynion cyfreithiol ecolegol Adran 6 Deddf yr Amgylchedd ar draws swyddogaethau'r cyngor. Bydd yn parhau i gael ei ddatblygu fel cam gweithredu sy'n flaenoriaeth ym Mlaengynllun 2026-28.<br><br>Cynhaliwyd sesiynau hyfforddi amrywiol (ffurfiol ac anffurfiol) yn ystod cyfnod y cynllun:<br><br>**Ebrill 2023** - Aeth cymysgedd o 53 o swyddogion, asiantiaid a datblygwyr i sesiwn hyfforddi SDCau seiliedig ar natur a gynhaliwyd gan Robert Bray Associates ac a ariennir gan grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant Llywodraeth Cymru CSC.<br><br>**Mai 2023** - Aeth Pwyllgor Craffu Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd i sesiwn wybodaeth ar Gynllun Strategol drafft CSC ar y pryd ar gyfer rheoli ein Glaswelltir ar gyfer Pryfed Peillio<br><br>**Ebrill 2023** - Cwblhaodd y Pwyllgor Cynllunio hyfforddiant ynghylch darparu budd net i fioamrywiaeth.<br><br>**Ionawr a Mawrth 2024** - Cyflwynwyd hyfforddiant pellach i staff Cynnal a Chadw Tai ynghylch |

| Rhif PIMS | Disgrifiad o'r Cam Gweithredu | Amcan(ion) y Cynllun Gweithredu Adfer Natur a gyflawnwyd | Crynodeb o'r Camau Gweithredu a gyflawnwyd 2023-25 |
|---|---|---|---|
| | | | Rhywogaethau a Warchodir.<br><br>**Mawrth 2025:** Mae pedair sesiwn hyfforddi arall wedi'u trefnu a'u darparu i swyddogion. Mae hyfforddiant pellach ar gyfer aelodau etholedig hefyd wedi'i ddarparu. |
| 18043 | Parhau i ddarparu cymorth ysgrifenyddol a hwyluso tri chyfarfod bob blwyddyn ar gyfer Partneriaeth Natur Sir Gâr (CNP) | 1, 6 | Rhan o rôl swyddog bioamrywiaeth CSC yw hwyluso a chefnogi Partneriaeth Natur Sir Gâr (CNP). Bellach mae gan y Bartneriaeth dros 25 o sefydliadau, sy'n gwneud gwaith cadwraeth (fel rhan o'u swyddogaethau yn gyfan gwbl neu'n rhannol) yn y sir.<br><br>Mae'r bartneriaeth yn cyfarfod dair gwaith y flwyddyn, naill ai wyneb yn wyneb neu ar ymweliad safle blynyddol. Fformat arferol y cyfarfodydd yw cyflwyniadau/trafodaeth/y diweddaraf gan bartneriaid/ymweliad safle. Dyma'r unig ffordd y gall sefydliadau sy'n gweithio ar lawr gwlad yn Sir Gaerfyrddin gwrdd a rhannu gwybodaeth a phrofiad.<br><br>Mae'r cyfarfodydd yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan y Bartneriaeth.<br><br>Mae'r swyddog Bioamrywiaeth yn anfon negeseuon e-bost wythnosol ynghylch Eitemau o Ddiddordeb, ac yn llunio Nodiadau Natur bob 3 mis ynghyd ag adroddiad blynyddol i dynnu sylw at rywfaint o'r gwaith y mae'r Partneriaid yn ei wneud.<br><br>Mae'r Swyddog Bioamrywiaeth a'r Swyddog Lleoedd Lleol ar gyfer Natur yn mynd i gyfarfod Partneriaeth Natur Leol Cymru bob pythefnos ac yn rhannu gwybodaeth berthnasol a defnyddiol â |

| Rhif PIMS | Disgrifiad o'r Cam Gweithredu | Amcan(ion) y Cynllun Gweithredu Adfer Natur a gyflawnwyd | Crynodeb o'r Camau Gweithredu a gyflawnwyd 2023-25 |
|---|---|---|---|
| | | | phartneriaid ac yn fewnol o fewn y Cyngor. |
| 18044 | Darparu grant Lleoedd Lleol ar gyfer Natur Llywodraeth Cymru yn Sir Gaerfyrddin yn 2024/25 | 2,3,4,5 | Mae'r prosiect Lleoedd Lleol ar gyfer Natur wedi cwblhau'r holl brosiectau a ddyrannwyd ar gyfer 2024-25 ac erbyn hyn mae ganddo Swyddog Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, Matthew Collinson, a fydd yn y swydd tan o leiaf ddiwedd mis Mawrth 2027.<br><br>Mae cyllid cyfalaf Lleoedd Lleol ar gyfer Natur wedi canolbwyntio ar seilwaith gwyrdd, yn ogystal â hyrwyddo perthynas gydymddibynnol â'r amgylchedd naturiol - yn enwedig o fewn cyd-destun trefol.<br>Mae ymdeimlad o le, ymarferoldeb a tharddiad hefyd wedi bod yn nodweddion pwysig o bob safle lle mae prosiect wedi cael ei gynnal.<br><br>Mae'r rownd hon o Leoedd Lleol ar gyfer Natur yn dod i ben ar 31 Mawrth 2025; fodd bynnag, cadarnhawyd bod cyllid newydd wedi'i sicrhau ar gyfer 2025-2027.<br><br>**Gwariant prosiectau 24/25:**<br>**Cyfalaf:** gwariant prosiectau £496,719.95<br>**Refeniw:** Cyllid grant cymunedol a chyflogi swyddogion Lleoedd Lleol ar gyfer Natur £72,000<br>**Refeniw Bioamrywiaeth:** £47,696.80 – cronfa grant i bartneriaid Partneriaeth Natur Sir Gâr<br><br>Cyflawnwyd dros 50 o brosiectau ar bob graddfa - adroddiad cryno ar gael. |

| Rhif PIMS | Disgrifiad o'r Cam Gweithredu | Amcan(ion) y Cynllun Gweithredu Adfer Natur a gyflawnwyd | Crynodeb o'r Camau Gweithredu a gyflawnwyd 2023-25 |
|---|---|---|---|
| | **POLISI STRATEGOL A CHREU LLEOEDD** | | |
| 18045 | Cyhoeddi Canllawiau Cynllunio Atodol wedi'u diweddaru ynghylch Bioamrywiaeth ac Adfer Natur | 1-6 | Fel rhan o'r gwaith o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig (CDLl) ac i gefnogi'r gwaith o baratoi a dehongli ei bolisïau, mae cyfres o Ganllawiau Cynllunio Atodol (CCA) yn destun gwaith paratoi parhaus. Bydd y rhain yn cynnwys Canllawiau Cynllunio Atodol thematig yn ogystal â'r rhai i gefnogi'r gwaith o gyflawni safleoedd fel uwchgynlluniau a briffiau datblygu.<br><br>Dim ond ar ôl i'r CDLl Diwygiedig fod ar waith y gellir mabwysiadu unrhyw Ganllawiau Cynllunio Atodol. Cyn mabwysiadu'r CDLl Diwygiedig, mae gwaith wedi dechrau ar gyfres o Ganllawiau Cynllunio Atodol i'w mabwysiadu ar yr un pryd â'r Cynllun neu'n fuan ar ôl ei fabwysiadu - mae hyn yn cynnwys Canllawiau Cynllunio Atodol ar Fioamrywiaeth a Natur sy'n cael eu cwblhau ar hyn o bryd cyn cyflwyno'r adroddiad i gael eu cymeradwyo, er mwyn ymgynghori arnynt. Nid yw dyddiad ar gyfer cyflwyno adroddiad wedi'i gadarnhau eto.<br><br>Dylid nodi bod Canllawiau Cynllunio Atodol cyfredol ynghylch Natur a Bioamrywiaeth ar waith i gefnogi gweithredu'r CDLl mabwysiedig presennol a fydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus cyn ei fabwysiadu'n ffurfiol. |
| 18046 | Cyhoeddi'r Canllawiau Cynllunio Atodol wedi'u diweddaru a chyflawni Seilwaith Gwyrdd a Glas | 1, 3 | Penodwyd swyddog prosiect (Gwyrddu Sir Gâr: Cydgysylltydd Prosiect) ym mis Tachwedd/Rhagfyr 2023, wedi'i ariannu gan y Grant Ffyniant Gyffredin (SPF). |



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

| Rhif PIMS | Disgrifiad o'r Cam Gweithredu | Amcan(ion) y Cynllun Gweithredu Adfer Natur a gyflawnwyd | Crynodeb o'r Camau Gweithredu a gyflawnwyd 2023-25 |
|---|---|---|---|
| | (GBI) yn ddiogel | | Mae paratoi'r Canllawiau Cynllunio Atodol yn gysylltiedig â rhoi canllawiau strategol a chyflawni Seilwaith Gwyrdd a Glas mewn modd strategol o dan Brosiect Gwyrddu Sir Gâr.<br><br>Bydd cyfleoedd i gyflwyno'r Canllawiau Cynllunio Atodol i gefnogi/llunio polisïau a chynigion cyfredol yn cael eu harchwilio drwy'r prosiect uchod.<br><br>Fel rhan o'r gwaith o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig (CDLl) ac i gefnogi'r gwaith o ymgorffori a dehongli ei bolisïau, mae cyfres o Ganllawiau Cynllunio Atodol (CCA) yn destun gwaith paratoi parhaus. Mae'r rhain yn cynnwys Canllawiau Cynllunio Atodol thematig yn ogystal â'r rhai i gefnogi'r gwaith o gyflawni safleoedd fel uwchgynlluniau a briffiau datblygu. Mae Atodiad 3 o'r CDLl Diwygiedig yn cynnwys rhestr o Ganllawiau Cynllunio Atodol a fydd yn cael eu paratoi, gan gynnwys yr un sy'n ymwneud â Seilwaith Gwyrdd a Glas. Fodd bynnag, dylid nodi nad yw hyn yn hollgynhwysol. Dim ond ar ôl i'r CDLl Diwygiedig fod ar waith y gellir mabwysiadu unrhyw Ganllawiau Cynllunio Atodol.<br><br>Bydd y gwaith o baratoi Canllawiau Cynllunio Atodol yn parhau ac mae ei gyflawni'n gysylltiedig yn uniongyrchol â mabwysiadu'r CDLl Diwygiedig. |
| 18047 | Cyhoeddi uwchgynlluniau ar gyfer safleoedd a ddyrannwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol newydd sy'n nodi'r math a lleoliad y | 1, 3 | Monitro'r gwaith gweithredu yn unol â'r taflwybr ar gyfer cyflawni safle ar ôl mabwysiadu'r CDLl.<br><br>Mae'r Cyngor yn un o lofnodwyr Siarter Creu Lleoedd Cymru ac mae creu lleoedd yn elfen bwysig o'r polisi cynllunio cenedlaethol sydd wedyn wedi'i adlewyrchu yn y CDLl Diwygiedig. Mae |

| Rhif PIMS | Disgrifiad o'r Cam Gweithredu | Amcan(ion) y Cynllun Gweithredu Adfer Natur a gyflawnwyd | Crynodeb o'r Camau Gweithredu a gyflawnwyd 2023-25 |
|---|---|---|---|
| | Seilwaith Gwyrdd a Glas y mae'n rhaid i ddatblygwyr ei ddarparu. | | ystyriaethau mewn perthynas â Chreu Lleoedd yn canolbwyntio ar ystyried datblygu lleoedd unigryw a bywiog yn y dyfodol – mae hyn yn cynnwys hyrwyddo dylunio o ansawdd uchel ac yn cynnwys integreiddio datrysiadau dylunio sy'n ymgorffori adeiladau, trafnidiaeth, mannau cyhoeddus Seilwaith Gwyrdd a Glas sy'n cynnwys tirlunio, SDCau a natur fel rhan o'r cynigion datblygu neu adfywio.<br><br>Fel rhan o'r gwaith o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig (CDLl) ac i gefnogi'r gwaith o integreiddio a dehongli ei bolisïau, gan gynnwys y rheiny sy'n ymwneud â Chreu Lleoedd, mae cyfres o Ganllawiau Cynllunio Atodol (CCA) yn destun gwaith paratoi parhaus. Bydd y rhain yn cynnwys Canllawiau Cynllunio Atodol thematig yn ogystal â'r rhai i gefnogi'r gwaith o gyflawni safleoedd fel uwchgynlluniau a briffiau datblygu.<br><br>Dim ond ar ôl i'r CDLl Diwygiedig fod ar waith y gellir mabwysiadu unrhyw Ganllawiau Cynllunio Atodol. Yn arwain at fabwysiadu'r CDLl Diwygiedig, mae gwaith wedi dechrau ar gyfres o Ganllawiau Cynllunio Atodol i'w mabwysiadu ar yr un pryd â'r Cynllun.<br><br>Mae'r CDLl Diwygiedig yn gwneud darpariaeth benodol drwy Bolisi PSD2: Egwyddorion Uwchgynllunio – Creu Cymdogaethau Cynaliadwy. Ar gyfer cynigion lle mae'r datblygiad yn un ar gyfer 50 o dai neu fwy, mae'r polisi hwn yn gofyn am gyflwyno 'uwchgynllun' cynhwysfawr ac integredig ar gyfer y safle cyfan a hwnnw'n dangos dull cydlynol a chydgysylltiedig o greu cymdogaethau yn unol ag egwyddorion creu lleoedd a dylunio da gan gynnwys Seilwaith Gwyrdd a |

| Rhif PIMS | Disgrifiad o'r Cam Gweithredu | Amcan(ion) y Cynllun Gweithredu Adfer Natur a gyflawnwyd | Crynodeb o'r Camau Gweithredu a gyflawnwyd 2023-25 |
|---|---|---|---|
| | | | Glas.<br><br>Bydd y gofynion ar gyfer yr uwchgynlluniau'n cael eu cefnogi drwy gynnwys y Canllawiau Cynllunio Atodol ar Greu Lleoedd, Seilwaith Gwyrdd a Glas, Mannau Agored ac ati. Lle bo hynny'n briodol, bydd y Cyngor hefyd yn llunio uwchgynlluniau neu friffiau datblygu i gefnogi'r gwaith o gyflawni safleoedd a ddyrennir o fewn y Cynllun – bydd y safleoedd penodol hyn yn cael eu nodi wrth i'r CDLl Diwygiedig gael ei roi ar waith.<br><br>Mae'r cam gweithredu'n gysylltiedig yn uniongyrchol â mabwysiadu a gweithredu'r CDLl Diwygiedig. Yn hyn o beth, mae'r Cynllun yn y cyfnod archwilio ar hyn o bryd ac o ganlyniad nid oes unrhyw uwchgynlluniau o'r fath wedi'u cynhyrchu. |
| 18048 | Datblygu a hyrwyddo'r defnydd o Adran 106 i ddarparu a chynnal Seilwaith Gwyrdd a Glas. Adolygu cyfleoedd ar gyfer cytundebau Adran 106 i ariannu'r gwaith o reoli Gwarchodfeydd Natur Lleol yn y dyfodol | 1, 3, 4 | Mae gweithredu'r cam hwn yn cael ei fonitro yn unol â'r taflwybr ar gyfer cyflawni'r safle ar ôl mabwysiadu'r CDLl.<br><br>Yn unol â'r rheoliadau, gellir ystyried darpariaeth ar gyfer defnyddio rhwymedigaethau cynllunio (Adran 106) i ddarparu a chynnal Seilwaith Gwyrdd a Glas, yn enwedig lle gallai ddarparu budd net i fioamrywiaeth. Mae cyfraniadau o'r fath wedi'u ceisio a'u sicrhau, ac mae'r polisi a'r rheoliadau cyfredol yn gwneud darpariaeth ddigonol ar gyfer defnyddio Adran 106 lle maent yn lliniaru effaith sy'n deillio o ddatblygiad, gan gynnwys cyfrannu at reoli/gwella/creu Gwarchodfeydd Natur Lleol .<br><br>Yn ogystal, ac fel rhan o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig, mae Canllawiau Cynllunio |



Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

| Rhif PIMS | Disgrifiad o'r Cam Gweithredu | Amcan(ion) y Cynllun Gweithredu Adfer Natur a gyflawnwyd | Crynodeb o'r Camau Gweithredu a gyflawnwyd 2023-25 |
|---|---|---|---|
| | | | Atodol newydd mewn perthynas â Rhwymedigaethau Cynllunio wedi'u paratoi a byddant yn cael eu mabwysiadu ar yr un pryd â'r CDLl Diwygiedig.<br><br>Mae Canllawiau Cynllunio Atodol ychwanegol mewn perthynas â Bioamrywiaeth yn cael eu paratoi ar hyn o bryd cyn cyflwyno'r adroddiad i'w gymeradwyo er mwyn ymgynghori ynghylch ei gynnwys. |
| 18049 | Datblygu canllawiau strategol a chyflawni Seilwaith Gwyrdd a Glas | 1, 3 | Penodwyd swyddog prosiect (Gwyrddu Sir Gâr: Cydgysylltydd Prosiect) Tachwedd / Rhagfyr 23, wedi'i ariannu gan y Grant Ffyniant Gyffredin (SPF).<br><br>Rhoddwyd adroddiad ar y Strategaeth Seilwaith Gwyrdd a'r Strategaeth Rhandiroedd a Thyfu Cymunedol i'r Cabinet ar 16 Rhagfyr 2024 ac wedi hynny mae wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus. Mae'r strategaeth yn gosod dull blaengar ar gyfer rôl Seilwaith Gwyrdd a Glas yng nghynllluniau'r Cyngor yn y dyfodol a sut y gellir eu hystyried, eu hymgorffori wrth gadw at ein dyletswydd statudol ond hefyd sut y gall eraill, gan gynnwys cymunedau, gyfrannu at y defnydd o Seilwaith Gwyrdd a Glas i greu lleoedd gwell.<br><br>Mae pecynnau cymorth seilwaith gwyrdd a glas i ddatblygwyr wedi'u paratoi ac maent yn rhan o'r Canllawiau Cynllunio Atodol Seilwaith Gwyrdd a Glas i gefnogi'r gwaith o weithredu'r Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig.<br><br>Ymgynghoriad Cyhoeddus - Strategaeth Seilwaith Gwyrdd a Glas Ddrafft - Cyngor Sir Caerfyrddin |



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

| Rhif PIMS | Disgrifiad o'r Cam Gweithredu | Amcan(ion) y Cynllun Gweithredu Adfer Natur a gyflawnwyd | Crynodeb o'r Camau Gweithredu a gyflawnwyd 2023-25 |
|---|---|---|---|
| | **RHEOLI DATBLYGU A MWYNAU** | | |
| 18050 | Sicrhau bod yr holl gynlluniau datblygu cymeradwy yn gwireddu gwelliannau bioamrywiaeth mewn modd sy'n gyson â pholisi a deddfwriaeth | 1, 6 | Mae'r holl swyddogion yn ymwybodol o'r angen i sicrhau gwelliannau i fioamrywiaeth mewn perthynas â chynigion datblygu. Bydd Rheoli Datblygu yn parhau i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau i sicrhau bod hyn yn cael ei weithredu fel sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth. |
| 18051 | Sicrhau'r adnoddau sydd eu hangen a datblygu system i fonitro cydymffurfiaeth â gofynion datblygiadau cymeradwy o ran bioamrywiaeth, tirwedd a Seilwaith Gwyrdd a Glas. | 1, 5 | Mae gwaith ar y gweill i lunio amodau cynllunio safonol i sicrhau cysondeb o ran dull.<br><br>Bydd datblygu canllawiau atodol ynghylch budd net i fioamrywiaeth i gefnogi'r CDLl yn nodi gofynion i ddatblygwyr adrodd ar agweddau ar y datblygiad yn ystod camau allweddol yn y broses. Bydd y canllawiau'n ystyried opsiynau i ariannu gwaith ar gyfer cynlluniau mwy o faint trwy rwymedigaethau cynllunio.<br><br>Budd Net i Fioamrywiaeth - Cyngor Sir Caerfyrddin |
| 18052 | **Adran Fwynau:** nodi prosiectau adfer mwynau ar draws yr 11 awdurdod lleol y darperir gwasanaeth cynllunio mwynau ar eu cyfer, ac adrodd ynghylch sut | 1, 2,3,5 | Mae enghreifftiau o gamau gweithredu yn cynnwys:<br><br>**Chwarel Torcoed, Sir Gaerfyrddin**: Dechrau 2023 - Plannwyd 445 o goed a llwyni brodorol cymysg.<br><br>Gorffennaf 2023 - Arolwg ecolegol llawn gan gynnwys pathewod, ystlumod a rhywogaethau |


Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

| Rhif PIMS | Disgrifiad o'r Cam Gweithredu | Amcan(ion) y Cynllun Gweithredu Adfer Natur a gyflawnwyd | Crynodeb o'r Camau Gweithredu a gyflawnwyd 2023-25 |
|---|---|---|---|
| | mae'r prosiectau hyn yn darparu budd net i fioamrywiaeth, a sut mae hyn yn cael ei fonitro a sut yr adroddir ynghylch hyn. | | gwarchodedig eraill.<br><br>Hydref 2023 - Gosodwyd 1000 o diwbiau pathewod i fonitro gweithgarwch.<br><br>**Mawrth 2025 -** Mae adroddiad ôl-ofal **Glo Brig Selar** (ôl-ofal blwyddyn 4) bellach wedi'i gwblhau ac mae mesurau ar gyfer y flwyddyn nesaf o ran ôl-ofal wedi bod yn destun adroddiad ac mae'r rhain wedi'u hanfon at y tirfeddiannwr. Bydd y gwaith o weithredu'r mesurau hyn yn cael ei fonitro dros y cyfnod ôl-ofal sy'n weddill (gydag ecolegydd CNPT) - mae 2 flynedd o ôl-ofal ar ôl mewn ardaloedd plannu coed, ac 1 flwyddyn mewn ardaloedd eraill |
| 18053 | CSC yn bwrw ymlaen â mabwysiadu'r protocol mawn a ddatblygwyd gan Adran Fwynau CSC ar gyfer rheoli mawn ar safleoedd mwynau a datblygu a chodi ymwybyddiaeth o hyn. | 1, 3, 6 | Mae'r protocol mawn wedi'i ddosbarthu ymhlith grŵp Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Mwynau a Gwastraff - ond nid yw wedi'i fabwysiadu gan CSC eto. Mae angen ei drafod â thimau bioamrywiaeth mewnol gyda'r bwriad o'i fabwysiadu fel canllawiau.<br><br>Bydd y canllawiau arfaethedig yn cael eu diweddaru i adlewyrchu'r Polisi Cynllunio Cymru newydd. |
| | **CYNNAL A CHADW TIROEDD A GLANHAU** | | |
| 18054 | Adolygu Cytundebau Lefel Gwasanaeth gyda chleientiaid | 1, 3, 5, 6 | Mae CSC wedi defnyddio grant Lleoedd Lleol ar gyfer Natur Llywodraeth Cymru i brynu peiriannau ychwanegol sy'n caniatáu ar gyfer cyflawni ystod o ofynion rheoli y cytunwyd arnynt o dan |

| Rhif PIMS | Disgrifiad o'r Cam Gweithredu | Amcan(ion) y Cynllun Gweithredu Adfer Natur a gyflawnwyd | Crynodeb o'r Camau Gweithredu a gyflawnwyd 2023-25 |
|---|---|---|---|
| | Cynnal a Chadw Tiroedd a darparu trefniadau torri glaswellt sy'n denu pryfed peillio ar draws ystâd CSC | | Gytundebau Lefel Gwasanaeth.  Bellach, mae gan y gwasanaeth Tiroedd dri pheiriant torri a chasglu Grillo 'ride on', dau drelar, peiriant torri a chasglu Weidemann sy'n cael ei dynnu y tu ôl i dractor a pheiriannau torri glaswellt trydan yn gyfan gwbl. Mae'r rhain i gyd yn cynyddu'r hyblygrwydd yn y ffordd y gall y gwasanaeth Tiroedd ddarparu rheoli cadarnhaol ar gyfer bioamrywiaeth ar draws ystâd y cyngor.<br><br>Mae'r gwasanaeth Tiroedd yn y broses o adolygu Cytundebau Lefel Gwasanaeth gyda chleientiaid, gan gynnwys Tai, eu cleientiaid mwyaf ac adolygu trefniadau compostio.<br><br>Mae'r Tendr Rheoli Tirwedd diwygiedig bellach yn cynnwys opsiynau 'bioamrywiaeth' o dan amserlen newydd o gyfraddau.<br><br>Bydd manylion y Cytundebau Lefel Gwasanaeth diwygiedig yn cael eu hintegreiddio ar systemau meddalwedd adrannol i ganiatáu i'r fethodoleg hon o bennu costau gael ei defnyddio ar bob Cytundeb Lefel Gwasanaeth.<br><br>Ar ôl cwblhau Cytundeb Lefel Gwasanaeth Tai, cynigir cyflwyno'r egwyddorion rheoli glaswelltir diwygiedig i lywio Cytundebau Lefel Gwasanaeth Ysgolion fel ail gam gyda'r bwriad o gwblhau'r holl Gytundebau Lefel Gwasanaeth gan gynnwys Bioamrywiaeth erbyn Ebrill 2026.<br><br>Mae'r adolygiad o'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda'r gwasanaeth Tai wedi mynd law yn llaw â gweithredu'r meddalwedd Trawsnewid Digidol i'w defnyddio gan y gwasanaeth Tiroedd, sy'n |

| Rhif PIMS | Disgrifiad o'r Cam Gweithredu | Amcan(ion) y Cynllun Gweithredu Adfer Natur a gyflawnwyd | Crynodeb o'r Camau Gweithredu a gyflawnwyd 2023-25 |
|---|---|---|---|
| | | | caniatáu i'r holl fathau o reoli gael eu dangos a'u costio ar y system.<br><br>Cyfanswm arwynebedd (ha) tir CSC a reolir naill ai gyda thoriadau neithdar neu ddôl: oddeutu 70 o safleoedd / oddeutu 9ha |
| 18055 | Gweithio gyda chleientiaid Cynnal a Chadw Tiroedd e.e. Tai, Addysg, Eiddo i nodi a chynnig ardaloedd sy'n addas ar gyfer plannu coed yn unol â Strategaeth Coed a Choetir CSC. Gweithio gyda'r is-adran Amgylchedd Naturiol a Chynaliadwyedd i fwrw ymlaen â phlannu coed a chytuno ar ofynion cynnal a chadw safonol. | 1, 2, | Mae'r is-adran Amgylchedd Naturiol a Chynaliadwyedd wedi gorfod arwain ar y cam gweithredu hwn, gan weithio'n fewnol gydag is-adrannau eraill CSC.<br><br>Mae cyllid Lleoedd Lleol ar gyfer Natur Llywodraeth Cymru wedi caniatáu i brosiectau plannu coed/perllannau gael eu cynnal a'u cyflawni:<br><br>• yn ystod gaeaf 22/23 plannwyd coed ar dir Tai CSC ym Mhencader, ar dir Addysg yn hen ysgol Neuadd y Gwendraeth ac mewn Canolfannau Gofal Dydd i Oedolion yng Nghaerfyrddin, Rhydaman a Llanelli.<br><br>• yn ystod gaeaf 23/24 plannwyd coed ar dir CSC yn Nhre Ioan, Clos Sant Paul/Stryd Anne, Tyisha, Bro Myrddin, Caerfyrddin<br><br>Yn ogystal, mae'r swyddog Diogelwch Coed hefyd yn ceisio sicrhau bod coed newydd yn cael eu plannu yn lle'r holl goed sy'n cael eu gwaredu am resymau diogelwch. |
| | **EIDDO** | | |

| Rhif PIMS | Disgrifiad o'r Cam Gweithredu | Amcan(ion) y Cynllun Gweithredu Adfer Natur a gyflawnwyd | Crynodeb o'r Camau Gweithredu a gyflawnwyd 2023-25 |
|---|---|---|---|
| 18056 | Cydweithio i sicrhau y bydd pob prosiect newydd CSC o'r cam cysyniadol yn darparu budd net i fioamrywiaeth a Seilwaith Gwyrdd a Glas. Myfyrio mewn briffiau ar gyfer ymgynghorwyr a chontractwyr. Sicrhau bod y gofynion hyn yn cael eu cyflawni, bod gofynion cynnal a chadw hirdymor wedi'u datrys ac y cytunir ar ddatrysiadau cyllido | 1, 2, 3 | Mae'r gwaith yn parhau i sicrhau bod yr holl friffiau a manylebau dylunio a wnaed gan Ddylunio Eiddo yn adlewyrchu'r gofynion ar gyfer Seilwaith Gwyrdd a Glas gan ddeall yn well yr effaith ar gostau'r cynllun. |
| 18057 | Fel rhan o raglen gwaredu asedau CSC, cyn cynnig safleoedd i'w gwerthu, ymgynghori â'r is-adran Amgylchedd Naturiol a Chynaliadwyedd ynghylch cyfleoedd ar gyfer bioamrywiaeth | 1 | Mae'r Rhaglen Derbyn Cyfalaf yn cael ei dosbarthu i'r gwasanaeth Cadwraeth ac yn cael ei hystyried fel rhan o'r Grŵp Defnydd Tir ar gyfer opsiynau defnydd amgen. |
| 18058 | Gyda'r is-adran Amgylchedd Naturiol a Chynaliadwyedd, | 1, 2 | Mae gwaith yn mynd rhagddo ym Mremenda Uchaf, Llanarthne i gyflwyno ac ymchwilio i arferion ffermio mwy cynaliadwy ar y fferm hon sy'n eiddo i CSC. |



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

| Rhif PIMS | Disgrifiad o'r Cam Gweithredu | Amcan(ion) y Cynllun Gweithredu Adfer Natur a gyflawnwyd | Crynodeb o'r Camau Gweithredu a gyflawnwyd 2023-25 |
|---|---|---|---|
| | adolygu'r cytundebau tenantiaeth ar ffermydd CSC, fel y bo'n briodol, i hyrwyddo cyfleoedd a thechnegau ffermio sy'n ystyriol o natur, a gwella bioamrywiaeth ar ffermydd CSC. | | Gan weithio mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru, yn 2023/24 cwblhawyd adroddiadau Seilwaith Closydd Fferm ar gyfer pedair fferm yn Llanarthne. Bydd yr adroddiadau hyn yn rhoi cyngor ynghylch sut y bydd rheoli dŵr ar glos fferm yn cael ei wella.<br>Mae Swyddog Coetir CSC wedi adolygu cyfleoedd plannu coed ar nifer o ffermydd a osodir gan CSC ac mae coed wedi'u plannu ar nifer fach ohonynt:<br>• Mae dau ddaliad yn Nhalacharn yn bwrw ymlaen â phrosiectau plannu coed gyda Swyddog Coetir CSC ar ddau ddaliad CSC<br>• Tir tenant ger Llanymddyfri<br>• Fferm Bremenda Uchaf, Llanarthne<br>Cytunwyd hefyd, pan fydd daliadau gwledig yn dod yn wag, y cynhelir trafodaethau ac ymweliadau safle gyda chydweithwyr yn yr is-adrannau Eiddo a'r Amgylchedd Naturiol a Chynaliadwyedd i adolygu'r cyfleoedd a'r ffyrdd o wella bioamrywiaeth ar y safleoedd hyn, gan weithio gydag unrhyw denantiaid newydd<br>Mae'r is-adrannau Eiddo a'r Amgylchedd Naturiol a Chynaliadwyedd yn parhau i weithio'n agos â'i gilydd i archwilio cyfleoedd ar gyfer ffermio sy'n ystyriol o natur a gwella bioamrywiaeth ar ffermydd a thir â thenantiaid CSC |
| | **AMDDIFFYN RHAG LLIFOGYDD** | | |

| Rhif PIMS | Disgrifiad o'r Cam Gweithredu | Amcan(ion) y Cynllun Gweithredu Adfer Natur a gyflawnwyd | Crynodeb o'r Camau Gweithredu a gyflawnwyd 2023-25 |
|---|---|---|---|
| 18060 | Datblygu a hyrwyddo dull integredig o ddylunio cynlluniau SDCau sy'n seiliedig ar natur ac sy'n hawdd eu cynnal a'u cadw a fydd yn cyfrannu at ofynion tirlunio, ac yn darparu seilwaith gwyrdd, a budd net i fioamrywiaeth ar gyfer datblygiadau mwy/mawr | 1,3 | Ym mis **Ebrill 2023**, defnyddiwyd grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant Llywodraeth Cymru i ariannu seminar hyfforddi 1 diwrnod ar gyfer 50 o gynrychiolwyr, swyddogion ac ymgynghorwyr CSC ynghylch datrysiadau SDCau sy'n ystyriol o natur. Fe'i cyflwynwyd gan Robert Bray Associates, arweinwyr yn y maes hwn yn y DU.<br><br>Dyletswydd statudol CSC o dan Atodlen 3 i Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yw sicrhau bod pob datblygiad newydd yn gweithredu systemau draenio cynaliadwy. Rhan annatod o'r broses gydsynio yw sicrhau bod cynnydd mewn bioamrywiaeth ac amwynder.<br><br>Yn **2024/25** roedd 60% o'r ceisiadau a dderbyniwyd ynghylch draenio cynaliadwy yn safleoedd tir llwyd ac rydym wedi mabwysiadu 7260m$^3$ o seilwaith gwyrdd ar safleoedd ledled y sir.<br><br>Er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni'r targedau angenrheidiol o ran seilwaith gwyrdd a thargedau cysylltiedig, yn 2024 cynhaliwyd adolygiad annibynnol o'r caniatâd draenio cynaliadwy. Roedd hyn wedi tynnu sylw at y ffaith bod 80% o'r ceisiadau a adolygwyd yn bodloni'r safonau ar gyfer creu amwynder. Nododd yr un adolygiad fod 60% o'r ceisiadau a adolygwyd yn bodloni'r safonau ar gyfer cynnydd net mewn bioamrywiaeth ac roedd 30% o'r ceisiadau'n bodloni safon uchel o ran cynnydd net mewn bioamrywiaeth.<br><br>Er mwyn parhau i fodloni'r gofyniad hwn, rydym yn esblygu ein gwasanaeth cyn ymgeisio yn barhaus i sicrhau bod cyngor yn cael ei ddarparu i gwsmeriaid ar seilwaith gwyrdd a chynnydd net mewn bioamrywiaeth. Rydym hefyd wedi datblygu papur sy'n ceisio cynnig arweiniad pellach i'n |

| Rhif PIMS | Disgrifiad o'r Cam Gweithredu | Amcan(ion) y Cynllun Gweithredu Adfer Natur a gyflawnwyd | Crynodeb o'r Camau Gweithredu a gyflawnwyd 2023-25 |
|---|---|---|---|
| | | | cwsmeriaid.<br><br>Rydym yn rhagweld y bydd y cyngor pwrpasol hwn yn rhoi mwy o gyfleoedd i ni ddylanwadu ar ddylunio a chyflawni'r canlyniadau seilwaith gwyrdd rydym yn dymuno eu cael.<br><br>Hefyd, yn 2024, roedd ein cydweithwyr polisi strategol a chreu lleoedd wedi datblygu canllawiau a pholisi seilwaith glas a gwyrdd sy'n annog datblygwyr i ddefnyddio'r seilwaith a fydd yn ein helpu i gyflawni'r nodau hyn.<br><br>Systemau Draenio Cynaliadwy - Cyngor Sir Caerfyrddin |
| 18062 | Camlas Pen-bre - bwrw ymlaen â'r gwaith o baratoi cynllun rheoli ar gyfer y safle hwn a'i reoli i amddiffyn rhag llifogydd, darparu bioamrywiaeth, rheoli rhywogaethau goresgynnol a darparu buddion o ran amwynderau, a hynny'n unol â'r ddeddfwriaeth | 2,3,4 | Datblygodd y tîm Amddiffyn rhag Llifogydd gynllun rheoli ar gyfer y gamlas a oedd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer rheoli coed, y llwybr beicio/teithio llesol, perygl llifogydd a rhywogaethau goresgynnol. Bellach Hawliau Tramwy Cyhoeddus, yr Amgylchedd Naturiol a Chynaliadwyedd a swyddogion perygl llifogydd sy'n gyfrifol am y camau gweithredu i'w gweithredu'n briodol.<br><br>Mae gwaith wedi'i gwblhau i gael gwared ar rywogaethau goresgynnol sy'n cael effaith andwyol ar y fioamrywiaeth sy'n gysylltiedig â'r gamlas yn ardal Pen-bre. Gyda chyllid grant Llywodraeth Cymru cafodd pluen parot, y planhigyn ymledol dyfrol, ei reoli'n rhannol yn 2024 a 2025. Mae hyn yn cael ei fonitro gan wirfoddolwyr lleol.<br><br>Mae llygod pengrwn y dŵr bellach yn bresennol yn y gamlas, felly mae'n rhaid i unrhyw fath o waith rheoli gael ei wneud gan ystyried eu presenoldeb ac yn ôl datganiad dull y cytunwyd arno i sicrhau |



Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

| Rhif PIMS | Disgrifiad o'r Cam Gweithredu | Amcan(ion) y Cynllun Gweithredu Adfer Natur a gyflawnwyd | Crynodeb o'r Camau Gweithredu a gyflawnwyd 2023-25 |
|---|---|---|---|
| | | | nad ydynt yn cael eu heffeithio. |
| | **DYLUNIO EIDDO** | | |
| 18063 | Dangos tystiolaeth fod prosiectau CSC yn cyflawni dyletswydd Bioamrywiaeth Adran 6 CSC, a'i Strategaeth Coed a Choetir.<br>Mabwysiadu datrysiadau dylunio sy'n hawdd eu cynnal a chadw ac sy'n ystyriol o natur.<br>Myfyrio mewn briffiau ar gyfer ymgynghorwyr a chontractwyr.<br>Sicrhau bod y gofynion hyn yn cael eu cyflawni, bod gofynion cynnal a chadw hirdymor wedi cael sylw ac y cytunwyd ar ddatrysiadau cyllido | 1, 2,3 | Mae trafodaethau bellach yn cael eu cynnal er mwyn cynnwys gwelliannau ar gyfer bioamrywiaeth a Seilwaith Gwyrdd ym mhrosiectau CSC, e.e. cynlluniau ar gyfer adnewyddu Rhes Wood yng Nghaerfyrddin.<br>Mae Ecolegwyr Prosiect bellach yn cefnogi'r gwasanaeth Eiddo wrth ddylunio a chyflawni prosiectau.<br>Mae gofynion y Strategaeth Coed a Choetir yn cael eu hymgorffori mewn dogfennau templed o ran tendro a gwybodaeth ddylunio. |
| | **PRIFFYRDD a THRAFNIDIAETH - Dylunio Proffesiynol a Theithio Llesol** | | |

| Rhif PIMS | Disgrifiad o'r Cam Gweithredu | Amcan(ion) y Cynllun Gweithredu Adfer Natur a gyflawnwyd | Crynodeb o'r Camau Gweithredu a gyflawnwyd 2023-25 |
|---|---|---|---|
| 18064 | Dangos tystiolaeth y bydd prosiectau, o'r cam cysyniadol, yn cyflawni dyletswydd Bioamrywiaeth Adran 6 CSC, ac os yw lle'n caniatáu, ei strategaeth Coed a Choetiroedd. | 1,2,3 | Os yw lle'n caniatáu, cynhwysir gwella bioamrywiaeth yn y dyluniad lle bynnag y bo hynny'n bosibl ac yn briodol (e.e. cynnwys pibell sych ar gyfer dyfrgwn ar brosiectau adfer pontydd lle bo hynny'n briodol).<br><br>Mae hyn yn fwy hyfyw ar gynlluniau newydd sy'n gofyn am ganiatâd cynllunio e.e. Llwybr Dyffryn Tywi, nag ar gynlluniau sy'n dod o fewn datblygiad a ganiateir.<br><br>Mae cynlluniau priffyrdd fel arfer yn cynnwys prosiectau cynnal a chadw neu amnewid sy'n dod o dan ddatblygiad a ganiateir. Mae'r rhain yn adlewyrchu cyfrifoldebau statudol y cyngor fel Awdurdod Priffyrdd neu Ddraenio Tir. O fewn y tir sydd ar gael ac o ystyried gwelededd ar briffyrdd, rydym yn asesu pa ddarpariaethau y gellir eu gwneud ar gyfer bioamrywiaeth.<br><br>Mae gwaith cynnal a chadw parhaus yn cadw at y Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd, sef dull strategol a ddefnyddir gan gynghorau i reoli a chynnal rhwydweithiau priffyrdd yn unol â dyletswyddau statudol ac arferion gorau. Ar gyfer prosiectau ffyrdd newydd, rydym yn ymgysylltu'n gynnar â thimau ecoleg a bioamrywiaeth i archwilio cyfleoedd gwell ar gyfer bioamrywiaeth a thirlunio. |
| 18065 | Monitro'r gwaith o gyflawni prosiectau i sicrhau cydymffurfiaeth â briffiau, a bod gofynion o ran bioamrywiaeth a | 1,2,3 | Pan fo contractwyr yn cwblhau gwaith, mae'r tîm dylunio yn monitro'r contract am y 12 mis cyntaf. Mae'r cyfrifoldeb hwn wedyn yn cael ei drosglwyddo i'r gwasanaeth sy'n mabwysiadu'r gwaith.<br><br>Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith yn cynnwys cynlluniau cynnal a chadw ac amnewid o fewn ffiniau |

| Rhif PIMS | Disgrifiad o'r Cam Gweithredu | Amcan(ion) y Cynllun Gweithredu Adfer Natur a gyflawnwyd | Crynodeb o'r Camau Gweithredu a gyflawnwyd 2023-25 |
|---|---|---|---|
| | thirwedd yn cael eu cyflawni | | presennol priffyrdd. Yn yr ardaloedd hyn, rydym yn gwneud y mwyaf o ddarpariaethau yn seiliedig ar y tir sydd ar gael.<br><br>Ar gyfer cynlluniau a ddarperir gan gontractwyr allanol, rydym yn sicrhau eu bod yn cadw at friffiau ac yn cydymffurfio â gofynion o ran bioamrywiaeth a thirlunio a bennir yn y contract. Mae prosiectau mawr o ran plannu a thirlunio yn cynnwys rhwymedigaeth cynnal a chadw o 5 mlynedd, ac mae gan brosiectau llai o faint gyfnod cynnal a chadw o 12 mis. Ar ôl y cyfnodau hyn, mae'r asedau'n cael eu cynnal a chadw yn unol â'r Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd, sef dull strategol a fabwysiadwyd gan gynghorau i reoli a chynnal rhwydweithiau priffyrdd yn unol â dyletswyddau statudol ac arferion gorau. |
| 18066 | Dangos tystiolaeth o'r modd y mae prosiectau Teithio Llesol, o'r cam cysyniadol, yn cyflawni dyletswydd Bioamrywiaeth Adran 6 CSC, a'i strategaeth Coed a Choetir. | 1,3 | Teithio Llesol yn ymgynghori â'r Adran Amgylchedd Naturiol a Chynaliadwyedd ar gynlluniau newydd:<br><br>e.e. **Sanclêr.** Cwblhawyd gwaith plannu coed mewn ardal fechan (300 o goed a llwyni) ym mis Chwefror 2024 ar safle'r Gwlyptir lle dargyfeiriwyd llwybr teithio llesol i ffwrdd o'r afon ac roedd ysgol a chymuned leol yn rhan o'r gwaith plannu.<br><br>Mae gan yr ardal o dir a adawyd ar ôl symud y llwybr brosiect i greu nodwedd gwlyptir yma ac mae CSC yn gweithio gydag Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru i fwrw ymlaen â hyn yn 2025/26 gyda'r nod o ddynodi'r ardal yn Warchodfa Natur Leol. Mae Ymgynghoriad Cyhoeddus wedi dangos |

| Rhif PIMS | Disgrifiad o'r Cam Gweithredu | Amcan(ion) y Cynllun Gweithredu Adfer Natur a gyflawnwyd | Crynodeb o'r Camau Gweithredu a gyflawnwyd 2023-25 |
|---|---|---|---|
| | | | bod y syniad hwn yn cael ei gefnogi gan y rhai a fynychodd ddigwyddiadau ymgynghori.<br><br>Mae'r Grŵp Cyflawni Prosiectau Ochr Cleient wedi cytuno y byddai cyngor ac arweiniad yn cael ei geisio gan gydweithwyr priodol er mwyn gallu rhoi ystyriaeth gynnar i ddatblygiad seilwaith priodol sy'n ystyriol o natur .<br><br>Mae cyswllt wedi'i wneud â chydweithwyr er mwyn cytuno ar bresenoldeb Grŵp Cyflawni Prosiectau yn y dyfodol yn barod ar gyfer datblygu a chyflwyno rhaglenni 2025/26. |
| | **GRANTIAU DATBLYGU ECONOMAIDD ac ADFYWIO** | | |
| 18067 | Dangos tystiolaeth o sut mae prosiectau Adfywio CSC, o'r cam cysyniadol, wedi'u cynllunio i gyflawni dyletswydd Bioamrywiaeth Adran 6 CSC, ac os yw lle'n caniatáu, ei strategaeth Coed a Choetir. | 1 | Mae prosiectau adfywio'r Cyngor yn ystyried materion ecolegol ar y cam cysyniadol, er enghraifft mae ardaloedd arwyddocaol ar gyfer bioamrywiaeth yn cael eu cadw a'u gwella ar safle Dwyrain Cross Hands, gyda rheolaeth barhaus yn cyfrannu at ddiogelu a gwella'r fioamrywiaeth fel rhan o'r datblygiad yma.<br>Mae rheoli'r ystâd yn annog bioamrywiaeth y tu allan i'r meysydd lliniaru, h.y. ymylon ffyrdd a phantiau drwy drefniadau torri gwair y cytunwyd arnynt.<br><br>Ym Mharc Gelli Werdd, Cross Hands, mae datblygiad o unedau cyflogaeth wedi ystyried yr effaith ar goed ffin presennol cyfagos yn ogystal â nodweddion cynefin ychwanegol. Paratowyd canllawiau ffurfiol ynghylch tirlunio hawdd ei gynnal a chadw mewn cydweithrediad â swyddog |



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

| Rhif PIMS | Disgrifiad o'r Cam Gweithredu | Amcan(ion) y Cynllun Gweithredu Adfer Natur a gyflawnwyd | Crynodeb o'r Camau Gweithredu a gyflawnwyd 2023-25 |
|---|---|---|---|
| | | | tirwedd ar gyfer blaenau lleiniau.<br><br>Mae'r elfennau hyn hefyd yn cael eu hymgorffori mewn datblygiad arfaethedig o unedau cyflogaeth yn Beechwood, Llandeilo sy'n cael ei ddatblygu gan Lywodraeth Cymru drwy ei menter ar y cyd â'r Cyngor.<br><br>Anogir ymgeiswyr am grantiau Adfywio i lofnodi Addewid Twf Gwyrdd Llywodraeth Cymru a dangos eu dull busnes o leihau'r effaith ar yr amgylchedd. Mae cynlluniau gwella canol trefi yn cynnwys plannu coed os yw lle'n caniatáu er gwaethaf heriau, gan sicrhau nad oes unrhyw effaith ar ddwythellau gwasanaethau. |
| | **CYMUNEDAU** | | |
| | **HAMDDEN AWYR AGORED** | | |
| 18068 | Sicrhau cyllid ar gyfer swydd barhaol a fydd yn sicrhau bod gan CSC y gallu i reoli ei Warchodfeydd Natur Lleol a safleoedd tebyg mewn ffyrdd a fydd yn gwarchod ac yn gwella ei fioamrywiaeth ac yn | 1 | Mae'r swydd wedi'i sicrhau ac mae deiliad y swydd yn rheoli Gwarchodfeydd Natur Lleol CSC a safleoedd eraill ar ran Hamdden Awyr Agored |

| Rhif PIMS | Disgrifiad o'r Cam Gweithredu | Amcan(ion) y Cynllun Gweithredu Adfer Natur a gyflawnwyd | Crynodeb o'r Camau Gweithredu a gyflawnwyd 2023-25 |
|---|---|---|---|
| | galluogi pobl i fwynhau natur. | | |
| 18069 | Bwrw ymlaen â dynodi Ynys Dawela ym Mrynaman, ac ystyried Caeau Cydweli (ger Cei Cydweli) a Gwlyptir Sanclêr fel Gwarchodfeydd Natur Lleol (LNR) gydag Is-adran yr Amgylchedd Naturiol Gwledig a Chynaliadwyedd. Adolygu cyfleoedd ar gyfer cytundebau Adran 106 i ariannu'r gwaith o reoli Gwarchodfeydd Natur Lleol yn y dyfodol | 1, 2, 3, 4, 5 | • Mae dynodi Ynys Dawela fel Gwarchodfa Natur Leol yn mynd rhagddo drwy Hamdden Awyr Agored. Cytunwyd ar y dynodiad gyda CNC.<br><br>• Cei Cydweli – Nid yw'r broses o'i ddynodi fel Gwarchodfa Natur Leol wedi dechrau eto. Mae cyllid Llywodraeth Cymru wedi galluogi gosod ffensys a phori mewn ardaloedd allweddol o fewn y safle. Bwriedir plannu coed yn ystod Gaeaf 2025. Mae cyllid Llywodraeth Cymru wedi caniatáu arolwg infertebratau i hysbysu rheolwyr a dynodi'r lle fel Gwarchodfa Natur Leol.<br><br>• Gwlyptiroedd Sanclêr. Nid yw'r broses o ddynodi'r lle fel Gwarchodfa Natur Leol wedi dechrau eto. Mae Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru yn arwain o ran arolygon i lywio'r broses o greu nodweddion gwlyptir yma a bydd hyn yn llywio'r broses o ddynodi'r lle fel Gwarchodfa Natur Leol. Mae llygod yr ŷd wedi'u cofnodi ar y safle a bydd hyn yn llywio'r gwaith rheoli yn y dyfodol.<br><br>• Mae cyllid Adran 106 ar gael ar gyfer rheoli yng Nghei Cydweli ac yn Sanclêr pan fydd y dynodiad yn digwydd. |
| 18070 | Gweithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru i gwblhau cytundeb rheoli Adran 16 ar gyfer 44 hectar ym Mharc Gwledig Llyn Llech Owain | 1, 3, 4, 5 | Mae cytundeb rheoli Adran 16 bellach wedi'i lofnodi ac ar waith gyda CNC ar gyfer rheoli 44ha o'r safle 72ha.<br><br>Mae CNC, ac yn benodol y Prosiect Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Mawnogydd, gan weithio gyda'r gwasanaeth Hamdden Awyr Agored a chontractwyr arbenigol, wedi ymgymryd â gwaith |



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

| Rhif PIMS | Disgrifiad o'r Cam Gweithredu | Amcan(ion) y Cynllun Gweithredu Adfer Natur a gyflawnwyd | Crynodeb o'r Camau Gweithredu a gyflawnwyd 2023-25 |
|---|---|---|---|
| | | | mawnogydd helaeth, a wnaed yn 2024 i adfer y fawnog ar y safle. Aeth Prosiect Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Mawnogydd, ynghyd â grŵp o arbenigwyr newid hinsawdd o'r cenhedloedd cartref, i'r safle ym mis Mehefin 2025. |
| | **PROSIECTAU TAI NEWYDD A CHYNNAL A CHADW TAI PRESENNOL A'R ARDALOEDD CYFAGOS** | | |
| 18071 | Drafftio, mabwysiadu a hyrwyddo Canllawiau Datblygu Tai, Ecoleg a Bioamrywiaeth CSC | 1,6 | Mae'r ddogfen ganllaw Datblygu, Ecoleg a Bioamrywiaeth wedi'i drafftio a'i mabwysiadu fel dogfen ganllaw gan y Tîm Strategol Tai ac Adfywio ar 26.06.23.<br><br>Ei nod yw:<br>amddiffyn, cynnal a gwella ecoleg a bioamrywiaeth yn ein datblygiadau trwy ymgysylltu'n gynnar â'r broses ddichonoldeb a dylunio. Byddwn yn cofleidio ecoleg a bioamrywiaeth o'r cychwyn cyntaf, gan ei roi wrth wraidd ein penderfyniadau ac yn sicrhau bod ein datblygiadau'n cyfrannu'n gadarnhaol at gyfrifoldebau'r Cyngor tuag at gynnal a gwella ecoleg a bioamrywiaeth.<br><br>I gyflawni hyn, byddwn yn:<br>➢ Sicrhau bod y tîm Ecoleg yn cael ei gynnwys yn ein holl friffiau datblygu;<br>➢ Annog ymgysylltu a chydweithrediad cynnar yn y broses; |

| Rhif PIMS | Disgrifiad o'r Cam Gweithredu | Amcan(ion) y Cynllun Gweithredu Adfer Natur a gyflawnwyd | Crynodeb o'r Camau Gweithredu a gyflawnwyd 2023-25 |
|---|---|---|---|
| | | | ➢ Cynnwys ein cydweithwyr yn y tîm Ecoleg trwy gydol y camau datblygu;<br>➢ Ystyried yr holl argymhellion a wneir;<br>➢ Gwneud ein gorau glas i ymgorffori canfyddiadau mewn dyluniadau manwl cynlluniau;<br>➢ Gweithio gyda phartneriaid allweddol i sicrhau eu bod nhw hefyd yn rhannu ein gwerthoedd ac yn ymgysylltu'n gynnar;<br>➢ Lle bo'n bosibl, mynd yr ail filltir i archwilio atebion arloesol i wella a diogelu ecoleg a bioamrywiaeth yn ein datblygiadau |
| 18072 | Sicrhau bod y Canllawiau Datblygu Tai ac Ecoleg a Bioamrywiaeth yn cael eu hadlewyrchu ym mriffiau prosiect ac yn parhau i fod wedi'u hymgorffori ym mhob cam o'r gwaith o ddatblygu a gweithredu'r prosiect. Sicrhau bod y Prosiect Ecoleg yn ymwybodol o'r materion ecoleg ym mhob cynllun y mae'r | 1 | • Mae briffiau prosiect gan y gwasanaeth Tai yn cynnwys y gofyniad i gynnwys ecoleg fel ystyriaeth allweddol yn y cynigion ar gyfer datblygu ynghyd â chefnogi, cynnal a, lle bo hynny'n bosibl, gwella bioamrywiaeth yn yr ardal ar gyfer rhywogaethau allweddol ar ôl ymgynghori ag Ecolegwyr y Cyngor. Mae hwn yn ofyniad safonol sy'n cael ei gyflawni ar gyfer ein holl ddatblygiadau tai.<br>Mae'r Project Ecoleg wedi ymgymryd â:<br>• Gwaith parhaus ar safle prosiect allweddol Bryn Mefys, Llanelli, i ddarparu gwelliannau i gynefinoedd ar gyfer Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop (ystlumod a phathewod).<br>•Darparwyd hyfforddiant i 60 o weithwyr tai.<br>• Ymatebwyd i 32 o ymholiadau. |

| Rhif PIMS | Disgrifiad o'r Cam Gweithredu | Amcan(ion) y Cynllun Gweithredu Adfer Natur a gyflawnwyd | Crynodeb o'r Camau Gweithredu a gyflawnwyd 2023-25 |
|---|---|---|---|
| | gwasanaeth Tai yn bwrw ymlaen ag ef. | | • Darparwyd gwelliannau ar safleoedd Tai:<br>Ffordd Aneurin, Pontyberem<br>21 Heol Ffynnon, Llanelli |
| 18073 | Gweithio gyda Phrosiect Ecoleg CSC i hyfforddi swyddogion tai mewn materion yn ymwneud â Rhywogaethau a Warchodir. | | Cafodd ail Ecolegydd Prosiect CSC ei recriwtio ym mis Rhagfyr 23 i weithio gyda'r gwasanaeth Tai ar faterion cynnal a chadw. Mae hyfforddiant yn swyddogaeth graidd o'r rôl hon, ac ar ôl nifer o sesiynau a gwblhawyd yn 2023/24, a hyfforddiant a gwblhawyd yn 2023/24, mae cymorth swyddogion fel arfer yn un-i-un.<br><br>Yn 2025, mae Ecolegwyr Prosiect yn parhau i weithio'n agos gyda'r holl dimau tai (gan gynnwys swyddogion sy'n ymwneud â thai gwag, cynnal a chadw ymatebol a gwaith wedi'i gynllunio) i hyfforddi a chynorthwyo â gwaith, gan sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth rhywogaethau a warchodir yn ystod y gwaith a'r ddyletswydd Adran 6 i gynnal a gwella bioamrywiaeth trwy'r holl waith a wneir. |
| | **AR DIR A REOLIR GAN DAI A CHYMUNEDAU** | | |
| 18074 | Mewn cydweithrediad â'r is-adran Amgylchedd Naturiol Gwledig a Chynaliadwyedd, nodi cyfleoedd i wella bioamrywiaeth ar dir a reolir | 1,3 | Roedd cyllid Lleoedd Lleol ar gyfer Natur LlC wedi darparu cynlluniau gwerthfawr i wella seilwaith gwyrdd ac ymgysylltu â thrigolion ar safleoedd y gwasanaeth Tai ledled y sir. Cyflwynwyd y rhain gan y swyddog Lleoedd Lleol ar gyfer Natur ac roeddent yn cynnwys: |

| Rhif PIMS | Disgrifiad o'r Cam Gweithredu | Amcan(ion) y Cynllun Gweithredu Adfer Natur a gyflawnwyd | Crynodeb o'r Camau Gweithredu a gyflawnwyd 2023-25 |
|---|---|---|---|
| | gan y gwasanaeth Tai, e.e. rheoli glaswelltir amwynder ar gyfer pryfed peillio a phlannu coed yn unol â Strategaeth Coed a Choetir CSC | | • plannu coed, perthi a pherllannau<br><br>• gwella mannau agored cyhoeddus trwy osod meinciau â blychau plannu, llwybrau a gwelyau blodau<br><br>• trawsnewid 2 hen safle garej o dir y gwasanaeth Tai fel rhan o brosiectau "Llwyd i Wyrdd" i greu gofod naturiol hygyrch ar hen ardal tarmac.<br><br>Yn 2025 dechreuodd y gwasanaeth Cynnal a Chadw Tiroedd reoli rhai ardaloedd ledled y sir yn unol â'r https://www.sirgar.llyw.cymru/media/iydjxjjg/strategaeth-ar-gyfer-rheoli-glaswelltir-i-bryfed-peillio-ar-ystad-cyngor-sir-caerfyrddin-2024-29.pdf. Bydd hyn yn cael ei ddatblygu dros y blynyddoedd i ddod, ac yn llywio Cytundebau Lefel Gwasanaeth yn y dyfodol. |
| | **ADDYSG** | | |
| 18075 | Dangos tystiolaeth fod prosiectau addysg y gwasanaeth Cymunedau yn cyflawni dyletswydd bioamrywiaeth Adran 6 CSC, ac os yw lle'n caniatáu, ei strategaeth Coed a Choetir. Darparu gwelliannau i fioamrywiaeth fel rhan o gynlluniau tai newydd a | 1 | Tra bo'r Strategaeth Rhaglen Moderneiddio Addysg yn cael ei hadolygu, mae Addysg yn parhau i ymgysylltu â chynrychiolwyr ecoleg wrth ddatblygu cynlluniau i sicrhau ein bod yn ymgorffori cyfleoedd i wireddu ein dyletswydd bioamrywiaeth a'n strategaeth coed a choetir, gan weithio mewn ffordd gydweithredol. |

| Rhif PIMS | Disgrifiad o'r Cam Gweithredu | Amcan(ion) y Cynllun Gweithredu Adfer Natur a gyflawnwyd | Crynodeb o'r Camau Gweithredu a gyflawnwyd 2023-25 |
|---|---|---|---|
| | chynlluniau llai o faint.<br><br>Ymgorffori'r gofynion hyn yn y cam cysyniadol.<br><br>Dangos tystiolaeth o fabwysiadu datrysiad dylunio sy'n ystyriol o natur ac sy'n hawdd ei gynnal a chadw | | |
| 17795 | Ar dir a reolir gan Addysg (e.e. ysgolion CSC), nodi cyfleoedd i wella bioamrywiaeth e.e. rheoli rhai ardaloedd o laswelltir amwynder ar gyfer pryfed peillio, ac ardaloedd sy'n addas ar gyfer plannu coed, yn unol â Strategaeth Coed a Choetir CSC | 1, 3 | • Plannwyd coed yn Neuadd y Gwendraeth (a reolir gan Addysg) yn ystod gaeaf 2023/24, a ariannwyd gan grant Lleoedd Lleol ar gyfer Natur CSC<br><br>• Mae Swyddog Diogelwch Coed CSC yn parhau i chwilio am gyfleoedd i blannu coed ar dir ysgolion lle mae'n rhaid gwaredu coed am resymau diogelwch. Mae nifer o ysgolion yn trefnu plannu eu coed eu hunain.<br><br>Mae'r Ymgynghorydd Cymorth Addysgol Cyswllt mewn cysylltiad rheolaidd â'r swyddog Lleoedd Lleol ar gyfer Natur ynghylch cymorth bioamrywiaeth i ysgolion.<br><br>Darperir arolygon cyfleoedd i blannu coed a choetir mewn ysgolion gan y swyddog Diogelwch Coed, Jason Winter, a swyddog Coed Cymru, Gus Hellier.<br><br>Mae nifer o ysgolion unwaith eto wedi cymryd rhan yn y rhaglen hyfforddi athrawon 'Gardd Newid |



Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

| Rhif PIMS | Disgrifiad o'r Cam Gweithredu | Amcan(ion) y Cynllun Gweithredu Adfer Natur a gyflawnwyd | Crynodeb o'r Camau Gweithredu a gyflawnwyd 2023-25 |
|---|---|---|---|
| | | | Hinsawdd' yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r holl ysgolion sy'n cymryd rhan wedi datblygu mannau tyfu cynhyrchiol sy'n denu pryfed peillio yn eu tiroedd yn dilyn yr hyfforddiant hwn .<br><br>Nid yw Gwella Ysgolion yn gwneud fawr o ddim o ran plannu coed a rheoli glaswelltir ar dir ysgolion, er bod ein Grŵp Gweithredu Hinsawdd wedi cyfeirio at y newidiadau sydd eu hangen yn ei Faniffesto. |
| | **CAFFAEL** | | |
| 18076 | Ceisio cyfleoedd i fwrw ymlaen â chaffael cynhyrchion glanhau sy'n rhydd o ffosffad neu sydd heb lawer o ffosffad (mae'r camau gweithredu hwn yn adeiladu ar gam gweithredu yn y Blaengynllun Deddf yr Amgylchedd blaenorol). | 1 | Mae'r tîm gwasanaethau glanhau wedi mabwysiadu polisi ar gyfer prynu cemegau heb ffosffad yn unig, sydd wedi'i ysgrifennu yn y contract gyda'n cyflenwr cemegau glanhau, Lyreco. Mae hyn er mwyn sicrhau ein bod yn defnyddio cynnyrch sy'n gydnaws â'r amgylchedd. |

| Rhif PIMS | Disgrifiad o'r Cam Gweithredu | Amcan(ion) y Cynllun Gweithredu Adfer Natur a gyflawnwyd | Crynodeb o'r Camau Gweithredu a gyflawnwyd 2023-25 |
|---|---|---|---|
| | **POLISI CORFFORAETHOL** | | |
| 18077 | Dangos tystiolaeth sy'n cyfeirio at ddyletswydd Adran 6 CSC mewn meysydd polisi eraill | 1,6 | O 08/01/24 mae templedi adroddiadau'r pwyllgor bellach yn cynnwys blwch goblygiadau Bioamrywiaeth a Newid Hinsawdd er mwyn i awduron yr adroddiadau ei gwblhau |

## 5.4 Camau gweithredu ychwanegol y mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi'u cyflawni nad oeddent wedi'u cynnwys yn ei drydydd Blaengynllun Deddf yr Amgylchedd 2023-25

**5.4.1** Mae'r Cyngor wedi dechrau **datblygiadau** sylweddol, e.e. gweithio mewn partneriaeth i ddarparu safle Pentre Awel yn Llanelli a Llwybr Beicio Dyffryn Tywi 16 km o hyd o Gaerfyrddin i Landeilo. Mae'r ddau wedi wynebu problemau ecolegol sylweddol, ac mae Ecolegwyr Prosiect y Cyngor wedi gweithio'n galed ar y prosiectau gan weithio ochr yn ochr â pheirianwyr, dylunwyr a chontractwyr i sicrhau bod y materion ecolegol yn cael eu datrys yn ddigonol.

**5.4.2** Mae'r **afonydd** yng ngorllewin Cymru a'r bywyd gwyllt y maent yn eu cefnogi yn parhau i fod dan fygythiad gan ddigwyddiadau llygredd a'r prif ffynonellau o faetholion yw'r sector defnydd tir gwledig (gwrteithiau a thail) a charthffosiaeth dŵr gwastraff (carthffosiaeth, gwastraff bwyd, glanedyddion). Mae'r digwyddiadau tywydd eithafol y mae'n ymddangos ein bod yn eu cael yn gwaethygu'r materion hyn gan fod cyfnodau o lawiad trwm iawn yn heriol iawn i'r sawl sy'n rheoli slyri ac ati. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cadeirio ac yn gweithio'n rhagweithiol gyda **Grwpiau Cyngor Technegol y Byrddau Rheoli Maetholion ar**

**draws de-orllewin Cymru**. Mae'r rhain yn cynnwys y Gweithgor Amaethyddol, y Gweithgor Gwyddoniaeth Dinasyddion a'r Gweithgor Monitro. Cylch gwaith y Bwrdd Rheoli Maetholion yw nodi camau gweithredu i alluogi gwelliannau o ran ansawdd dŵr sydd wedi'u cynllunio i adfer a gwarchod statws cyflwr ffafriol, gan hefyd ganiatáu i'r datblygiad barhau o fewn dalgylch yr ACA heb gynyddu'r llwyth maetholion (datblygiad niwtral o ran maetholion).

**5.4.3** Mae Strategaeth Drawsnewid y Cyngor yn darparu fframwaith strategol i gynnal rhaglen o newid sefydliadol o bwys fydd yn cefnogi'r Cyngor i gyflawni ei nodau ac amcanion ehangach fel y'u cyflwynir yn ei Strategaeth Gorfforaethol.

Mae'r Strategaeth Drawsnewid yn nodi nodau ac amcanion i helpu i gyflawni gweledigaeth benodol, ac mae'n amlinellu sut mae'r sefydliad yn bwriadu gwella ei allu a'r ffordd mae'n defnyddio ei adnoddau i gynnig mwy o werth a buddion i'w gwsmeriaid a'i drigolion

**5.4.4** Mae'r Cyngor wedi datblygu Cynllun Cyfathrebu Marchnata a'r Cyfryngau i gynyddu'r ddealltwriaeth o'r argyfyngau newid hinsawdd a natur. Mae hyn yn gysylltiedig â Gweithredu ar Newid Hinsawdd Sir Gâr - Mynd i'r Afael â'r Argyfyngau Newid Hinsawdd a Natur.

Ar ôl cyrraedd y man canol o fewn ein rhaglen Carbon Sero Net erbyn 2030, rydym wedi adolygu'r cynnydd hyd yma ac wedi gwella ein cynllun gwreiddiol. Nawr bod y cyngor wedi datgan Argyfyngau Newid Hinsawdd a Natur, mae'n hanfodol ein bod yn eu hystyried gyda'i gilydd gan eu bod yn gynhenid gysylltiedig. Felly, mae diogelu a gwella natur yn agwedd hanfodol yn y cynllun diwygiedig. Mae'r dull diwygiedig hefyd wedi ehangu cwmpas y cynllun gwreiddiol trwy ymgorffori gwaith sy'n cael ei wneud ar draws yr awdurdod ac yn cwmpasu modelu ar ffurf taflwybr a chynllun pobl a newid diwylliannol o ran newid hinsawdd ac argyfwng natur.

## 6. Adolygiad o'r camau a gyflawnwyd

### 6.1. A yw'r dull o gyflwyno'r Blaengynllun yn cyflawni'r amcanion?

Y dull a ddefnyddiwyd gan Sir Gaerfyrddin i ddatblygu a chyflawni ei Flaengynllun oedd gweithio tuag at wreiddio bioamrywiaeth a chyflawni dyletswyddau Adran 6 CSC ar draws ei brosesau gwneud penderfyniadau, ei brosiectau, cynlluniau ac arferion gwaith. Gwneir hyn trwy herio a chefnogi swyddogion i edrych ar eu cyfrifoldebau unigol a chyfrifoldebau eu gwasanaeth a'u helpu i adnabod cyfleoedd ar gyfer cynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, ar yr un pryd â chyflawni eu cyfrifoldebau ac amcanion eraill, ac ar adegau gwneir bioamrywiaeth yn flaenoriaeth newydd. Mae'r dull hwn yn aml yn arwain at newid yr hyn sydd ar adegau yn arferion gwaith a ddefnyddiwyd ers tro byd. Gall hyn gymryd amser. Er bod rhai meysydd gwasanaeth yn ei chael yn gymharol hawdd i wneud y newid hwn, mae'n llawer anoddach i eraill a phan nad yw'r newidiadau hyn yn dod yn naturiol i'r maes

gwasanaeth, mae angen cefnogaeth ac anogaeth hirdymor arnynt wrth wneud y newidiadau hyn.

Dylai'r wybodaeth am y ddeddfwriaeth fod yn fwy cyffredin, a'r gobaith yw y bydd gwaith craffu mewnol parhaus o'n holl swyddogaethau mewn perthynas â dyletswydd o ran Deddf yr Amgylchedd yn cael ei gynnal. Nawr bod yn rhaid i adroddiadau i bwyllgorau CSC gyfeirio at gyflawni dyletswyddau Adran 6, bydd hyn yn helpu i godi ymwybyddiaeth o'r cyfrifoldeb cyfreithiol hwn.

Caiff camau gweithredu'r Blaengynllun y cytunwyd arnynt, fel y'u nodir yn Nhabl 1, eu monitro trwy System Monitro Gwella Perfformiad (PIMS) CSC a cheir adroddiad arnynt gan y swyddog cyfrifol bob chwe mis. Caiff yr adroddiad hwnnw ei gymeradwyo gan y Pennaeth Gwasanaeth perthnasol. Mae Rheolwr yr Is-adran Amgylchedd Naturiol a Chadwraeth a'r Swyddog Bioamrywiaeth yn gyfrifol am sicrhau bod y cynllun yn cael ei gyflawni a'i fonitro ac am gynnwys holl swyddogion perthnasol CSC yn y broses honno. Mae cyflawni pob cam gweithredu yn gofyn am gyswllt rheolaidd rhwng y swyddogion hyn a'r rhai sy'n gyfrifol am bob cam gweithredu unigol. Er bod hyn yn cymryd amser mae'n hanfodol os yw arferion gwaith yn mynd i newid.

Efallai mai cyflawniad parhaus y Blaengynllun yw ei fod wedi bod yn ddull o godi ymwybyddiaeth o'r angen i ymchwilio a bod yn gwbl ymwybodol o effaith unrhyw gynllun neu brosiect ar fioamrywiaeth ar gychwyn y prosiect.

## 6.2 Monitro'r gwaith o gyflawni'r Blaengynllun gan CSC

I grynhoi, gyda'r mesurau canlynol yn eu lle, mae amcanion Blaengynllun CSC yn cael eu hyrwyddo, ac mae'r gwaith o gyflawni'r cynllun yn cael ei fonitro:

- Ymgysylltu a chydweithio â swyddogion trwy sesiynau gweithdy, cefnogi swyddogion i newid arferion gwaith, monitro a myfyrio ar gamau gweithredu
- Integreiddio camau gweithredu'r Blaengynllun y cytunwyd arnynt gydag arferion gwaith, polisïau a chynlluniau, gan gynnwys Cynlluniau Busnes Is-adrannol
- Adolygu camau gweithredu, diweddaru targedau ac adrodd i PIMS bob 6 mis.
- Adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor Craffu ar gyflawni camau gweithredu.
- Sicrhau bod pob adroddiad sy'n mynd i bwyllgorau'r Cyngor yn cyfeirio yn ôl y galw at Ddeddf yr Amgylchedd yn ei Asesiad Effaith Integredig

Mae CSC wedi rhoi ar waith y systemau angenrheidiol ar gyfer datblygu'n barhaus y ffordd y mae'n cyflawni ei Flaengynllun, ac mae Tabl 1 yn crynhoi'r ffordd y cyflawnwyd y camau gweithredu a nodwyd ym Mlaengynllun 2023–2025. Wrth i bobl ar draws y sefydliad ddod yn fwy a mwy cyfarwydd â'r ffordd newydd hon o weithio, derbynnir y daw'n rhwyddach i gyflawni camau

gweithredu mwy niferus a mwy uchelgeisiol. Mae CSC yn parhau i adeiladu ar ei gamau gweithredu llwyddiannus, ac mae hyn yn helpu i wreiddio ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ofynion Deddf yr Amgylchedd ar draws yr awdurdod ar bob lefel.

Mae'r Cyngor wedi defnyddio dull ymarferol o gyflawni ei Flaengynllun. Gan ddefnyddio ei PIMS mae'n monitro'r camau gweithredu y mae'r cynllun hwn yn eu cynnwys, gan sicrhau bod ei ddyletswydd Adran 6 yn cael ei chydnabod a'i deall ar draws yr awdurdod, a bod camau priodol yn cael eu rhoi ar waith, eu cyflawni ac yr adroddir arnynt.

## 6.3 Pa faterion bioamrywiaeth a gododd yn 2023–2025?

6.3.1 Mae **sefyllfa byd natur** yn parhau i ddirywio. Mae adroddiad diweddaraf Sefyllfa Byd Natur 2023 y DU yn darparu darlun manwl o sut mae natur yn ymdopi ac mae'n datgelu graddfa ddinistriol o'r colledion natur ledled y DU, y pwysau sy'n effeithio ar natur, a'r hyn sydd ei angen i fynd i'r afael â cholledion natur. Mae'r adroddiad yn datgelu bod yr amrywiaeth o 753 o rywogaethau a astudiwyd wedi gostwng 19% ar gyfartaledd ledled y DU ers 1970. Gan ddefnyddio meini prawf y Rhestr Goch, canfuwyd bod 16% (bron i 1500 o rywogaethau) bellach mewn perygl o ddiflannu ym Mhrydain.
Mae Cymru bellach yn un o'r gwledydd mwyaf prin eu natur ar y Ddaear. Yn Sefyllfa Byd Natur Cymru 2023 aseswyd perygl 3897 o rywogaethau o ddiflannu, a hynny gan ddefnyddio meini prawf y Rhestr Goch. Canfuwyd bod 18% (un o bob chwech) mewn perygl o ddiflannu, gan gynnwys rhywogaethau fel llygod pengrwn y dŵr (mae ardaloedd o Sir Gaerfyrddin yn bwysig i'r rhywogaeth hon) a bod mwy na 2% eisoes wedi diflannu yng Nghymru. Mae'r durtur a bras yr ŷd eisoes wedi diflannu o'r awyr yn Sir Gaerfyrddin. Mae rhywogaethau adnabyddus a gofnodwyd yn Sir Gaerfyrddin fel eog yr Iwerydd a'r gylfinir hefyd wedi dioddef dirywiad difrifol yng Nghymru. Mae angen gweithredu brys yn fwy nag erioed.

6.3.2 Mae **clefyd coed ynn** yn dal i fod yn fater pwysig i CSC a bydd yn effeithio ar gyfran sylweddol o'r coed yn ein tirweddau ac yn effeithio ar ein coetiroedd. Rhan o bolisi clefyd coed ynn CSC fydd yr angen i adnabod a threfnu plannu coed a choetiroedd newydd i wneud yn iawn am y colledion hyn.

Mae llawer o goetiroedd â choed ynn yn dioddef o'r clefyd hwn. Mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â'i gyfrifoldebau ei hun ynghylch y clefyd. Mae hefyd wedi datblygu Cynllun Cyfathrebu a fydd yn cynnig cyngor i reolwyr tir a bydd yn mynd i'r afael â'r angen hirdymor i blannu coed. Mae'r Cyngor yn ymwybodol o'r angen i sicrhau bod y coed iawn yn cael eu plannu yn y lleoedd iawn ac nad yw gwerth bioamrywiaeth presennol y safleoedd y bwriedir plannu ynddynt yn cael ei ddiystyru.

6.3.3. Gallai trefniadau yn y dyfodol ar gyfer **cymorth amaethyddol gan Lywodraeth Cymru** gael effaith gadarnhaol ar fioamrywiaeth sydd ynghlwm wrth ein tirweddau amaethyddol. Mae tir amaethyddol a'r cynefinoedd bywyd gwyllt sydd ynghlwm wrtho yn cefnogi llawer o fioamrywiaeth y sir, ac mae gwerth y tir hwn i fioamrywiaeth yn fregus iawn yn wyneb newidiadau i'r gefnogaeth ariannol i amaethyddiaeth. Gallai cymorth i ffermwyr drwy daliadau amaethyddol nid yn unig helpu bioamrywiaeth a'u gwasanaethau ecosystem cysylltiedig ond gallai helpu hyfywedd ffermio yn wyneb tywydd eithafol oherwydd newid hinsawdd.

## 6.4 Casgliadau ac argymhellion ynghylch cyflawni Blaengynllun 2026–2028

Defnyddiodd CSC ddull trefnus a phragmataidd o ddatblygu a chyflawni ei Flaengynllun 2023-2025. Mae wedi ceisio ymgysylltu a chydweithio gyda swyddogion ar draws yr awdurdod i ddatblygu'r gweithredoedd unigol y mae'r cynllun yn eu cynnwys. Mae'r dull hwnnw'n parhau i fod yn ofyniad parhaus i alluogi meysydd gwasanaeth i ddeall goblygiadau'r gofyniad yn llawn ac i ymgorffori gwaith ac adrodd amdano i gefnogi bioamrywiaeth ac ecosystemau mewn ffordd ystyrlon.

Felly, fel rhan o'r gwaith o ddatblygu a chyflawni Blaengynllun 2026–28, byddwn yn anelu at:

• Buddsoddi mewn hyfforddiant pellach a chodi ymwybyddiaeth o ofynion Deddf yr Amgylchedd ar draws meysydd gwasanaeth drwy gynnal gweithdai wedi'u targedu a chydweithio ag adrannau perthnasol i ystyried eu swyddogaethau/darpariaeth gwasanaeth unigol. Dylai hyn arwain at well dealltwriaeth o ddyletswydd Deddf yr Amgylchedd gan swyddogion sy'n gyfrifol am weithgareddau, ynghyd â'u rheolwyr, yn ogystal ag amlygu pwysigrwydd ymgorffori'r gwaith o ddatblygu dyletswydd Adran 6 mewn modd rhagweithiol a'i chyflawni mewn modd ymarferol ynghyd ag arferion gwaith a phwysigrwydd adrodd ar yr hyn y maent yn ei wneud. Bydd y gwaith hwnnw hefyd yn helpu i sefydlu ethos o ran uchelgais uchel ac yn caniatáu ar gyfer datblygu camau gweithredu newydd mwy uchelgeisiol, gan sicrhau bod camau gweithredu PIMS y Blaengynllun yn cael eu hintegreiddio ym mhob Cynllun Rhanbarthol fel y bo'n briodol.
• Bod Blaengynllun Deddf yr Amgylchedd yn rhan o agenda Timau Rheoli Adrannol a Chorfforaethol a'r Pwyllgor Craffu ynghyd a'r Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd, a bod y timau a phwyllgorau hyn yn craffu'r dystiolaeth fod Cyngor Sir Caerfyrddin yn parhau i wella'r ffordd y mae'n cyflawni ei ddyletswyddau Adran 6.



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# ATODIAD 5

## RHESTR O GYFEIRIADAU


Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU (2025). *Heat mortality monitoring report: 2023.* Ar gael yn: Heat mortality monitoring report: 2023 - GOV.UK

BBC (2024). *What is climate change? A really simple guide* (2024) BBC News. Ar gael yn: https://www.bbc.co.uk/news/science-environment-24021772.

Bouygues UK (2025). *Pentre Awel Achieves Net Zero*. Ar gael yn: Pentre Awel Achieves Net Zero - Bouygues UK

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin (2023). *Y Sir Gâr a Garem: Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin 2023-28.* Ar gael yn: Y Sir Gâr a Garem

Cenhedloedd Unedig Y. Climate Change (2024). *The Big Picture. Adaptation and Resilience.* Ar gael yn: Introduction | UNFCCC

Conservation on Biological Diversity (2024). *Kunming-Montreal Global Biodiversity Framework: 2030 Targets (with Guidance Notes).* Ar gael yn: 2030 Targets (with Guidance Notes)

Cyfoeth Naturiol Cymru (2024). *Adroddiad newydd yn darogan effaith tywydd poeth yn ninasoedd Cymru yn y dyfodol.* Ar gael yn: Cyfoeth Naturiol Cymru / Adroddiad newydd yn darogan effaith tywydd poeth yn ninasoedd Cymru yn y dyfodol

Cyfoeth Naturiol Cymru (2024). *Datganiad Ardal De-orllewin Cymru*. Ar gael yn: Cyfoeth Naturiol Cymru / Datganiad Ardal De-orllewin Cymru

Cyngor Sir Caerfyrddin (2024). *Ymchwil, tueddiadau a datblygu* Ar gael yn: Ymchwil, tueddiadau a datblygu - Cyngor Sir Caerfyrddin

Horton, H. (2024). *Blackbird numbers plummet in south of England amid potential spread of virus*. The Guardian. Ar gael yn: Blackbird numbers plummet in south of England amid potential spread of virus | Birds | The Guardian

James. J (2024). *Datganiad Ysgrifenedig: Rhaglen Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol 2024-25.* Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: Datganiad Ysgrifenedig: Rhaglen Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol 2024-25 (19 Mawrth 2024) | LLYW.CYMRU

Kendon. M, Doherty. A, Hollis. D, Carlisle. E, Packman. S, McCarthy. M, Jevrejeva. S, Mattews. A, Williams. J, Garforth. J, Sparks. T (2024). *State of the UK Climate 2023*. International Journal of Climatology/ Volume 44, Issue S1/ pp.1-117.

Llywodraeth Cymru (2015) *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: yr hanfodion*. Ar gael yn: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: yr hanfodion [HTML] | LLYW.CYMRU

Llywodraeth Cymru (2016). *Taflen Ffeithiau Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016*. Ar gael yn: Taflen Ffeithiau 1 Golwg ar Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) cymraeg

Llywodraeth Cymru (2017). *Polisi Adnoddau Naturiol* Ar gael yn: *polisi-adnoddau-naturiol.pdf

Llywodraeth Cymru (2021). *Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru 2020-21*. Ar gael yn: Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru 2020 i 2021.

Llywodraeth Cymru (2021). *Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021*. Ar gael yn: Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Newydd i Gymru 2021: strategaeth lawn

Llywodraeth Cymru (2022) *Archwiliad dwfn bioamrywiaeth: argymhellion. Canlyniad yr archwiliad dwfn bioamrywiaeth sy'n canolbwyntio ar ddiogelu o leiaf 30% o'r tir a 30% o'r môr erbyn 2030*. Cymru.

Llywodraeth Cymru (2024). *Strategaeth Addasu i'r Hinsawdd ar gyfer Cymru*. Ar gael yn: Strategaeth Addasu i'r Hinsawdd ar gyfer Cymru

Madge. G (2021). *Charting the UK's Changing Climate*. Met Office. Ar gael yn: Charting the UK's changing climate - Met Office

McHugh, H. (2024) *How your houseplants could spark a hidden productivity boost*, *BBC Science Focus Magazine - science, nature, technology, Q&As*. Ar gael yn: https://www.sciencefocus.com/science/houseplants-spark-productivity.

NatureScot (2024). *30 by 30 Explained: Background on 30x30 to help inform the co-design of Scotland's 30x30 framework*. Ar gael yn: 30 by 30 explained | NatureScot

Netherwood. N (2021). *UK Climate Risk. Evidence for the third UK Climate Change Risk Assessment (CCRA3): Summary for Wales*. Ar gael yn: CCRA-Evidence-Report-Wales-Summary-Final.pdf

Partneriaeth Natur Sir Gaerfyrddin (2020). *Natur yn Sir Gaerfyrddin: ein dull o weithredu'n lleol 2020-2030*. Ar gael yn: Partneriaeth Natur Sir Gaerfyrddin

Pryfed Peillio yng Nghymru a Llywodraeth Cymru (2018). *Cynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio: Adolygu 2013-18 a Gweithredoedd y Dyfodol*. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-04/cynllun-gweithredu-ar-gyfer-pryfed-peillio-adolygiad-a-chamau-gweithredu-yn-y-dyfodol.pdf

Pwyllgor Newid Hinsawdd (2025). *Pedwaredd Cyllideb Carbon Cymru*. Ar gael yn: Pedwaredd Cyllideb Carbon Cymru - Pwyllgor Newid Hinsawdd

Santos, S. Roxby, P. (2025). *West Nile Virus detected in UK mosquitoes for first time*. BBC News. Ar gael yn: West Nile virus detected in UK mosquitoes for first time - BBC News

SQW (2021). *Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol ar gyfer De Orllewin Cymru*. Ar gael yn: Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol ar gyfer De Orllewin Cymru - Abertawe

Swyddfa Dywydd Y, (2024). *2023 Was the Second Warmest Year on Record for UK*. Ar gael yn: 2023 was second warmest year on record for UK - Met Office

Swyddfa Dywydd Y, (2024). *Effects of climate change*. Ar gael yn: https://www.metoffice.gov.uk/weather/climate-change/effects-of-climate-change#:~:text=How%20will%20climate%20change%20impact,affected%20by%20climate%20change%2C%20too.

Taylor. S (2023)*Llesiant Cymru, 2023.* Ar gael yn: Llesiant Cymru, 2023: Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang [HTML] | LLYW.CYMRU

Ymchwil y Senedd (2023). *Rheoli Perygl Llifogydd yng Nghymru: a oes angen newidiadau?* Ar gael yn: Rheoli perygl llifogydd yng Nghymru: a oes angen newidiadau?